

INDEPENDENT SENTENCING REVIEW

Adroddiad Terfynol a Chynigion ar gyfer Diwygio

Rhagair gan David Gauke

Mae'r Adolygiad Dedfrydu Annibynnol hwn yn digwydd oherwydd yr argyfwng mewn capasiti carchardai. Haf diwethaf, daeth y galw am le mewn carchardai'n beryglus o agos i fynd dros y cyflenwad. Llwyddwyd i atal hyn drwy ryddhau carcharorion ar frys dros yr hydref, ond, pa bynnag mor angenrheidiol oedd hyn, roedd yn bell o fod yn ddelfrydol. Hefyd, mae'r rhagolygon ar gyfer y boblogaeth garchardai a lle mewn carchardai'n awgrymu bod y rhyddhau brys hwn ond wedi gohirio'r argyfwng. Er bod cynlluniau uchelgeisiol i adeiladu mwy o garchardai, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynghori y byddai ceisio lleihau'r galw o 9,500 o lefydd carchar yn helpu i sicrhau bod digon o le i'r troseddwy'r mwyaf difrifol.

Comisiynwyd yr Adolygiad hwn yn erbyn y cyd-destun hwn. Ein prif orchwyl oedd sicrhau bod y boblogaeth garchardai'n gynaliadwy ac na fyddai angen rhyddhau mwy o garcharorion ar frys yn y dyfodol. Yn anochel mae hyn yn golygu sicrhau bod y boblogaeth garchardai'n is na'r rhagolygon blaenorol. I wneud hyn rhaid i ni gyflwyno cynigion fel bod rhai pobl sy'n derbyn dedfryd o garchar ar hyn o bryd yn cael eu cosbi yn y gymuned yn hytrach nag yn y carchar a bod rhai o'r unigolion sy'n dal i dderbyn dedfryd o garchar yn treulio llai o amser yno nag a fyddai wedi digwydd o'r blaen. Amcangyfrifwn y bydd effaith gyfunol pum argymhelliad allweddol yr Adolygiad hwn yn lleihau'r boblogaeth garchardai o tua 9,800.

Er hynny rydym yn cydnabod, er bod y mesurau hyn yn angenrheidiol, nad ydyn nhw'n ddigon i greu sefyllfa gynaliadwy a lleihau nifer y troseddau a'r troseddwy'r sy'n 'beicio' drwy'r system yn gyffredinol. Mewn geiriau eraill, gobeithiwn y bydd y mesurau nid yn unig yn lleihau'r boblogaeth garchardai ond hefyd yn datrys heriau cysylltiedig eraill i'r system cyfiawnder troseddol gan leihau pwysau ar y boblogaeth garchardai yn y dyfodol.

Mae'r cyhoedd angen sicrwydd, sydd ond yn deg, na fydd newid y polisi ar ddedfrydu'n arwain at fwy o droseddu a mwy o ddioddefwyr. Os bydd mwy o droseddwy'r yn derbyn dedfrydau cymunedol er enghraifft, rhaid i'r dedfrydau hynny gael eu gorfodi'n effeithiol a phriodol. Os bwriedir rhyddhau carcharorion yn gynt nag o'r blaen, mae gan ddioddefwyr a'r cyhoedd hawl i fod yn dawel eu meddwl bod camau'n cael eu cymryd i atal aildroseddu.

Mae hyn felly'n thema sy'n rhedeg drwy bob un o'n hargymhellion bod angen gwneud mwy i leihau aildroseddu. Cyflwynwn nifer o argymhellion manwl yn ymwneud â hyn ond yn ganolog i'n dadl yw bod system brawf effeithiol yn gwbl allweddol. Er mwyn delio'n effeithiol â mwy o droseddwy'r yn y gymuned a sicrhau bod carcharorion yn cael eu monitro a'u goruchwyllo'n iawn ar ôl eu rhyddhau, mae system brawf effeithiol yn hanfodol. Bydd ein hargymhellion ar ddedfrydu, os na fydd unrhyw beth annisgwyl yn codi, yn rhoi mwy o faich ar system brawf sydd dan straen aruthrol yn barod. Yn ein barn ni, felly, mae angen i ni gyflwyno cynigion ar gyfer sut y gall y Gwasanaeth Prawf lwyddo yn yr amgylchiadau anodd hyn, gan gynnwys drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau eraill fel llety ar gyfer troseddwy'r, gwasanaethau iechyd i drin problemau cyffuriau ac alcohol, a thechnoleg i fonitro troseddwy'r yn y gymuned.

Mae cynigion o'r fath yn dod gyda chost. Fodd bynnag, credwn fod system cyfiawnder troseddol sy'n delio gyda mwy o droseddwy'r yn y gymuned, ac yn fwy effeithiol yn lleihau aildroseddu, yn rhoi gwerth am arian llawer gwell i'r trethdalwr na phoblogaeth garchardai sy'n ehangu o hyd. Mae'n agenda, felly, ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Gall technoleg chwarae rôl bwysig yn y diwygio hwn. P'un ai drwy fonitro troseddwy'r yn y gymuned neu ryddhau swyddogion prawf o wneud gwaith gweinyddol diangen, mae mesurau y gellir eu gweithredu yn y tymor byr i gynorthwyo'r broses hon. Chwiliwn hefyd am gyfleoedd ar gyfer y dyfodol i fod yn fwy effeithiol.

Gwyddom hefyd fod llawer o ddioddefwyr wedi eu siomi gyda'r system bresennol. Fel y nodwn yn Rhan 1 ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn Chwefror, mae dedfrydau o garchar wedi cynyddu'n sylweddol yn y degawdau diwethaf. Fodd bynnag, clywsom yn ystod ein hadolygiad nad yw hyn wedi arwain at fwy o hyder yn y system cyfiawnder troseddol ymhlith dioddefwyr. Mae llawer o ddioddefwyr wedi eu siomi gan system sy'n aml, yn eu barn nhw, yn cyfathrebu'n anfodddhaol a rhoi gwybodaeth aneglur. Nid yw cyfundrefn ddedfrydu ddiangen o gymhleth gyda nifer o bwyntiau rhyddhau yn helpu'r sefyllfa. Dylai rhoi gwybodaeth fwy eglur i ddioddefwyr am bryd y gallai troseddwr gael ei ryddhau olygu bod dioddefwyr yn gallu paratoi'n fwy hyderus am hyn.

Fel y soniais yn flaenorol, mae'r Adolygiad hwn yn digwydd o ganlyniad i reidrwydd brys i leihau'r boblogaeth garchardai o dan ei rhagolygon. Mae'r angen i adrodd yn sydyn wedi tywys ein dull o weithredu. Yn lle ystyried uchafswm dedfrydau, ac mewn rhai achosion isafswm dedfrydau, yn fanwl ar gyfer amrywiol droseddau, cyflwynwn ddull a allai gael ei gymhwyso'n fwy cyffredinol i'r rhan fwyaf o ddedfrydau o garchar. Mae dadl dros ystyried rhai o'r dedfrydau uchafswm ac isafswm hyn ond byddai angen gwneud hyn dros amserlen hirach na'r un oedd ar gael i ni.

Bu'n bosib i ni gyflwyno'r cynigion hyn dim ond oherwydd gwaith caled, mewnwelediad ac arbenigedd y Panel Adolygu Dedfrydu. Mae Arglwydd Burnett o Maldon, Catherine Larsen KPM, Syr Peter Lewis, yr Athro Nicola Padfield, Andrea Simon a Michael Spurr i gyd wedi cyfrannu'n aruthrol. Maen nhw i gyd yn cyfrannu persbectif gwahanol i'r materion dan sylw. Cawsom nifer o drafodaethau llawn a bywiog a rhaid cyfaddef, pe byddent i gyd wedi cael rhwydd hysur annibynnol, y gallent fod wedi cynhyrchu adroddiad eithaf gwahanol o ran tôn a naratif. Er hynny mae holl aelodau'r panel o blaid y pecyn argymhellion a gyflwynir yn y ddogfen hon.

Rydym wedi elwa o'r amryw ymatebion a dderbyniwyd i'n Galwad am Dystiolaeth, a hefyd gan y nifer fawr o unigolion a sefydliadau yr ydym wedi eu cwrdd yn y misoedd diwethaf. Rydym yn dra diolchgar i'r trydydd partïon hynny oedd mor barod i siarad gyda ni.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r swyddogion a fu'n gweithredu fel ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad. Maen nhw wedi gweithio'n ddiwyd, yn aml y tu hwnt i alwad dyletswydd, i sicrhau ein bod wedi gallu ymdrin â llawer iawn o ddeunydd mewn cyfnod byr a chyflwyno beth sydd, yn fy marn i, yn gyfres gytbwys a chydlynus o fesurau i fynd i'r afael â'r heriau uchod.

Y Gwir Anrh. David Gauke,
Cadeirydd yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol

Crynodeb Gweithredol

Pwrrpas a chyd-destun yr Adolygiad hwn

Yn haf 2024, roedd pwysau capasiti wedi dod â'r system garchardai'n beryglus o agos i chwalu. Mae'r boblogaeth garchardai oedolion bresennol, a amcangyfrifwyd i fod dros 87,000 yn Ebrill 2025,¹ yn fwy na'r capasiti y dyluniwyd y system ar ei gyfer a disgwylir iddi gynyddu.

I fynd i'r afael â'r heriau capasiti hyn, mae un llywodraeth ar ôl y llall wedi cael eu gorfodi i gymryd mesurau brys i ryddhau lle mewn carchardai, gan gynnwys drwy leihau pwyntiau rhyddhau rhai carcharorion o 50% o'u dedfryd i 40% (SDS40).² Ni all y mesurau hyn ddatrys yr argyfwng capasiti yn y tymor hir na helpu i redeg ein carchardai'n effeithiol.

Nod yr **adolygiad annibynnol o ddedfrydu** ("yr Adolygiad") hwn, a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Hydref 2024, yw ail-werthuso ein fframwaith dedfrydu'n drylwyr i sicrhau na fydd y wlad byth eto mewn sefyllfa o fod â mwy o garcharorion na lle ar eu cyfer yn y carchar a'r llywodraeth yn gorfod dibynnu ar ryddhau carcharorion ar frys.

Mae'r Adolygiad hwn hefyd yn croesawu'r cyfle i feddwl yn fwy dychmygus am sut y dedfrydwn ac y defnyddiwn garcharu gan gredu, beth bynnag yw'r pwysau ar gapasiti, bod angen diwygio ein system bresennol drwyddi draw er mwyn adsefydlu troseddswyr yn well, lleihau aildroseddu a chefnogi dioddefwyr.

Dibenion dedfrydu, fel y mae'r ddeddfwriaeth yn ei egluro, yw cosbi, lleihau troseddu, gwneud iawn, adsefydlu ac amddiffyn y cyhoedd. Yn ôl adroddiad Rhan 1 yr Adolygiad, [Hanes a Thueddiadau Dedfrydu](#), canfuwyd bod dedfrydu dros yr ugain mlynedd diwethaf wedi canolbwyntio'n anghymesur ar gosbi gyda gwleidyddion a'r cyfryngau'n credu mai "yr unig gosbi sy'n cyfrif yw carcharu."³

Mae cosbi'n nod pwysig i'r system cyfiawnder troseddol ac mae carchar yn chwarae rôl hanfodol yn y cosbi hwnnw. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae gwleidyddion wedi gwneud penderfyniadau gan feddwl mai cosbi yw'r unig beth sy'n bwysig ac nid yw pleidiau gwleidyddol yn meddwl am y ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau troseddu. Mae hyn i'w weld yn y lefel uchel o aildroseddu sy'n awgrymu nad yw'r ffordd bresennol o wneud pethau'n llwyddo i ailsefydlu unigolion na delio â'r rhesymau wrth wraidd troseddu. Yn gyffredinol, mae cyfraddau aildroseddu ar gyfer oedolion wedi amrywio rhwng uchafbwynt o 30.8% ac isafbwynt o 22.7%, gyda'r data diweddaraf yn dangos cyfradd aildroseddu o 27.5%.⁴ Mae'r Adolygiad yn egluro sut y gallai ein system cyfiawnder troseddol gwrdd yn well â phwrrpasau statudol dedfrydu drwy ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithiol i leihau troseddu ac, yn y pen draw, nifer y dioddefwyr.

Dull o weithredu

Mae'r Llywodraeth wedi seilio gwaith yr Adolygiad hwn ar dair egwyddor sylfaenol a eglurir yn y Cylch Gorchwyl:

- Yn gyntaf rhaid i ddedfrydau gosbi troseddswyr ac amddiffyn y cyhoedd – rhaid o hyd sicrhau lle yn y carchar i'r troseddswyr mwyaf peryglus.
- Yn ail rhaid i ddedfrydau annog troseddswyr i droi cefn ar fywyd o droseddu, gan dorri troseddu drwy leihau aildroseddu.
- Yn drydydd rhaid i ni ehangu a gwneud defnydd mwy o gosbi y tu allan i garchar.

[Wele Atodiad A ar gyfer Cylch Gorchwyl llawn yr Adolygiad](#)

Mae'r Adolygiad hwn wedi'i dywys gan yr egwyddor bod yn rhaid cael lle yn y carchar i'r troseddwr mwyaf peryglus sy'n cyflwyno risg rhy uchel i'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid yw'r dull yn y degawdau diwethaf o anfon mwy o bobl i'r carchar am fwy o amser yn gynaliadwy. Casglodd Ran 1 adroddiad yr Adolygiad fod y gost enfawr i'r llywodraeth a threthdalwyr wedi'i gwaethygu drwy anfon mwy o droseddwr i garchar, ac wrth i ddedfrydau o garchar fynd yn hirach. Amcangyfrifwyd bod cadw unigolyn yn y carchar am y flwyddyn 2023-24 yn costio £53,801⁵, ac y bydd rhaglenni adeiladu carchardai arfaethedig y Llywodraeth yn costio rhwng £9.4 biliwn a £10.1 biliwn.⁶

Ar sail y tueddiadau presennol, disgwylir i nifer y bobl fydd yn cael eu hanfon i'r carchar fynd dros y cyflenwad.⁷ Yn ôl y Weinyddiaeth Gyfiawnder, bydd ceisio lleihau'r galw am lefydd carchar o 9,500 yn helpu i sicrhau bod digon o le ar gael i'r troseddwr mwyaf difrifol, ynghyd â hyblygrwydd a lle ychwanegol wrth gefn i gwrdd ag unrhyw sioc allanol.

Mae adeiladu carchardai fel ateb i'r argyfwng hwn yn amlwg yn opsiwn costus a fyddai hefyd ar draul buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus eraill a allai helpu i leihau aildroseddu. Mae dull cosbol llywodraethau diweddar yn ariannol anghynaliadwy a hefyd yn methu â chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Cyfeiriodd Ran 1 o ganfyddiadau'r Adolygiad at dystiolaeth yn dangos nad dedfryd i garchar yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau aildroseddu a thorri troseddu.⁸ Roedd dadansoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o gohort troseddwr 2016 a aeth ymlaen i aildroseddu ymhen 12 mis yn amcangyfrif bod cost economaidd a chymdeithasol aildroseddu'n £18 biliwn.⁹

Mae'r Adolygiad wedi ystyried, felly, sut y gall y Llywodraeth ddefnyddio carcharu mewn ffordd glyfrach a mwy cynaliadwy. Nod yr argymhellion hyn yw sicrhau bod dedfrydau o garchar yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd a chadw dioddefwyr a'r cyhoedd yn ddiogel ond gan hefyd sicrhau bod y system garchardai'n fwy cynaliadwy ac ariannol ddisgybledig. Mae'r Adolygiad hefyd yn gyfle i sicrhau bod polisi dedfryd wedi'i wreiddio yn y mesurau sy'n gweithio orau i leihau aildroseddu er mwyn, yn y pen draw, amddiffyn y cyhoedd ac arwain at lai o ddioddefwyr. Clywsom yn aml nad yw'r system bresennol yn cwrdd ag anghenion dioddefwyr a bydd argymhellion yr Adolygiad hwn yn ceisio ateb yr angen i fod yn fwy tryloyw wrth ddedfryd a sicrhau cymorth mwy cyson i ddioddefwyr.

Y consensws diamheuol, o'r dystiolaeth a gasglodd yr Adolygiad, yw mai cymorth i adsefydlu'n iawn yn y gymuned, mewn llawer o achosion, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau aildroseddu. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau y mae'n ofynnol i droseddwr weithio gyda nhw wrth gyflawni dedfryd yn y gymuned neu gael eu rhyddhau i'r gymuned ar drwydded, ar ôl dedfryd o garchar.

Yn gyntaf, gall rhaglenni adsefydlu yn y gymuned fynd i'r afael â'r pethau sydd wrth wraidd troseddu drwy ymyriadau arbenigol ac wedi eu teilwrio i'r unigolyn, fel gofynion iechyd meddwl a thrin cyffuriau ac alcohol.¹⁰ Mae dedfrydau cymunedol hefyd yn cynnwys ystod o ofynion gan greu dedfryd bwrpasol sy'n cyflawni holl bwrpasau dedfryd a hefyd yn rhoi cyfle i droseddwr drawsnewid eu bywydau.¹¹ Gall dedfrydau di-garchar aflonyddu llai ar lety a chyflogaeth a chyfrifoldebau teuluol ac mae'r aflonyddwch hwn wedi'i adnabod i fod yn hyrwyddo troseddu ac aildroseddu.¹² Gall opsiynau di-garchar hefyd fod yr un mor gosbol â dedfrydau byr o garchar drwy fynnu bod troseddwr yn cydymffurfio â nifer o rwymedigaethau dros gyfnod llawer hirach a chyfyngu ar eu rhyddid a'u hymddygiad.

Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod y gall carchardai gorlawn o ganlyniad i bwysau capasiti effeithio ar faint o waith adsefydlu ystyrion y gellir ei gynnig. Yn ôl adroddiad blynyddol Arolygiaeth Carchardai EF 2022-23, roedd safonau gweithgareddau ystyrion wedi sgorio'n wael neu'n anfoddhaol ym mhob carchar oedolion i ddynion a arolygwyd heblaw am un.¹³ Yn ôl adroddiad 2023-2024 yr Arolygiaeth, "yn lle bod carcharorion yn cymryd rhan mewn

gweithgareddau neu ymyriadau i leihau eu risg o aildroseddu...gwelodd yr arolygwyr gynnydd mewn cyffuriau anghyfreithlon, hunan-niweidio a thrais.”¹⁴

Mae'r Adolygiad hefyd wedi adnabod pecyn o fesurau nid yn unig i geisio llenwi'r bwlch mewn capasiti ond a fydd hefyd yn creu system fwy gefnogol ac effeithiol i droseddwy'r a'u dioddefwyr. Er mai lle'r Llywodraeth yw penderfynu pa rai o argymhellion yr Adolygiad y bydd yn eu derbyn, mae'r Adolygiad yn gweld ei argymhellion fel pecyn holistig o fesurau fydd yn gweithio orau o gael eu gweithredu gyda'i gilydd.

Cynhaliodd yr Adolygiad ddadansoddiad i ddeall effaith debygol ei gynigion a argymhellir ar leoedd carchardai, a gyhoeddir hefyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn yn Atodiad B. Byddai effaith gyfunol y pum polisi allweddol a argymhellir gan yr Adolygiad yn arbed tua 9,800 o lefydd carchar.

Mae'r Adolygiad hefyd yn pwysu ar y Llywodraeth i ystyried tegwch gweithdrefnol wrth ddylunio a gweithredu ei argymhellion, i sicrhau bod pobl yn y system cyfiawnder troseddol yn cael eu trin yn deg a chyfartal.

Mae'r Adolygiad yn cydnabod pa mor bwysig yw Gwasanaeth Prawf sy'n gweithio'n dda a chael ei ariannu'n deg i helpu i weithredu ei argymhellion. Mae effaith llwythi achosion uchel a chymhleth ynghyd â thoriadau cyllid wedi bod yn sylweddol gan arwain at lai o adnoddau ar gyfer goruchwyliaeth a chymorth yn y gwasanaeth prawf¹⁵. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi cyfyngu ar gapasiti swyddogion prawf i roi sylw digonol ac unigol i droseddwy'r¹⁶. Ynghyd ag argymhelliad i fuddsoddi rhag blaen, mae'r Adolygiad yn cydnabod bod adnoddau'n dynn ac yn debygol o barhau i fod yn dynn ac, felly, ac y bydd angen i'r Gwasanaeth Prawf flaenoriaethu sut y mae'n goruchwyllo a rheoli troseddwy'r er mwyn darparu'r rhaglenni a'r ymyriadau angenrheidiol. Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod y gallai mwy o droseddwy'r yn cael eu rheoli yn y gymuned hefyd effeithio ar wasanaethau'r heddlu gan awgrymu bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio'n agos â'r Swyddfa Gartref i ddeall yr effaith yma.

Ein Sgôp

Rhoddwyd yr orchwyl i'r Adolygiad o ail-werthuso agweddau penodol ar reoli dedfrydu a throeddwy'r yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, roedd amrywiol ffactorau sy'n effeithio ar gapasiti carchardai y tu allan i'w sgôp.

Y mesurau ar gyfer lleihau'r pwysau ar gapasiti carchardai, ar wahân i adeiladu mwy o garchardai, yw **1)** lleihau faint o bobl sy'n cael eu hanfon i garchar, **2)** lleihau hyd dedfrydau o garchar yn gyffredinol, a **3)** symud unigolion drwy'r system yn gynt. Mae argymhellion yr Adolygiad yn ymwneud yn bennaf â'r mesur cyntaf a'r mesur olaf.

Mae nifer o ffactorau dedfrydu y gellid eu defnyddio i gau'r bwlch rhwng y galw a'r cyflenwad o lefydd carchar y tu allan i sgôp, gan gynnwys dedfrydau allan o lys, carcharu ar remand, dedfrydau Carcharu i Ddiogelu'r Cyhoedd (IPP) a'r fframwaith dedfrydu statudol ar gyfer llofruddiaeth. Nid yw'r Adolygiad ychwaith wedi ystyried dedfrydu mewn achosion unigol na rôl y farnwriaeth. Mae'r Llywodraeth yn ystyried rhai o'r ffactorau hyn ar wahân. Bydd yr Adolygiad Annibynnol o Lysoedd Troseddol, wedi'i gadeirio gan Syr Brian Leveson, yn argymhell diwygiadau ychwanegol i greu system cyfiawnder troseddol fwy cynaliadwy. Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad o laddiadau a'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.

Ym Mhennod Naw, mae'r Adolygiad yn awgrymu beth sydd angen i'r Llywodraeth ei ystyried yn fwy manwl i gyfrannu at system garchardai a fyddai'n hirdymor gynaliadwy, gan drafod ffactorau oedd naill ai y tu allan i sgôp yr Adolygiad hwn neu na chafodd yr Adolygiad amser

i'w hystyried yn llawn. Mae'r rhain yn cynnwys ystyried hyd dedfrydau o garchar ar gyfer rhai troseddau, er enghraifft drwy newid uchafswm ac isafswm dedfrydau, a bod rhai grwpiau wedi eu cynrychioli'n anghymesur yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod gwerth ymyrryd yn gynnar i atal pobl rhag ymuno â'r system cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf a rhoi sylw, lle bo'n bosib, i'r ffactorau sy'n cyfrannu at droseddu. Mae dedfrydu, carcharu a phrawf yn cynnwys nifer gyfyngedig o ffactorau sy'n gallu lliniaru troseddu a chadw dioddefwyr a'r cyhoedd yn ddiogel. Yn y pen draw, lleihau faint o bobl sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol fydd yn cael yr effaith fwyaf ar broblemau capasiti. Dylai'r Llywodraeth barhau i ystyried, ar draws ei holl adrannau, pa fesurau a fyddai'n effeithiol i atal troseddu am y tro cyntaf.

Methodoleg a phroses

Mae'r Adolygiad wedi casglu tystiolaeth helaeth a gweithredu rhaglen o ymgysylltu â rhanddeiliaid i oleuo ei argymhellion.

Derbyniwyd ychydig dros fil o ymatebion i'n Galwad am Dystiolaeth gan nifer o wahanol sefydliadau ac unigolion yn cynnwys cyrff cyfiawnder troseddol, cyrff trydydd sector, dioddefwyr, cyn-droseddwyr ac unigolion dan glo, staff rheng flaen, academyddion ac aelodau o'r cyhoedd. Ychwanegwyd at y ddealltwriaeth werthfawr hon drwy gynnal amrywiol fyrdau crwn ac ymweliadau gan yr Adolygiad gan helpu i daflu golau pellach ar bethau fel y posibilrwydd o ddefnyddio technoleg yn y broses dedfrydu, materion rhywedd mewn dedfrydu'n ymwneud â thrais yn erbyn merched a genethod, a phersbectif dioddefwyr a hefyd y rhai gyda phrofiad byw o'r system. Roedd ymweld â charchardai (dynion a merched), unedau gwasanaeth prawf, hosteli prawf yn y gymuned a chanolfannau merched yn sicrhau bod safbwyntiau rheng flaen yn bwydo i waith dadansoddi ac argymhellion yr Adolygiad.

Edrychodd yr Adolygiad hefyd ar systemau rhyngwladol cymharol i ddysgu o arferion gorau ledled y byd, gan ymweld â Sbaen a Texas. Wele Atodiad C am bapur crynodeb o'r holl dystiolaeth a gasglwyd drwy Alwad am Dystiolaeth a rhaglen ymgysylltu'r Adolygiad.

Canfyddiadau Allweddol o Ran 1¹⁷

- **Mae'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf wedi bod yn gweithio dan straen enfawr oherwydd pwysau capasiti.** Mae gan Gymru a Lloegr un o'r cyfraddau carcharu uchaf y pen yng Ngorllewin Ewrop.
- **Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at dwf y boblogaeth carchardai.** Mae cynnydd wedi bod mewn defnyddio a hyd dedfrydau o garchar a galw'n ôl i garchar. Ar yr un pryd mae llai o ddefnydd wedi bod o ddedfrydau di-garchar a gorchmynion dedfrydau gohiriedig. Mae newidiadau deddfwriaethol hefyd wedi arwain at dreulio mwy o amser yn y carchar gan greu fframwaith dedfrydu cymhleth i ddioddefwyr, troseddwr a'r cyhoedd.
- **Mae'r naratif gwleidyddol "caled ar droseddu" wedi cael effaith negyddol ar bolisi dedfrydu.** Mae'r naratif hwn yn canolbwyntio ar garcharu am hirach a blaenoriaethu mesurau cosbi dros ystyriaethau eraill. Mae naratif y cyfryngau, sy'n aml yn canolbwyntio ar achosion proffil uchel neu anghyffredin, wedi gwreiddio camddealltwriaeth am y system a chaledu agwedd y cyhoedd at droseddu.
- **Mae taer angen newid.** Gwariwyd £4.2 biliwn ar garchardai yn 2022-23. Bydd y gwariant hwn yn parhau i gynyddu os na fyddwn yn lleihau'r boblogaeth carchardai. Mae adeiladu ein ffordd allan o argyfwng yn ddruod a bydd costau'n debygol o gynyddu gyda chwyddiant. Mae'r cynlluniau adeiladu presennol yn parhau i syrthio'n brin o'r cynnydd disgwylidig.

Argymhellion

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Pennod Un: Mae **Edrych Eto ar Bwrpasau Statudol Dedfrydu** yn edrych ar y canlyniadau y dyluniwyd ein fframwaith dedfrydu presennol i'w cyflawni. Daw i'r casgliad bod cosbi, er yn rhan hanfodol o'r system cyfiawnder troseddol, wedi cael blaenoriaeth anghymesur ac nad oes digon o ffocws wedi bod ar leihau troseddu. Yr argymhelliad yn y bennod hon yw:

- **1.1:** Diwygio pwrpasau statudol dedfrydu i bwysleisio pwysigrwydd diogelu dioddefwyr a lleihau troseddu

Pennod Dau: Mae **Cryfhau Opsiynau Eraill i Garcharu yn y Gymuned** yn trafod sut y gallwn wneud dedfrydau cymunedol yn fwy effeithiol. Mae'r bennod hon yn cynnwys argymhellion i gynorthwyo dedfrydwyr i fanteisio'n llawn ar hyblygrwydd dedfrydu cymunedol, a chydbwysu cosbi, goruchwyliaeth ac adsefydlu priodol. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **2.1:** Diwygio'r fframwaith dedfrydu i sicrhau y gall dedfrydwyr fanteisio'n llawn ar hyblygrwydd dedfrydu cymunedol, gan gynnwys cosbau ariannol a gorchmynion ategol
- **2.2:** Diwygio canllawiau dedfrydu a fframweithiau prawf i ehangu sgôp cosbi fel rhan o orchmynion cymunedol
- **2.3:** Buddsoddi mwy mewn darparwyr Gofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol fel bod gan droseddwr gyda phroblemau iechyd meddwl neu gyffuriau / alcohol fynediad gwell atynt
- **2.4:** Symleiddio a chryfhau gorchmynion cymunedol drwy ddileu'r Gofyniad Gweithgareddau Adsefydlu a chyflwyno Gofyniad Prawf ehangach

Pennod Tri: Mae **Dibynnu Llai ar Garcharu** yn dadlau y dylid carcharu nid yn unig lle bo'n briodol ond yn niffyg popeth arall. Mae'r bennod hon yn cyflwyno cyfres o fesurau i wneud defnydd llai o garcharu am droseddau llai difrifol, gan annog cosbi effeithiol yn y gymuned a allai helpu troseddwr i adsefydlu'n well. Mae'r Adolygiad hefyd wedi ystyried sut i gryfhau'r ymateb i droseddau gyda chymhelliad ariannol os na fyddai carchar ar ei ben ei hun efallai'n cosbi ac atal yn ddigonol. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **3.1:** Deddfu i sicrhau bod dedfrydau byr o garchar ond yn cael eu rhoi mewn amgylchiadau eithriadol
- **3.2:** Ehangu uchafswm Gorchmynion Dedfrydau Gohiriedig i ddedfrydau o hyd at dair blynedd o garchar
- **3.3:** Ehangu cyfnod dedfrydau wedi eu hatal i 12 mis
- **3.4:** Annog defnyddio dedfrydau wedi eu hatal ar gyfer troseddwr risg isel gydag anghenion a allai gael eu cwrdd yn y gymuned
- **3.5:** Dylai'r Cyngor Dedfrydu gyflwyno canllawiau ar ddefnyddio dedfrydau wedi eu hatal
- **3.6:** Casglu a chyhoeddi data ar ddedfrydau wedi eu hatal
- **3.7:** Cynyddu Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol i fod yn berthnasol i holl amser troseddwr yn y carchar yn ogystal ag am 5 mlynedd ar ôl eu rhyddhau
- **3.8:** Ystyried cryfhau gorchmynion atafaelu i sicrhau y gellir gweithredu'r gyfraith yn deg yn ymarferol

- **3.9:** Ystyried sefydlu cynllun derbynyddiad troseddol, gan gynnwys derbynyddiad gohiriedig

Pennod Pedwar: Mae **Annog Symud Troseddwyd o Garchar i'r Gymuned** yn egluro sut y gellir symud troseddwyd yn ddiogel o'r carchar i'r gymuned drwy drefn "cynnydd wedi'i ennill" – system o wobrwyo cydymffurfio â rheolau carchardai. Mae'r bennod hon hefyd yn edrych ar newidiadau i alw'n ôl i garchar gan ehangu ar ddefnyddio amodau agored mewn carchardai a gwella mynediad at lety yn y gymuned i roi'r siawns orau o lwyddo i rai sy'n gadael y carchar ar ôl symud i'r gymuned. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **4.1:** Cyflwyno model "cynnydd wedi'i ennill" ar gyfer rhai sy'n treulio dedfrydau penodol safonol
- **4.2:** Cyflwyno model "cynnydd wedi'i ennill" ar gyfer rhai sy'n treulio dedfrydau penodol estynedig
- **4.3:** Cyflwyno model galw'n ôl newydd i rai sy'n treulio dedfrydau penodol safonol, gyda meini prawf a throthwyon mwy llym
- **4.4:** Cynyddu a theilwrio'r defnydd o amodau agored lle bo'n addas i droseddwyd
- **4.5:** Buddsoddi mwy a gwella mynediad at lety yn y gymuned i droseddwyd sy'n gadael y carchar a rhai gyda dedfrydau yn y gymuned

Pennod Pump: Mae **Dull Dioddefwr-Ganolog o Weithredu** yn cydnabod y gall y drefn ddedfrydu bresennol, i lawer o ddioddefwyr, fod yn aneglur a rhy gymhleth gan gyfrannu at ddiffyg ymddiriedaeth a phryderon. Nod y cynigion a wneir yn y bennod hon yw codi'r llen oddi ar y broses ddedfrydu fel bod dioddefwyr yn derbyn mwy o eglurder, cymorth sy'n deall trawma, a chyfathrebu amserol ac empathetig. Mae'r bennod hefyd yn trafod trais yn erbyn merched a genethod a sut y gellir cefnogi dioddefwyr y troseddau hyn yn well drwy ddedfrydu. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **5.1:** Lansio ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus o ddedfrydu
- **5.2:** Ystyried sut i fod yn fwy tryloyw am faint o amser y mae troseddwr yn ei dreulio yn y carchar
- **5.3:** Adolygu'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr a thystion a datrys y pethau sy'n rhwystro gwybodaeth a chymorth effeithiol
- **5.4:** Parhau i roi copïau am ddim o sylwadau dedfrydu'r barnwr i ddioddefwyr Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol
- **5.5:** Adnabod camdrinwyr domestig yn well ar bwynt eu dedfrydu i sicrhau bod yr ymyriadau iawn yn eu lle i reoli troseddwyd
- **5.6:** Darparu mwy o Lysoedd Cam-drin Domestig Arbenigol
- **5.7:** Gwella hyfforddiant i ymarferwyr cyfiawnder troseddol a barnwyr ar drais yn erbyn merched a genethod i gynorthwyo dedfrydu a rheoli troseddwyd yn briodol
- **5.8:** Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Prawf ddigon o adnoddau i reoli camdrinwyr trais yn erbyn merched a genethod, gan gynnwys ar gyfer monitro electronig

Pennod Chwech: Mae **Dedfrydu Targed ar gyfer Gwahanol Grwpiau** yn cydnabod mai dedfrydau wedi eu teilwrio i'r unigolyn sy'n rhoi'r canlyniadau gorau a gwella rhagolygon adsefydlu ar gyfer mathau penodol o droseddwyd fel troseddwyd cyson, hŷn a merched. Mae'r bennod hon hefyd yn trafod ymyriadau fferyllol i helpu troseddwyd i ymatal rhag cyflawni troseddau rhywiol a thrin caethiwed i gyffuriau ac alcohol. Yn olaf, mae'r bennod yn ystyried ffyrdd o symud ymaith troseddwyd o dramor (FNO). Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **6.1:** Sicrhau bod mwy o Lysoedd Goruchwyllo Dwys ar gael i ddelio â throseddwy cyson
- **6.2:** Darparu cyllid mwy cynaliadwy a hirdymor i Ganolfannau Merched
- **6.3:** Sicrhau bod merched sy'n troseddu'n derbyn cymorth priodol drwy (1) ehangu'r defnydd o gyswllt a dargyfeirio a (2) ystyried llwybr penodol i ferched fel rhan o ofynion trin Cyffuriau ac Alcohol
- **6.4:** Casglu a chyhoeddi data ar ddefnydd o garchar fel "lle diogel"
- **6.5:** Comisiynu astudiaeth o effaith a chanlyniadau'r ddeddfwriaeth Ymosod ar Weithwyr Brys
- **6.6:** Gwneud mwy o ddefnydd o Ryddhau'n Gynnar ar Seiliau Tosturiol ar gyfer troseddwy'r hyn addas
- **6.7:** Cytuno ar strategaeth i reoli anghenion iechyd cymhleth troseddwy'r hyn
- **6.8:** Hwyluso symud Troseddwy'r o Dramor ymaith yn gynt
- **6.9:** Casglu corff o dystiolaeth ar ddefnyddio llethu cemegol ar gyfer troseddwy'r rhyw ac ystyried opsiynau ar gyfer parhau i ariannu gwasanaethau yn y maes hwn
- **6.10** Parhau i fonitro meddyginiaethau newydd i drin caethiwed i gyffuriau ac alcohol

Pennod Saith: Mae **Rôl y Gwasanaeth Prawf** yn trafod swyddogaeth hanfodol y Gwasanaeth Prawf mewn rheoli troseddwy'r yn y gymuned. Mae'r bennod yma'n cynnig defnyddio mwy ar y trydydd sector ar sail tystiolaeth bod y sector yn gallu, o'i defnyddio'n briodol, rhoi canlyniadau adsefydlu gwell i droseddwy'r. Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod gwerth technoleg, gan gynnwys deallusrwydd artifisial (AI), ar gyfer lleihau beichiau gweinyddol yn y Gwasanaeth Prawf gan felly ryddhau amser ac adnoddau y byddai'n well eu buddsoddi mewn adeiladu perthnasoedd cryf a dibynadwy gyda throseddwy'r. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **7.1** Buddsoddi mwy yn y Gwasanaeth Prawf i gefnogi capasiti a gwydnwch
- **7.2:** Cynyddu'r cyllid ar gyfer y trydydd sector er mwyn cynorthwyo'r Gwasanaeth Prawf i reoli troseddwy'r yn y gymuned a chomisiynu mwy o sefydliadau lleol
- **7.3:** Defnyddio mwy ar y trydydd sector i gefnogi troseddwy'r ar ddeddfyrdau cymunedol ac ar drwydded, i helpu'r Gwasanaeth Prawf i flaenoriaethu adnoddau a gwella canlyniadau i droseddwy'r
- **7.4:** Defnyddio mwy ar dechnoleg a brofwyd i fod yn gweithio yn y Gwasanaeth Prawf er mwyn hwyluso ymgysylltu mwy ystyrlon rhwng ymarferwyr a throseddwy'r ar brawf

Pennod Wyth: Mae **Rôl Technoleg** yn edrych ar sut y gall technoleg (gan gynnwys AI) leihau beichiau gweinyddol ac efallai trawsnewid sut y mae ein system gyfiawnder yn gweithio. Mae'r bennod hon yn trafod sut y gall technoleg helpu i fonitro a goruchwyllo troseddwy'r yn well a hwyluso mwy o rannu data a chydweithio rhwng gwasanaethau, gan helpu troseddwy'r i adsefydlu a chynorthwyo i ddiogelu a rhoi mwy o eglurder i ddioddefwyr. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **8.1:** Defnyddio technoleg yn fwy effeithiol i amddiffyn y cyhoedd a gwella adsefydlu
- **8.2:** Buddsoddi mewn ehangu cynlluniau peilota technoleg llwyddiannus a ddefnyddir i oruchwyllo troseddwy'r
- **8.3:** Gofyn bod pob technoleg a ddatblygir ar gyfer rheoli troseddwy'r yn cael ei integreiddio â gwyddoniaeth ymddygiad
- **8.4:** Gwella rhannu data rhwng asiantaethau sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf

- **8.5:** Cydweithredu mwy gyda diwydiant ar ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau newydd i drawsnewid y gwasanaeth, gan gynnwys uwch-dechnoleg AI.

Pennod Naw: Mae **Ystyriaethau mwy Hirdymor ar gyfer System Garchardai Gynaliadwy** yn trafod sut i sicrhau na chollir unrhyw gynnydd a wneir yn dilyn gweithredu argymhellion yr Adolygiad hwn a bod llywodraethau i ddod o ba bynnag blaid yn gwneud penderfyniadau am gapasiti carchardai ar sail y dystiolaeth. Mae'r bennod hefyd yn ystyried gwaith pellach sydd angen ei wneud i ddeall rôl newidiadau deddfwriaethol fel cynyddu uchafswm ac isafswm dedfrydau, cynyddu hyd dedfrydau a hefyd y gwaith pwrpasol sydd angen ei wneud i ddeall canlyniadau anghymesur yn y system gyfiawnder yn well. Yr argymhellion yn y bennod hon yw:

- **9.1:** Cyflwyno corff cynghori allanol
- **9.2:** Cyflwyno gofyniad bod Gweinidogion yn gwneud datganiad i'r Senedd yn ystod cyflwyno Bil newydd ar effaith y Bil ar y galw mewn carchardai

Pennod Un: Edrych Eto ar bwrpasau statudol dedfrydu

Er mwyn cwrdd â'r her a ddisgrifir yn Rhan 1 o ganfyddiadau'r Adolygiad, mae angen edrych eto ar bum pwrpas statudol dedfrydu ac ystyried ydyn nhw'n ateb anghenion system cyfiawnder troseddol fodern.

ARGYMHELLIAD 1.1: Diwygio pwrpasau statudol dedfrydu i bwysleisio pwysigrwydd diogelu dioddefwyr a lleihau troseddu

Casgliad yr Adolygiad yw bod yn rhaid i'r system cyfiawnder troseddol adnabod anghenion dioddefwyr, a chymdeithas yn gyffredinol, yn benodol drwy sicrhau bod y dedfrydau a roddir i droseddwyr yn dryloyw a bod y system yn gweithio i amddiffyn dioddefwyr drwy leihau troseddu ac aildroseddu. Felly, mae'r Adolygiad yn argymhell diwygio pwrpasau statudol dedfrydu i gyfeirio'n benodol at fod angen amddiffyn dioddefwyr ynghyd â'r cyhoedd yn gyffredinol.

Mae'r Adolygiad yn argymhell cyflwyno "lleihau troseddu" fel egwyddor gyffredinol ar gyfer y pum pwrpas dedfrydu. Bydd hyn yn sicrhau bod y fframwaith dedfrydu yn y sefyllfa orau i ddefnyddio adnoddau'r llywodraeth yn effeithiol drwy atal dioddefwyr yn y dyfodol.

Er nad oes hierarchaeth gyfreithiol ar gyfer sut y dylid gweithredu'r pwrpasau dedfrydu, mae'r duedd i roi dedfrydau hirach heb dystiolaeth gadarn eu bod yn helpu i atal a lleihau aildroseddu'n awgrymu bod gormod o bwyslais ar yr egwyddor o gosbi.

Mae'r Adolygiad hefyd felly'n argymhell nodi'n glir nad oes unrhyw hierarchaeth i'r pum pwrpas dedfrydu. Nodir hyn yn glir mewn awdurdodaethau cyfraith gyffredin eraill. Er enghraifft, yn Seland Newydd, ar ôl rhestru'r pwrpasau dedfrydu, mae'r gyfraith yn nodi "er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes unrhyw beth yn y drefn y mae'r pwrpasau hyn yn ymddangos yn y rhan yma'n awgrymu bod angen rhoi mwy o bwysau i un pwrpas nag i'r lleill."¹⁸ Mae Canllawiau Dedfrydu'r Alban yn rhestru pwrpasau dedfrydu "heb fod mewn unrhyw drefn neilltuol".¹⁹

Gyda'i gilydd, dylai'r diwygiadau hyn i bwrpasau statudol dedfrydu gyfrannu at "ail-osod" dedfrydu gan sicrhau ei fod yn gweithio i leihau troseddu ac amddiffyn dioddefwyr.

Pennod Dau: Cryfhau opsiynau eraill i garcharu yn y gymuned

Gall cosbi yn y gymuned gynnig opsiwn da arall yn lle carcharu

O dan orchymyn cymunedol, rhaid i rywun wneud nifer o bethau na fyddent fel arall yn dewis eu gwneud gan fygythiad o dorri amodau a sancsiynau pellach – carchar o bosib – os ydynt yn gwrthod. Mae gorchmynion cymunedol yn gorfodi gofynion llym ar droseddwr fel gwneud gwaith di-dâl, cadw at gyrffiw, ymrwymo i driniaethau iechyd meddwl a chyffuriau a chwblhau rhaglenni adsefydlu. Mae cosb yn rhan annatod o'r gorchmynion hyn drwy gyfyngu ar ryddid, gorfodi strwythur ar fywyd dydd i ddydd a gorfodi pobl i wynebu'r pethau a achosodd, a chanlyniadau, eu gweithredoedd.

I lawer o droseddwr a throseddau, gall dedfrydau cymunedol gyflawni pwrpasau statudol dedfrydu.²⁰ Nid yn unig y maen nhw'n cosbi ond hefyd yn gwneud iawn gweladwy yn y gymuned a lleihau troseddau drwy wneud i droseddwr ddelio â'r pethau sydd wrth wraidd eu troseddau. Mae'r dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol yn awgrymu y gall gorchmynion cymunedol sydd ag adnoddau digonol weithio'n dda i leihau aildroseddau a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Yn ôl dadansoddiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae gorchmynion cymunedol a gorchmynion dedfrydau gohiriedig yn gysylltiedig â llai o aildroseddau, sydd wedi'i brofi, na dedfrydau byr o garchar (llai na 12 mis).²¹ Mae Rhan 1 adroddiad yr Adolygiad yn disgrifio sut y mae Sbaen, yr Iseldiroedd²² a thalaith Texas yn UDA wedi defnyddio dedfrydau cymunedol sy'n cynnwys pethau fel monitro electronig, cymorth seiciatrig integredig a mwy o driniaethau cyffuriau ac alcohol.²³

Derbyniodd yr Adolygiad dystiolaeth, yn cynnwys gan gyn-droseddwr, o sut y mae gorchmynion cymunedol wedi cynorthwyo unigolion i newid eu hymddygiad yn y tymor hir a throi cefn ar droseddau. Clywodd yr Adolygiad gan grwpiau dioddefwyr mai'r hyn y maen nhw ei eisiau ei weld yw dim mwy o droseddau felly mae'n greiddiol bwysig nodi ym mha achosion y gallai cosbi yn y gymuned fod yn ddedfryd fwy effeithiol i leihau aildroseddau.

Gydag amrywiaeth o ofynion i ddewis ohonynt, mae cosbi yn y gymuned yn golygu bod barnwyr ac ynadon yn gallu teilwrio dedfryd i natur y drosedd ac i anghenion ac amgylchiadau penodol pob troseddwr, gan roi elfen o hyblygrwydd nad oes ar gael ar gyfer carcharu neu ddirwyon. Mae'r Adolygiad hwn yn credu bod yn rhaid rhoi hyblygrwydd i ddedfrydwyr roi'r cosbau mwyaf priodol ac effeithiol gan ddibynnu ar drosedd ac amgylchiadau penodol y troseddwr a pheidio â theimlo bod yn rhaid gorlwytho troseddwr gyda gofynion gormodol neu anghyson a allai, yn y pen draw, olygu eu bod yn methu cyn cychwyn ([mwy o fanylion yn Argymhellad 2.2](#)).

Er y dystiolaeth bod dedfrydau cymunedol yn effeithiol gyda chosbi troseddwr, amddiffyn dioddefwyr a lleihau aildroseddau, mae lleihad amlwg wedi bod yn eu defnydd. Roedd y nifer a roddir yn flynyddol i lawr o 61% rhwng 2010 a 2024.²⁴ Am y flwyddyn yn diwedd ym Mehefin 2010, roedd 14% o ddedfrydau'n rhai cymunedol ond, yn 2024, dim ond 6%.²⁵ Drwy Alw am Dystiolaeth ac ymgysylltu, derbyniodd yr Adolygiad dystiolaeth fod yn rhannol efallai oherwydd

diffyg hyder gan ddedfrydwyr mewn opsiynau effeithiol eraill yn lle carcharu ac a allai Gwasanaeth Prawf sydd dan yr holl bwysau ddarparu gorchmynion cymunedol.

Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod gan y Gwasanaeth Prawf a darparwyr gofynion gorchmynion cymunedol ddigon o gymorth i ddarparu'n effeithiol a thrwy hynny ennill yr effaith orau o ddedfrydau cymunedol.²⁶

Sicrhau'r effaith orau o ddedfrydau cymunedol

Ar ddiwedd Rhagfyr 2024 roedd 240,362 o unigolion – wedi eu rhyddhau o garchar ac ar ddedfrydau cymunedol – dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf.²⁷ Mae hyn yn gynydd o tua 140,000 o bobl yn 1995.²⁸ Mae'r Adolygiad yn cydnabod y bydd ei argymhellion ar gyfer dedfrydau cymunedol yn effeithio ar y straen sylweddol a'r baich gwaith cynyddol sy'n wynebu'r Gwasanaeth Prawf. I reoli'r cynnydd mewn llwythi achosion a sicrhau y gellir gweithredu argymhellion yr Adolygiad yn y bennod hon, rhaid i'r Gwasanaeth Prawf flaenoriaethu ei adnoddau presennol. Ar lefel ehangach, dylid cofio os yw cosbi yn y gymuned i fod mor llwyddiannus â phosib bod angen buddsoddi mwy yng ngwaith y Gwasanaeth Prawf a chyrrff trydydd parti gyda darparu'r gofynion ([mwy o fanylion ym Mhennod Saith](#)).

Yn olaf, rhaid hefyd ystyried cosbi'n gadarn yn y gymuned yng ngoleuni'r adnoddau helaeth sy'n cael eu neilltuo i ddedfrydau o garchar. Roedd amcan-gost cadw un unigolyn yn y carchar am flwyddyn yn 2023-24 yn £53,801,²⁹ gyda chynlluniau'r Llywodraeth i adeiladu mwy o garchardai'n costio rhwng oddeutu £9.4 biliwn a £10.1 biliwn.³⁰ Roedd cost gyfartalog ychwanegu un unigolyn at lwyth achosion gorchmynion llys (gorchmynion cymunedol a gorchmynion dedfrydau gohiriedig) y Gwasanaeth Prawf yn 2023-24 yn oddeutu £3,150.³¹ Casgliad yr Adolygiad yw y gellid defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol trwy eu hailgyfeirio, yn rhannol, at strategaethau rheoli troseddwr yn y gymuned.³²

Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod bod nifer o faterion pellach yn ymwneud â sut y mae gorchmynion cymunedol yn cael eu darparu a'u llwyddiant, a allai fod wedi cyfrannu at y lleihad mewn gorchmynion ers 2010. Un mater yw bod angen darparu dedfrydau cymunedol yn fwy amserol a thrafodwn hyn ar ddiwedd y bennod hon.

ARGYMHELLIAD 2.1: Diwygio'r fframwaith dedfrydu i sicrhau y gall dedfrydwyr fanteisio'n llawn ar hyblygrwydd dedfrydu cymunedol, gan gynnwys cosbau ariannol a gorchmynion ategol

Mae nifer o gosbau cymunedol ar gael i ddedfrydwyr. Maen nhw'n cynnwys gorchmynion cymunedol a'r amryw o ofynion posib y gellir eu hatodi iddynt, yn ogystal â gorchmynion ategol (fel datgymhwyso, talu iawndal, ayyb) a dirwyon, sy'n cosbi ac adsefydlu troseddwr mewn gwahanol ffyrdd. Dylai dedfrydwyr fod yn gallu defnyddio'r opsiynau hyn mewn ffordd hyblyg gan deilwrio'r gosb a'r mesurau adsefydlu i'r troseddwr unigol ac i'w hymddygiad troseddol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r fframwaith dedfrydu'n cyfyngu ar ddefnyddio'r opsiynau hyn.

Mae gorchmynion ategol yn cael eu rhoi gan farnwr neu ynad ar ben dedfryd y troseddwr er mwyn ateb nifer o bwrpasau – er enghraifft gellir rhoi gorchmyn talu iawndal i unioni'r niwed a achosodd y troseddwr, a gellir rhoi gorchmyn ymddygiad troseddol neu orchmyn gwahardd i leihau aildroseddu a diogelu dioddefwyr. Mae gorchmynion ategol hefyd yn gallu cyfyngu ymhellach ar ryddid drwy wahardd gyrru neu deithio.

Mae dirwyon ar gael i gosbi pob trosedd heblaw am ddedfrydau gorfodol fel llofruddiaeth. Dirwyon yw'r ddedfryd fwyaf cyffredin yng Nghymru a Lloegr ers tro byd. Am y flwyddyn yn diweddu ym Medi 2024, derbyniodd 79% o droseddwr ddirwyon, fel arfer am droseddau moduro diannod.³³ Rhaid i lysoedd ystyried modd ariannol y troseddwr wrth benderfynu faint o ddirwy i'w rhoi; nod canllawiau'r Cyngor Dedfrydu yw sicrhau bod dirwyon yn effeithio'n gyfartal ar droseddwr heb yrru troseddwr o dan lefel gynhafiaeth resymol.³⁴

Gall opsiynau dedfrydu cymunedol fel gwaharddiadau a dirwyon gyfyngu a chosbi rhai troseddwr yn fwy nag eraill. Er enghraifft, i droseddwr gyda modd digonol, gallai gwahardd gyrru gael effaith gosbi fwy na dirwy o £5,000 y gallent ei rhoi ar gerdyn credyd, ond i droseddwr heb fawr o fodd ariannol o gwbl, gallai dirwy o £100 fod yn gosb drom iawn. Gallai dirwy drom wedi'i thargedu hefyd fod yn fwy o gosb i rai troseddwr na chyfnod byr yn y carchar.

Mae'r fframwaith dedfrydu presennol yn cyfyngu ar hyblygrwydd barnwyr ac ynadon i ddefnyddio cosbau cymunedol a theilwrio cosbau i droseddwr. Yn gyntaf, gyda llawer o'r gorchmynion ategol sydd ar gael i ddedfrydwyr i gyfyngu ar droseddwr, nid ydynt ar gael fel dedfrydau ynddynt eu hunain, dim ond fel gorchmynion i'w hatodi i ddedfrydau. Gellir ond defnyddio rhai o'r gorchmynion ategol hyn³⁵ – fel gwahardd rhag mynd i gemâu pêl-droed – ar gyfer “trosedd berthnasol” a restrir o dan Ddeddf Gwylwyr Pêl-droed 1989.³⁶ Mae'n golygu, ar hyn o bryd, na ellir eu rhoi i bobl a gyflawnodd trosedd nad oedd yn ymwneud â phêl-droed. Mae'r Adolygiad yn credu y dylai'r cosbau hyn ddod yn brif ffrwd fel y gall dedfrydwyr eu defnyddio'n hyblyg a lle bo cosb o'r fath yn briodol i'r trosedd a'r troseddwr.

Mae cyfyngiadau tebyg ar bwerau fel anghymhwysio rhag gyrru – ers 1998, “gall unrhyw lys orfodi cosb o anghymhwysio rhag gyrru am unrhyw trosedd”, ond “ni ellir defnyddio'r pŵer yn fympwyl” a “dylid fel arfer ei gadw ar gyfer achosion lle'r oedd y troseddwr yn gyrru...neu'n defnyddio cerbyd i gyflawni'r trosedd”.³⁷

Yn ôl tystiolaeth a dderbyniwyd drwy'r Alwad am Dystiolaeth, mae ynadon yn gallu cael trafferth defnyddio'r canllawiau dedfrydu ar gyfer gorchmynion ategol. Yn ôl y Sefydliad Siartredig o Weithredwyr Cyfreithiol (CILEX), “mae'r catalog o orchmynion ategol yn ddiangen o gymhleth, i ymarferwyr ac i'r holl bartïon yn yr achos”.³⁸ Gallai hyn olygu nad yw troseddwr yn derbyn y gwaharddiadau a gorchmynion mwyaf priodol.

Mae dirwyon hefyd yn cael eu defnyddio'n llai hyblyg yn aml drwy fod yng ngwaelod yr hierarchaeth ddedfrydu, gan effeithio ar faint o gosb a brofir gan y troseddwr. Ar gyfer troseddau heb ddedfryd o garchar ar eu cyfer, fel bod yn feddw ac afreolus mewn lle cyhoeddus, gellir ond rhoi dedfryd o ryddhau amodol neu ddirwy, sy'n cyfyngu ar y gosb sydd ar gael am droseddau fel hyn.³⁹ Hefyd, er bod y canllawiau dedfrydu'n nodi na ddylai dirwyon gyfrannu at galedi ariannol, mae tystiolaeth gan sefydliadau fel *Transform Justice*, Cymdeithas yr Ynadon a'r Ganolfan Arloesi Cyfiawnder yn awgrymu bod yr effaith ariannol y mae dirwy'n ei gael ar droseddwr ar incwm isel yn gosb anghymesur ac felly nad yw profiad troseddwr o ddirwyon yr un fath bob tro.⁴⁰

Mae'r Adolygiad yn argymhell nifer o newidiadau i'r fframwaith i roi mwy o hyblygrwydd i ddedfrydwyr ar gyfer cosbi yn y gymuned:

- Dylai nifer o orchmynion ategol – fel gwahardd rhag mynychu gemâu pêl-droed – gael eu hystyried nid yn unig fel rhai “ategol” – dylid gallu eu rhoi fel dedfrydau ynddynt eu hunain. Byddai hyn yn gyfrannu at wneud defnydd mwy prif ffrwd o'r cosbau hyn.
- Ni ddylid cyfyngu'r opsiynau hyn i ‘troseddau perthnasol’ yn unig fel ar hyn o bryd oherwydd gallai gyfyngu ar ddedfrydwyr yn gallu teilwrio gorchmynion a chosb i droseddwr. Gallai hefyd gynnwys ychwanegu anghymhwysio rhag gyrru fel un o ofynion posib gorchmyn cymunedol.

- Dylid adolygu'r canllawiau ar ddirwyo er mwyn gallu dirwyo'n fwy hyblyg, er mwyn sicrhau canlyniad sy'n cosbi mwy, lle bo hynny'n briodol, a hefyd i osgoi cosbi troseddwr lefel-isel ac ar incwm isel yn anghymesur.
- Yn olaf, dylid ystyried opsiynau eraill ar gyfer cosbi pobl yn y gymuned. Gallai hyn gynnwys cyfyngiadau ar-lein fel gwaharddiad ar gyfryngau cymdeithasol, unwaith y gellid gorfodi gorchymyn o'r fath.

I gefnogi'r argymhelliad hwn, mae'r Adolygiad yn awgrymu symleiddio'r canllawiau dedfrydu ar gyfer gorchmynion ategol i fod yn gliriach a chynorthwyo i'w defnyddio'n fwy cyson Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wella ansawdd y data y mae'n ei gasglu ar wahanol fathau o gosb yn y gymuned er mwyn deall yn well ar gyfer beth y mae dedfrydwyr yn eu defnyddio, lefelau cydymffurfio, a'u heffaith ar leihau aildroseddu. Mae'r data presennol yn cyfyngu ar asesu pa mor dda y mae'r gwahanol fathau o gosb hyn yn gweithio. Yn olaf, rhaid ystyried effaith gwneud defnydd mwy hyblyg o gosbi cymunedol ar y gwasanaethau sy'n gyfrifol am orfodi cydymffurfio, fel y Gwasanaeth Prawf ([mwy o fanylion ym Mhennod Saith](#)).

Yn ôl Cymdeithas yr Ynadon, "mae angen trawsnewid y system er mwyn grymuso'r llysoedd i ddefnyddio atebion hyblyg a chreadigol i ddelio â'r pethau sydd wrth wraidd troseddu", yn ogystal ag "atebion yn lle'r mesurau cosb traddodiadol a fyddai'n gosb wirioneddol yn yr achos dan sylw".⁴¹ Ychwanegodd Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS) fod gorchmynion ategol yn "gallu bod yn hynod bwysig i ddioddefwyr a phwrpasau dedfrydu" gan alw am adolygu'r gorchmynion hyn fel "nad ydynt yn ddedfrydau eilaidd yn unig neu'n gam hwyr yn y broses ddedfrydu".⁴²

Roedd y CPS a CILEX yn argymhell symleiddio gorchmynion ategol ar gyfer dedfrydwyr.⁴³ Aeth yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA) ymhellach drwy "groesawu ystyried gorchmynion mwy penodol i fygythiad" gan awgrymu Gorchymyn Atal Seiber-Droseddu / Troseddau Ar-lein fel y gallai "asiantaethau gorfodi'r gyfraith a HMPPS fonitro ac ymgysylltu'n fwy effeithiol ag unigolion a gafwyd yn euog o droseddau lefel-isel" ac sydd efallai'n "fregus i gael eu recriwtio gan grwpiau troseddu cyfundrefnol (OCG)".⁴⁴

Roedd y Cyngor Dedfrydu'n awgrymu bod y Llywodraeth yn ystyried, os defnyddir mwy ar orchmynion cyfyngu, sut y gallai cynnydd mewn achosion o dor-gorchymyn effeithio ar adnoddau Prawf a'r llysoedd. Awgrymwyd hefyd pe bai dedfrydwyr yn defnyddio gorchmynion ategol yn amlach, y dylid ystyried hyd y gorchymyn i sicrhau na fyddai'n cosbi'n anghymesur, yn enwedig os gallai'r gorchymyn bara'n hirach na dedfryd cyfnod byr o garchar.⁴⁵

ARGYMHELLIAD 2.2: Diwygio canllawiau dedfrydu a fframweithiau Prawf i ehangu sgôp cosbi fel rhan o orchmynion cymunedol

Fel y trafodwyd, mae cosb yn rhan annatod o ddedfryd a orfodir, gyda'r holl ofynion a orfodir ar y troseddwr yn cynnwys cyfyngu ar ryddid.

Pasiwyd Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 i ateb pryderon y llywodraeth glymblaid ar y pryd nad oedd gorchmynion cymunedol yn cynnwys elfen amlwg o gosb. Mae'r Ddeddf yn gofyn bod y llysoedd yn cynnwys o leiaf un "gofyniad a gyflwynir i bwrpas cosbi" neu ddirwy, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.⁴⁶ Mae hyn bellach wedi'i gyfuno yn Neddf Dedfrydu 2020.⁴⁷ Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi pa ofynion y dylai dedfrydwyr ystyried fel rhai 'cosbol',⁴⁸ fodd bynnag yn dilyn newidiadau diweddar i'r canllawiau, dim ond rhai gofynion a ystyrir i fod yn rhai cosbol.

Yn ôl canllawiau dedfrydu newydd sydd heb ddod i rym eto, gellir gorfodi unrhyw ofyniad ar droseddwr i bwrpas cosbi, ond gan hefyd awgrymu na ddylid fel arfer defnyddio Gofyniad Gwaith Ailsefydlu (RAR) a gofynion triniaeth fel mesurau cosbi.⁴⁹ Mae canllawiau'r Gwasanaeth Prawf hefyd yn nodi bod gwaith di-dâl a chyrrffw drwy fonitro electronig yn cael eu "derbyn yn gyffredin" fel gofyniad cosbi ac os yw swyddog prawf yn awgrymu rhywbeth arall i'r dedfrydwr, "rhaid rhoi rhesymau clir am hyn".⁵⁰ Ymddengys bod y canllawiau hyn yn cyfyngu ar sut y mae actorion yn y system cyfiawnder troseddol yn deall cosb gan gyfyngu ar ddisgresiwn dedfrydwyr i benderfynu ar y ddedfryd fwyaf priodol.

Gall meddwl am 'gosb' mewn ffordd mor gul fod yn niweidiol i adsefydlu a pheidio ag arwain at lai o aildroseddu. Gallai gweld cosbi dim ond yn nhermau gwaith di-dâl neu gyrffw bob tro heblaw mewn amgylchiadau eithriadol olygu bod dedfrydwyr yn ychwanegu gofynion sydd yna'n troi'n wrthgynhyrchol a chynyddu pwysau a chost i'r system. Er enghraifft, gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol gyda gorchmynion aml-ofynion i droseddwr ag anghenion cymhleth, fel troseddwr cyson a rhai gyda phroblemau iechyd meddwl a / neu sy'n gaeth i gyffuriau / alcohol. Mae Gofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol (CSTR) yn cael eu gorfodi ar droseddwr sy'n aml mewn argyfwng. Gallai'r baich ychwanegol o waith di-dâl ar ben gofyniad llym i dderbyn triniaeth am broblemau alcohol, cyffuriau neu iechyd meddwl olygu bod y troseddwr yn llai abl i gwblhau'r driniaeth er mwyn troi cefn ar droseddu. Mae troseddwr ag anghenion cymhleth felly'n cael gorchmynion y maen nhw'n annhebygol iawn o gydymffurfio â nhw, a allai eu gwneud yn fwy tebygol o dorri eu gorchymyn neu aildroseddu a chreu mwy o ddioddefwyr.

Mae Argymhelliad 2.1 yn tynnu sylw at botensial cosbol dedfrydau cymunedol ar gyfer gwahanol droseddwr a throseddau. Gallai cyrrffw, er enghraifft, fod yn gosb briodol ar gyfer pob troseddwr ifanc bron ond efallai na fyddai'r profiad yr un fath i droseddwr hŷn. Os yw barnwyr ac ynadon yn defnyddio'r opsiynau hyn, fel gorchmynion ategol, gofynion neu ddedfrydau ynddynt eu hunain, dylid cydnabod os yw'r opsiwn yn ateb pwrpas cosbol statudol y ddedfryd i droseddwr.

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Cyngor Dedfrydu a'r Senedd Ganolog yn edrych eto ar y canllawiau dedfrydu i ehangu sgôp cosbi yn y gymuned a diogelu disgresiwn dedfrydwyr i benderfynu ar y ddedfryd gymunedol fwyaf priodol ar gyfer unigolion. Mae'r Adolygiad yn argymhell bod HMPPS hefyd yn ailystyried y canllawiau Prawf i gefnogi'r nod hwn. Byddai unrhyw ddiwygiadau o'r fath yn cynnwys disodli ystyried pa ofynion a ddylai neu na ddylai gael eu hystyried i fod yn gosbol, ar gyfer bron pob gorchymyn cymunedol, gyda'r pwyslais mai dyletswydd syml a chlir y dedfrydwr yw dewis y gorchymyn cymunedol mwyaf priodol i'r troseddwr. Bydd newidiadau o'r fath yn annog dedfrydau cymunedol mwy cadarn sy'n cwrdd â phwrsasau statudol dedfrydu.

Roedd ymatebwyr i Alwad am Dystiolaeth yr Adolygiad yn aml yn gytûn bod cosb yn rhan annatod o orchmynion cymunedol. Er enghraifft, yn ôl y Ganolfan Arloesi Cyfiawnder⁵¹, mae'r holl ofynion yn y fframwaith dedfrydu cymunedol yn gorfodi cosbau a chaledi a fyddai'n feichus i unrhyw un. Yn ôl Cymdeithas yr Ynadon "mae llai o hyd o opsiynau cosbi ar gael" ac "mae ynadon yn cael eu cyfyngu'n gynyddol rhag rhoi dedfrydau creadigol ac adeiladol sy'n cydbwyso'r pum pwrpas dedfrydu". Aeth y Gymdeithas ymhellach gan awgrymu bod "yr adolygiad yn gyfle gwerthfawr i ehangu ar ddewisiadau dedfrydu, grymuso dedfrydwyr gydag opsiynau ymarferol ac arloesol yn lle dirwyo a charcharu sydd wedi eu teilwrio i anghenion troseddwy'r ond hefyd yn cynnal hyder y cyhoedd."⁵²

ARGYMHELLIAD 2.3: Buddsoddi mwy mewn darparwyr Gofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol fel bod gan droseddwr gyda phroblemau iechyd meddwl neu gyffuriau / alcohol fynediad gwell atynt

Mae Gofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol (CSTR) ar gael fel rhan o orchmynion cymunedol neu orchmynion dedfrydau gohiriedig (SSO) ac yn gofyn bod troseddwr yn derbyn triniaeth i ddelio â'u hymddygiad troseddol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi adnabod bod gan gam-drin cyffuriau ac alcohol gysylltiad cryf ag aildroseddu.⁵³ Mae problemau iechyd meddwl hefyd yn fwy cyffredin ymhlith troseddwr o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol ac mae triniaeth sy'n targedu'r anghenion hyn yn iawn yn hanfodol.⁵⁴ Y tri gofyniad CSTR, a gellir defnyddio rhai mewn cyfuniad, yw Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl (MHTR), Gofynion Adsefydlu Cyffuriau (DRR) a Gofynion Triniaeth Alcohol (ATR).

Mae gwerthusiad o effaith gofynion CSTR wedi awgrymu bod derbyn dedfryd gyda ATR, DRR neu MHTR yn 2018 wedi cael effaith bositif ar aildroseddu o'i gymharu â dedfrydau byr o garchar.⁵⁵ Fodd bynnag, casglodd y gwerthusiad er bod rhai canlyniadau aildroseddu da i droseddwr gyda dedfrydau gydag ATR neu MHTR o'i gymharu â dedfrydau cymunedol heb CSTR, bod troseddwr gyda DRR yn aildroseddu'n amlach o'i gymharu â throseddwr gyda dedfrydau cymunedol heb ofynion CSTR.⁵⁶ Dim ond aildroseddu o fewn blwyddyn i'r ddedfryd (neu ryddhau) yr edrychodd y gwerthusiad arno, gan nodi y gallai effaith dedfrydau CSTR ar ymddygiad troseddol ddigwydd dros gyfnod hirach.⁵⁷ Yn ôl y dystiolaeth a gyflwynodd aelodau o'r mudiad Revolving Doors, sy'n gyn-droseddwr, i'r Alwad am Dystiolaeth, mae gan ofynion CSTR botensial sylweddol i helpu unigolion gydag iechyd meddwl gwael neu sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol, a chynorthwyo adferiad y troseddwr hyn.⁵⁸ Aeth yr aelodau ymlaen i awgrymu bod gofynion CSTR yn gweithio orau o gael eu defnyddio fel gorchmynion cyfunol, fel cyfuno MHTR gydag ATR neu DRR, o gofio bod gan y cohort hwn nifer o anghenion cysylltiedig yn aml.⁵⁹

Er y dystiolaeth i awgrymu y gall gofynion triniaeth fod yn effeithiol, mae'r defnydd o ddedfrydau cymunedol gyda DRR ac ATR yn parhau i fod yn isel.⁶⁰ Dechreuwyd 6,911 o ofynion ATR o dan orchymyn cymunedol / gorchymyn dedfryd ohiriedig yn 2024, o'i gymharu â 8,045 yn 2014.⁶¹ Dros yr un cyfnod, aeth nifer y gofynion DRR i lawr o 12,951 i 8,488.⁶² Mae nifer y gofynion MHTR wedi amrywio dros amser ond wedi codi'n sylweddol yn y tair blynedd diwethaf, o 960 yn 2024 i 4,880 yn 2024.⁶³

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oes gan droseddwr fynediad digonol at driniaeth, yn enwedig triniaeth o ansawdd da, o dan CSTR, sydd yn ei dro'n effeithio ar hyder dedfrydwr mewn atgyfeirio troseddwr i dderbyn y triniaethau hyn.⁶⁴ Roedd Adolygiad Annibynnol 2021y Farwnes Carol Black o gyffuriau'n amlinellu'r trafferthion a wynebwr gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyda derbyn triniaeth gyffuriau yn y gymuned.⁶⁵ Tynnodd yr adroddiad sylw bod toriadau cyllid wedi ehangu'r bylchau mewn triniaeth, lleihau sgiliau ac arbenigedd, a thorri ar gapasiti darparwyr trydydd sector.⁶⁶ Lle y mae gwasanaethau ar gael, yn ôl y Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref mae rhestr aros hir yn achosi oedi cyn derbyn triniaeth.⁶⁷ O ganlyniad, mae diffyg opsiynau triniaeth da a pharod yn atal dedfrydwr rhag atgyfeirio troseddwr.⁶⁸ Mae'r Gwasanaeth Prawf hefyd yn ymwybodol o'r bylchau mewn capasiti ac yn gyndyn o argymhell gofynion CSTR mewn adroddiadau cyn-dedfryd yn y lle cyntaf.⁶⁹ Roedd y gwerthusiad o effaith CSTR yn nodi'n glir nad ydynt yn cael eu darparu'n arferol ac, yn aml iawn, bod y math o driniaeth a'r ansawdd yn amrywio o le i le.⁷⁰

Yn ei hymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, roedd Cymdeithas yr Ynadon hefyd yn awgrymu bod y bylchau sylweddol mewn gwasanaethau ar gyfer MHTR yn tanseilio pa mor effeithiol oedden nhw ac atal dedfrydwr rhag rhoi sylw i anghenion iechyd cymhleth⁷¹. Yn ôl y cyrff trydydd

sector a fynychodd sesiynau bwrdd crwn yr Adolygiad, mae triniaethau a gwasanaethau cymunedol o ansawdd da'n fater o "loteri cod post". Gallwn hefyd ddysgu o ddadansoddiad y Llywodraeth o faint y mae troseddwy'r yn ymgysylltu â'u triniaeth gyda 45.9% o rai gyda dedfryd ATR a 33.1% gyda dedfryd DRR yn ymgysylltu â'u triniaeth⁷². Awgryma'r dadansoddiad fod y rhan fwyaf o'r ymgysylltu'n "digwydd yn gynnar", gyda 20% o rai gyda gofyniad ATR yn derbyn triniaeth o fewn 3 wythnos o'i gymharu â 20% o rai gyda DRR⁷³. Mae'r adroddiad yn awgrymu bod y canfyddiadau hyn yn dangos "bod angen gwneud mwy o waith i wella'r llwybr rhwng gwasanaethau Prawf a thriniaeth" a bod y gyfran isel o bobl gyda gofyniad ATR neu DRR a dderbyniodd driniaeth o fewn tair wythnos yn dangos bod lle i wella'r trefniadau gweithio lleol.⁷⁴

O ystyried y dystiolaeth gynnar o ba mor effeithiol ydyn nhw gyda lleihau aildroseddu, mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn parhau i wella'r gofynion CSTR a throi ei sylw at y tri maes blaenoriaeth i wella eu heffaith:

- 1) adnabod yr unigolion iawn i'w hatgyfeirio am driniaeth ar y cyfle cyntaf posib,
- 2) buddsoddi mwy mewn darparwyr triniaeth
- 3) gwella hygyrchedd ac argaeledd triniaethau.

Byddai buddsoddi mwy mewn darparwyr triniaeth yn helpu i reoli troseddwy'r gyda phroblemau alcohol /cyffuriau / iechyd meddwl yn y gymuned yn well.⁷⁵ Byddai'n cynorthwyo darparwyr i ddatrys rhai o'r heriau sy'n effeithio ar fynediad at, ansawdd ac ymgysylltiad troseddwy'r â'u triniaeth. Mae'r Adolygiad yn awgrymu cyplysu unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn darparwyr CSTR ag edrych yn fwy manwl ar wahaniaethau rhanbarthol gyda darparu a throsolwg ar draws gwasanaethau Prawf a thriniaeth. Byddai hyn yn helpu i sicrhau y gellir ehangu arferion gorau a thriniaethau effeithiol i leihau aildroseddu ledled Cymru a Lloegr. Dylai'r Llywodraeth hefyd weithio i gynyddu ymwybyddiaeth y farnwriaeth o wahanol driniaethau, gan gynnwys gorchmynion sy'n gyfuniad o DRR, ATR ac MHTR. Dylai gwella argaeledd, ansawdd ac effeithiolrwydd triniaethau wella hyder dedfrydwyr mewn gofynion CSTR fel ymyriad cymunedol safadwy.

Byddai'r argymhelliad hwn yn gofyn bod y Llywodraeth yn cydweithredu'n effeithiol â HMPPS a chomisiynwyr iechyd ac awdurdod lleol perthnasol i ariannu ehangu gofynion MHTR, ATR a DRR. Byddai ehangu CSTR hefyd yn dibynnu ar roi mwy o adnoddau i'r Gwasanaeth Prawf i orfodi mwy o ofynion CSTR ([mwy o fanylion ym Mhennod Saith](#)).

Mae'r argymhelliad yn unol ag argymhellion blaenorol i wneud y defnydd mwyaf o ofynion CSTR ac ehangu'r rhaglen CSTR yn unol ag Adolygiad Annibynnol o Gyffuriau 2021.⁷⁶ Mae'r Adolygiad hwn hefyd yn aros am adroddiad y Prif Swyddog Meddygol, gan annog y Llywodraeth i ystyried ei ganfyddiadau ochr yn ochr ag argymhellion yr Adolygiad hwn.

ARGYMHELLIAD 2.4: Symleiddio a chryfhau gorchmynion cymunedol drwy ddileu'r Gofyniad Gweithgareddau Adsefydlu a chyflwyno Gofyniad Prawf ehangach

Cyflwynwyd y Gofyniad Gwaith Ailsefydlu (RAR) o dan Ddeddf Adsefydlu Troseddwy'r 2014 fel rhan o ddiwygiadau ehangach i adsefydlu troseddwy'r yn well yn y gymuned.⁷⁷ Roedd yn disodli'r gofynion 'gweithgaredd' a 'goruchwyliaeth' blaenorol yn y gymuned, a gorchmynion dedfrydau gohiriedig. Ei nod oedd cynorthwyo i adsefydlu troseddwy'r drwy deilwrio gweithgareddau i leihau aildroseddu.

Mae gweithredu RAR wedi bod yn drafferthus. Yn ôl adroddiad gan Arolygiaeth Prawf EF yn 2017, roedd diffyg ymgysylltu ystyrlon â throseddwy'r wrth gynllunio a darparu gofynion RAR.

Casglodd arolygwyr fod defnyddwyr gwasanaeth yn aml yn cael trafferth deall telerau eu gofynion RAR a bod lefel uchel o golli apwyntiadau. Roedd y gyfradd gwblhau'n bryderus gyda dim ond 22% o'r diwrnodau RAR gofynnol yn cael eu cwblhau ar ôl naw mis yn y 72 achos a arolygwyd. Roedd yr un adroddiad yn tynnu sylw at y diffyg arloesi gyda darparu RAR. Yn ôl yr arolygwyr, ychydig iawn o enghreifftiau o waith adsefydlu oedd yn gwneud mwy na'r sylfaenol ac roedd diffyg momentwm yn gyffredinol gyda gweithredu RAR. Roedd y diffyg gweithgaredd ystyrlon hwn yn cael ei briodoli i ddryswch yn y Gwasanaeth Prawf ynghylch beth ddylai gyfrif fel RAR a sut i'w ddarparu'n effeithiol.⁷⁸

Mae camddealltwriaeth sylfaenol am beth yn union yw diwrnod 'RAR' ac nid yw'r ddeddfwriaeth yn diffinio hyn. Gall gweithgaredd yn para dwy awr gyfrif fel un 'diwrnod' os yw'n ymyriad ffurfiol sy'n rhoi sylw i anghenion y troseddwr a'u cynorthwyo i adsefydlu.⁷⁹ Wrth ymgysylltu ar gyfer yr Adolygiad, yn ôl swyddogion prawf roedd RAR yn gor-gyfyngu a rhwystro barn broffesiynol i benderfynu beth sy'n cyfrif fel 'diwrnod RAR'. Dywedodd swyddogion hefyd fod llawer o'r gwaith rheoli argyfwng a wneir ganddynt, a ddylai fod yn waith adsefydlu, yn anghyson â'r diffiniadau presennol o 'ddiwrnod RAR'. Oherwydd y cyfyngiadau y mae RAR yn ei roi ar swyddogion i deilwrio gweithgareddau adsefydlu i droseddwyr, nid yw rhai troseddwyr efallai'n derbyn y cymorth mwyaf priodol, wedi'i bersonoli, a mwyaf effeithiol.

Dywedodd ymatebwyr i Alwad am Dystiolaeth yr Adolygiad fod hyder dedfrydwyr mewn RAR wedi dirywio, yn rhannol oherwydd diffyg gwybodaeth glir am argaeledd ac effeithiolrwydd gweithgareddau RAR. Pwysleisiwyd hyn eto i'r Adolygiad wrth ymgysylltu, gyda swyddogion prawf yn teimlo bod barnwyr yn credu mai loteri oedd darparwyr gwasanaethau cymunedol da. Yn ôl Cymdeithas yr Ynadon "mae gan ynadon bryderon am rai rhaglenni cymeradwy oherwydd diffyg gwelededd o'r hyn sy'n digwydd yn ystod ymyriadau fel diwrnodau RAR. Heb y wybodaeth yma, ni all ynadon fod yn ffyddiog y bydd eu dedfrydau'n effeithiol. Deallwn mai galwad ffôn un awr yw diwrnod RAR yn aml; nid yw hyn yn ddigon o amser i wneud gwaith adsefydlu iawn."⁸⁰

Er mwyn sicrhau gofynion adsefydlu mwy eglur, symlach ac effeithiol, mae'r Adolygiad hwn yn argymhell dileu RAR a chreu 'Gofyniad Prawf' yn ei le.

Ar hyn o bryd o dan RAR, rhaid i'r Gwasanaeth Prawf ddarparu uchafswm o ddiwrnodau gweithgaredd a benderfynwyd gan y llys. Disgrifiwyd diwrnodau gweithgaredd fel "ymyriad ffurfiol i roi sylw i anghenion troseddwr a'u cynorthwyo i adsefydlu".⁸¹ Gyda Gofyniad newydd, ni fyddai dedfrydwyr yn gorchymyn cwblhau nifer benodol o ddiwrnodau dim ond penderfynu hyd y gorchymyn cymunedol (h.y. wythnosau neu fisoedd). Byddai swyddogion prawf yna'n gyfrifol am benderfynu faint o oruchwyliaeth fyddai ei angen ar y troseddwr, sy'n digwydd yn barod o dan RAR, a hefyd y gweithgaredd adsefydlu a fyddai'n ofynnol. Byddai hyn yn cynnwys penderfynu a ddylid terfynu'r Gofyniad Prawf yn gynnar ar ôl gwneud digon o gynnydd. Byddai rhoi'r disgrisiwn hwn i swyddogion prawf yn gadael iddynt fod yn fwy ymatebol i lefelau risg ac anghenion adsefydlu troseddwyr ac felly eu hannog yn well i ymatal rhag troseddu ac amddiffyn y cyhoedd.

Dylid rhoi'r amser, adnoddau ac awtonomi angenrheidiol i swyddogion prawf i greu perthynas ystyrlon â throseddwyr ac ymarfer y cyfrifoldeb newydd hwn i benderfynu beth ddylai Gofynion Prawf ei gynnwys. Hefyd, er mwyn rhoi cymorth adsefydlu wedi'i deilwrio i droseddwyr, dylid gwella'r canllawiau a'r dewis o ymyriadau sydd ar gael i swyddogion prawf. Gallai defnyddio mwy ar wasanaethau trydydd sector lleol helpu i ddarparu ymyriadau arbenigol o ansawdd uchel a gwella hyder dedfrydwyr mewn gofynion adsefydlu, gan gynnwys Gofyniad Prawf newydd. I gyflawni hyn byddai angen rhoi mwy o gyllid i elusennau, gwasanaethau cymunedol a darparwyr arbenigol ([mwy o fanylion ym Mhennod Saith](#)).

Cefnogi diwygiadau i ddedfrydau cymunedol

I weithredu'r argymhellion yn y bennod hon ac ymdopi â llwyth achosion sy'n cynyddu'n barhaus, bydd y Gwasanaeth Prawf yn wynebu mwy fyth o heriau wrth flaenoriaethu adnoddau. I flaenoriaethu adnoddau'n ddiogel, awgryma'r Adolygiad wneud mwy o ddefnydd o ymyriadau y tu allan i'r Gwasanaeth Prawf, lle bo'n briodol ([mwy o fanylion ym Mhennod Saith](#)).

O dan y canllawiau dedfrydu presennol, mae troseddwr yn derbyn gorchymyn cymunedol ar un o dair lefel – isel, canolig neu uchel – gan ddibynnu ar lefel y bai a'r niwed a achosodd eu trosedd(au).⁸² Mae dedfrydwyr yn rhoi gofynion wedi eu teilwrio sy'n cyfateb i'r lefel yma, ac i gwrdd â phwrpasau statudol dedfrydu. Awgryma'r Adolygiad fod y Gwasanaeth Prawf yn defnyddio'r canllawiau hyn ar droseddwy'r a'u troseddau, dan y canllawiau dedfrydu, i benderfynu sut i flaenoriaethu adnoddau a throï troseddwy'r at ddarparwyr gwasanaethau cymunedol mwy arbenigol yn y trydydd sector. Ar gyfer gorchymynion lefel isel, byddai darparwyr trydydd sector yn goruchwyllo'r gwaith dydd i ddydd o reoli'r gorchymyn, a'r Gwasanaeth Prawf yn cadw trosolwg mwy cyffredinol er mwyn sefydlu ac ymateb i unrhyw dor-gorchymyn ([mwy o fanylion yn Argymhellion 7.1 and 7.2](#)).

Dyma enghreifftiau o'r dull haenog hwn o ddefnyddio adnoddau Prawf:

- Gallai troseddwr a gafwyd yn euog o fân-drosedd feddiangar dderbyn gorchymyn lefel isel gan gynnwys Gofyniad Prawf, gan olygu gorfod mynychu Canolfan Ferched yn wythnosol a mân-oruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf.
- Gallai troseddwr a gyflawnodd droseddau treisgar yn ymwneud â cham-drin domestig dderbyn gorchymyn lefel uchel gan gynnwys Gofyniad Prawf, gorchymyn cyfyngu a chyrrffw monitro electronig, y byddai'r Gwasanaeth Prawf yn ei reoli'n fanwl o ddydd i ddydd.
- Gallai troseddwy'r cyson ag anghenion cymhleth dderbyn Gofyniad Prawf a chael eu dedfrydu mewn Llys Goruchwyllo Dwys, fel rhan o becyn dedfrydu cadarn yn cynnwys cymorth amlasiantaethol ac adnoddau i weithredu gorchymyn llys y troseddwr ([mwy o fanylion ym Mhennod Chwech](#)).

Byddai Gofyniad Prawf newydd yn cynorthwyo swyddogion prawf i ddarparu gweithgareddau adsefydlu, cosbau a goruchwyliaeth yn fwy effeithiol a helpu gwasanaethau i wybod ble i flaenoriaethu adnoddau. Pe bai'r argymhelliad hwn (2.4) yn cael ei weithredu, gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fod eisiau ystyried a fyddai'n briodol ymgorffori gofynion CSTR (MHTR, ATR a DRR) yn y Gofyniad Prawf, er mwyn symleiddio gorchymynion cymunedol ymhellach.

Rhaid i'r Llywodraeth flaenoriaethu buddsoddi'n hirdymor yn y Gwasanaeth Prawf i gynorthwyo gwasanaethau i ddarparu gofynion effeithiol, wedi eu teilwrio ar gyfer nifer gynyddol o droseddwy'r, sy'n aml ag ymddygiad troseddol ac anghenion cymhleth. Yn y tymor byr, os na fydd y Gwasanaeth Prawf yn blaenoriaethu eu hadnoddau presennol, bydd dedfrydau cymunedol yn cael llai o effaith dda.

Ystyriaethau pellach ar gyfer dedfrydu cymunedol

Mae'r argymhellion yn y bennod hon yn trafod sut y gallai'r Llywodraeth roi mwy o hyblygrwydd i ddedfrydwyr gyda rhoi dedfrydau cymunedol cadarn a phriodol. Bydd buddsoddi a diwygio gwasanaethau Prawf yn hanfodol ond mae pethau eraill y dylid hefyd eu hystyried. Er enghraifft, rhaid ystyried effaith diffyg tai sefydlog a phriodol i droseddwy'r ar gyfraddau aildroseddu, ar orchmynion cymunedol a gadael y carchar ([mwy o fanylion ym Mhennod Pedwar](#)). Mae oedi cyn darparu dedfrydau cymunedol hefyd yn effeithio ar adsefydlu.

Darparu gofynion yn amserol

Mae darparu gofynion dedfrydau cymunedol yn amserol yn hollbwysig os ydynt i helpu troseddwy'r i adsefydlu ac aildroseddu llai ond hefyd i wella hyder dioddefwyr a'r cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol.

Mae ynadon wedi codi pryderon am yr oedi sylweddol cyn i droseddwy'r orfod dechrau gofynion fel rhaglen achrededig, gorchymyn gwaith di-dâl a chyrrffw. Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, dywedodd Gymdeithas yr Ynadon fod y bwlch rhwng darparu mewn theori, a beth y gellir ei ddarparu'n ymarferol, yn arwain at ddibynnu ar ddirwyon a dedfrydau o garchar hyd yn oed os oes dedfrydau cymunedol mwy addas ar gael.⁸³ Yn ôl yr ymateb: "dywedodd un ynad fod troseddwr wedi derbyn Gofyniad Trin Iechyd Meddwl (MHTR) fel rhan o ddedfryd ohiriedig ond eto na ddigwyddodd yr apwyntiad cyntaf tan bron i chwe mis ar ôl derbyn y ddedfryd. Nid oedd y troseddwr wedi gallu derbyn triniaeth mewn pryd ac wedyn wedi aildroseddu."⁸⁴

Mae gwerthusiad o ofynion gwaith di-dâl gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn pwysleisio'r broblem oedi hon a bod gorfod aros yn hir cyn dechrau gwaith di-dâl yn golygu na all unigolion gwblhau eu horiau yn yr amser sy'n ofynnol gan achosi rhwystredigaeth a chyfnodau hir o waith di-dâl. Hefyd, hira'n byd yw'r oedi rhwng dedfrydu a dechrau gweithio, yr anoddaf wedyn yw gallu cael unigolion i ail-afael mewn pethau a'u cymell i gwblhau eu gwaith di-dâl.⁸⁵

Pennod Tri: Dibynnu llai ar garcharu

Mae dedfrydau o garchar yn chwarae rhan bwysig mewn cosbi troseddwyd gan roi seibiant i ddioddefwyr rhai troseddau a diogelu'r cyhoedd rhag yr unigolion mwyaf peryglus. Bydd rôl o hyd i garcharu yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o garcharu yn y blynyddoedd diwethaf wedi troi'n anghynnaladwy gan achosi costau uwch, mwy o bobl yn y carchar a chanlyniadau lleihau aildroseddu gwael.

Mae'r boblogaeth garchardai yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu o bron i 40,000 ers 1993.⁸⁶ Ochr yn ochr â'r twf yn y boblogaeth garchardai, aeth dedfrydau o garchar yn hirach. Yn 1993 roedd y ddedfryd gyfartalog am droseddau ditiadwy'n 16 mis ond, am y flwyddyn yn diweddu Medi 2024, roedd wedi cynyddu i 22.2 mis.⁸⁷ Nid yw hyn yn cynnwys dedfrydau am oes na dedfrydau amhenodol eraill, ond mae nifer y carcharorion gyda dedfrydau am oes wedi tyfu o 3,086 o garcharorion ym Medi 1993 i 7,491 erbyn Mawrth 2025.⁸⁸ Mae'n werth cydnabod bod cyfraddau poblogaeth garchardai Cymru a Lloegr yn uwch nag yng ngwledydd eraill Gorllewin Ewrop.⁸⁹

Mae'r cynnydd hwn mewn carcharu'n gostus ac nid yw'n helpu i gadw pobl yn ddiogel. Yn 2023 awgrymodd y Prif Arolygydd Carchardai, Charlie Taylor, nad oes digon o le mewn carchardai i garcharorion wneud y gweithgareddau sydd angen iddynt ei wneud i adsefydlu'n iawn.⁹⁰ Yn ôl dadansoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder o gohort troseddwyd 2016 a aeth ymlaen i aildroseddu ymhen 12 mis, mae amcan-gost economaidd a chymdeithasol aildroseddu'n £18 biliwn.⁹¹ Amcangyfrifir bod rhaglenni adeiladu carchardai'r Weinyddiaeth hefyd yn costio rhwng £9.4 biliwn a £10.1 biliwn.⁹²

Mae'n hanfodol bod dedfrydau'n cael eu rhoi mewn ffordd sy'n arwain at leihau aildroseddu ([mwy o fanylion ym Mhenodau Un a Dau](#)). Mae'r Adolygiad felly'n argymhell mesurau i gefnogi dedfrydu i garchar dim ond yn nifyg popeth arall ac, mewn rhai achosion, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, i leihau aildroseddu'n fwy effeithiol.

ARGYMHELLIAD 3.1: Deddfu i sicrhau bod dedfrydau byr o garchar ond yn cael eu rhoi mewn amgylchiadau eithriadol

Yn y flwyddyn yn dod i ben ym Medi 2024, dedfrydwyd 44,800 o bobl i gyfnodau byr o lai na 12 mis o garchar (58% o'r holl ddedfrydau o garchar, o'i gymharu â 56% yn 2023).⁹³ Arweiniodd y twf yma mewn dedfrydau byr at fwy o bobl yn gyffredinol yn cael eu dedfrydu i garchar yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2024.⁹⁴

Er y gall dedfrydau byr o garchar fod yn opsiwn cosbi, maen nhw'n aml yn syrthio'n brin o adsefydlu troseddwyd yn ystyrllon, yn cael effaith wael ar ymatal rhag troseddu, ac yn costio'n ddrud. Yn ôl dadansoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder, roedd dedfrydau byr o garchar (llai na 12 mis) yn gysylltiedig â mwy o aildroseddu wedi'i brofi na gorchmynion dedfrydau gohiriedig a gorchmynion cymunedol.⁹⁵ Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, tynnodd Transform Justice sylw at y diffyg cyfle i adsefydlu a "phwrrpas defnyddiol" a gynigir i droseddwyd sy'n derbyn cyfnodau byr o garchar.⁹⁶ Yn ôl Junction 42 yn un o sesiynau bwrdd crwn yr Adolygiad, "yn aml iawn mae anghysondeb rhwng hyd y ddedfryd ac amserlen y rhaglen adsefydlu", fel bod troseddwyd gyda dedfrydau byrrach o garchar yn aml yn colli allan ar gyfle iawn i adsefydlu yn y carchar. Dywedodd nifer o staff HMPPS hefyd fod dedfrydau byr o garchar yn creu cryn dipyn o gorddi a thrafferth mewn carchardai a bod y baich gweinyddol o dderbyn ac yna rhyddhau troseddwr yn uchel, p'un ai yw'r ddedfryd yn fyr neu'n hir.

Ychydig iawn o adsefydlu sy'n digwydd yn ystod dedfrydau byr o garchar a gall hefyd effeithio ar gyfraddau aildroseddu. Clywodd yr Adolygiad dystiolaeth gan gyn-droseddwyd bod dedfrydau byr o garchar yn gallu creu meri-go-rownd o aildroseddu, gan wreiddio ymddygiad

troseddol. Oedolion sy'n gadael y carchar sydd â'r gyfradd aildroseddu uchaf - 38.3% yn ôl y data diweddaraf, ac mae'r aildroseddu mwyaf yn dilyn dedfrydau byr o garchar (59.2%).⁹⁷ Mae hyn yn debygol o effeithio mwy ar ferched yn y carchar oherwydd bod cyfran fwy o ferched yn derbyn dedfrydau byr o garchar o'i gymharu â dynion ([mwy o fanylion ym Mhennod Chwech](#)).

Roedd gan yr ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth farn negyddol yn bennaf am ddedfrydau byr o garchar, gan annog symud i ffwrdd o'u defnyddio o blaid mwy o ddedfrydau cymunedol. Er enghraifft roedd Cymdeithas y Gyfraith yn dadlau y dylai fod rhagdybiaeth yn erbyn dedfrydau o lai na 12 mis o garchar,⁹⁸ gyda'r Howard League yn mynd yn bellach drwy awgrymu y dylid dileu dedfrydau o 12 mis neu lai o garchar.⁹⁹

Yn ôl Deddf Dedfrydu 2020, dylai rhoi dedfryd o garchar yn niffyg popeth arall os yw'r drosedd "mor ddifrifol fel na ellid cyfiawnhau dirwy ar ei phen ei hun na dedfryd gymunedol."¹⁰⁰ Mae canllawiau gan Gyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr yn nodi'n glir i ddedfrydwyr y dylid ond carcharu yn niffyg popeth arall.¹⁰¹ Fodd bynnag, mae troseddwr a allai gael eu troi i'r gymuned yn dal i dderbyn dedfrydau byr o garchar. Mae'r Adolygiad felly'n argymhell bod y llywodraeth yn mynd gam ymhellach drwy ddeddfu i leihau dedfrydau byr o garchar fel mai ond mewn amgylchiadau eithriadol y maen nhw'n cael eu defnyddio.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Adolygiad yn argymhell deddfu i ddileu dedfrydau byr o garchar. Mae angen i farnwyr ac ynadon gael yr opsiwn o roi dedfrydau byr o garchar mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os oes diffyg cydymffurfio bwriadol â gorchymyn llys, i roi cyfnod o seibiant i ddioddefwr cam-drin domestig, neu i droseddwr a gafodd orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig ond sydd yna'n aildroseddu.

Yn ôl dadansoddiad a wnaed ar gyfer yr Adolygiad, gallai sicrhau bod dedfrydau byr o garchar ond yn cael eu rhoi mewn amgylchiadau eithriadol arbed oddeutu 2,000 o lefydd carchar. [Dylid darllen Atodiad B am fwy o fanylion am hyn](#). Trafodir argymhellion i gynorthwyo gyda rheoli troseddwr ar orchymynion cymunedol yn gadarn ym Mhennod Saith.

ARGYMHELLIAD 3.2: Ehangu uchafswm Gorchymynion Dedfrydau Gohiriedig i ddedfrydau o hyd at dair blynedd o garchar

Gellir rhoi gorchymynion dedfrydau gohiriedig (SSO), neu ddedfrydau gohiriedig o garchar, os byddai'r troseddwr fel rheol yn cael eu dedfrydu i garchar ond bod ffactorau lliniaru personol cryf y dylid eu hystyried, "gobaith realistig" y gallai'r troseddwr ailsefydlu yn y gymuned a / neu risg isel o "effaith niweidiol sylweddol i eraill" pe bai'r ddedfryd yn cael ei gohirio.¹⁰² Gall dedfrydau o hyd at ddwy flynedd o garchar gael eu gohirio am hyd at ddwy flynedd ar hyn o bryd sy'n golygu nad yw'r troseddwr yn mynd i'r carchar yn syth ond yn hytrach yn cael treulio'r ddedfryd yn y gymuned, oni bai eu bod yn torri amodau eu trwydded. Gyda gorchymyn SSO, rhaid i droseddwr gydymffurfio â nifer o ofynion y tu allan i'r carchar drwy gydol eu dedfryd, os yw'r llys wedi gosod gofynion.¹⁰³

Bydd torri SSO, p'un ai yw'n cynnwys gofynion neu beidio, yn arwain at garcharu oni bai y byddai'n anghyfiawn anfon y troseddwr i'r carchar o ystyried yr holl amgylchiadau.¹⁰⁴ Er enghraifft, os yw troseddwr yn cael eu barnu'n euog o drosedd arall yn ystod eu dedfryd ohiriedig, maen nhw'n debygol o orfod treulio'r ddedfryd wreiddiol yn y carchar, a hefyd y ddedfryd ar gyfer y drosedd newydd.

Mae SSO yn gweithio drwy gymhell troseddwr i ymddwyn yn dda a chydymffurfio â'u gorchymyn ac unrhyw ofynion i osgoi treulio'r ddedfryd yn y carchar. Fel y mae Argymhelliad 3.1 yn ei nodi, roedd dadansoddiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi adnabod bod dedfrydau byr o garchar (llai na 12 mis) yn gysylltiedig â lefel uwch wedi'i phrofi o aildroseddu na phe bai gorchymyn cymunedol a / neu SSO wedi ei roi.¹⁰⁵ Mae adolygiad llenyddiaeth gan y Cyngor Dedfrydu (2022) yn seiliedig ar ymchwil o ddata-basau academaidd, adroddiadau a chyhoeddiadau'r llywodraeth ac arbenigwyr yn y maes yn cadarnhau hyn gan nodi hefyd bod

gorchmynion SSO yn ymddangos i fod â'r fantais o "osgoi rhai o effeithiau troseddogenig bod yn y carchar" fel cysylltiadau negyddol â charcharorion eraill.¹⁰⁶

Roedd ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth hefyd, ar y cyfan, o blaid defnyddio gorchmynion SSO a llawer yn galw am ddefnyddio mwy arnynt. Yn ôl sefydliad cyfiawnder troseddol merched, One Small Thing, mae "tanddefnydd dychrynlyd" o ddedfrydau cymunedol, gan gynnwys rhai gohiriedig ac wedi eu hatal, yn y system gyfiawnder.¹⁰⁷

Mae'r Adolygiad hwn yn argymhell y dylai gorchmynion SSO fod ar gael ar gyfer dedfrydau o hyd at dair, yn hytrach na dwy, flynedd o garchar. Byddai hyn yn gadael i'r farnwriaeth gadw eu disgrisiwn i ohirio dedfryd o garchar ond gan roi mwy o gyfle i droseddwr ymatal rhag troseddu. Roedd ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth fel Cymdeithas y Bar Troseddol hefyd yn argymhell ehangu'r defnydd presennol o ddedfrydau gohiriedig o garchar fel bo'r llysoedd yn gallu rhoi dedfryd o hyd at dair blynedd o garchar wedi'i gohirio am dair blynedd.¹⁰⁸

Yn ogystal â rhoi cyfle i droseddwr ymatal rhag troseddu ymhellach, mae'r Adolygiad yn amcangyfrif y gallai'r argymhelliad hwn leihau capasiti carchardai o oddeutu 1,300 o lefydd carchar. [Dylid darllen Atodiad B am fwy o fanylion am hyn.](#)

Dedfrydau wedi eu hatal

Rhoddir dedfryd wedi'i hatal pan fydd llys yn gohirio dedfryd troseddwr er mwyn ystyried eu hymddygiad ar ôl euogfarn neu unrhyw newid yn eu hamgylchiadau.¹⁰⁹ Ar hyn o bryd gellir atal dedfryd am hyd at chwe mis.¹¹⁰ Gall y llys orfodi unrhyw amodau y gwêl yn briodol dros y cyfnod hwn gan asesu i ba raddau y mae'r troseddwr wedi cydymffurfio â'r amodau hyn. Mae'r Cod Dedfrydu'n cynnig enghreifftiau o amodau y gall y llys eu rhoi gan gynnwys amodau'n ymwneud â "phreswylfan y troseddwr" neu "ofynion cyfiawnder adferol".¹¹¹

Gellir defnyddio dedfrydau wedi eu hatal pan fydd troseddwr yn mynd drwy gyfnod o newid fel salwch difrifol neu feichiogrwydd, neu i rai a fyddai'n elwa o fod yn gallu dangos cydymffurfio.¹¹² Gellir rhoi troseddwr ar raglenni cymunedol ystyrllon (fel rhaglenni triniaeth am alcohol) a gorfod cydymffurfio â gofynion penodol i roi sylw i'r pethau sydd wrth wraidd eu troseddu.¹¹³ Os yw troseddwr ar ddedfrydau wedi eu hatal yn dangos cynnydd da ac yn cydymffurfio ag amodau eu gorchymyn, gall y llys roi dedfryd lai iddynt fel dedfryd wedi'i gohirio neu orchymyn cymunedol.

Er y gall dedfrydau wedi eu hatal gynnig manteision cefnu ar droseddu, ychydig iawn o ddata ac ymchwil i'w defnydd yng Nghymru a Lloegr sydd ar gael.¹¹⁴ Clywodd yr Adolygiad yn anecdotaidd mai pur anaml y defnyddir y pŵer i atal dedfrydau. Heb unrhyw ddata mwy diweddar, noda'r Adolygiad bod lleihad o 58% wedi bod yn nifer y dedfrydau wedi eu hatal rhwng 2010 a 2019.¹¹⁵

Roedd llawer wnaeth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth yn galw am ddefnyddio mwy ar ddedfrydau wedi eu hatal. Roedd adolygiad ymarfer yr Academi Ddedfrydu yn 2022 yn pwysleisio'r potensial y gallai dedfrydau wedi eu hatal gynnig "ail gyfle" i droseddwr.¹¹⁶ Tynnodd yr Undeb Llafur NAPO sylw bod dedfrydau wedi eu hatal yn rhoi pŵer i droseddwr allu "hunan-benderfynu" a "hunan-atgyfeirio a gweithio gyda gwasanaethau cyn mynd yn ôl i'r llys".¹¹⁷ Clywsom hefyd fod defnyddio dedfrydau wedi eu hatal yn rhoi canlyniadau addawol o ran lleihau llithro'n ôl a gwella canlyniadau mewn gwledydd fel Seland Newydd,¹¹⁸ a Gogledd Iwerddon.¹¹⁹

ARGYMHELLIAD 3.3: Ehangu cyfnod dedfrydau wedi eu hatal i 12 mis

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn deddfu i ehangu'r cyfnod y gall barnwr neu ynadon ei roi o dan ddedfryd wedi'i hatal yn Llys y Goron neu Lys Ynadon o chwe i 12 mis. Cefnogir yr argymhelliad gan yr Academi Ddedfrydu yn ei hymateb i'r Alwad

am Dystiolaeth gan awgrymu bod hyn yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd mewn gwledydd a thaleithiau eraill, gan gynnwys mewn nifer o daleithiau yn Awstralia.¹²⁰

Byddai ehangu dedfrydau wedi eu hatal i 12 mis yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddedfrydwyr i ddefnyddio eu disgresiwn i asesu "newid mewn amgylchiadau bywyd" sy'n para mwy na chwe mis. Er enghraifft, i rai merched beichiog sydd wedi troseddu, gallai dedfryd wedi'i hatal roi cyfle i'r unigolyn weithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr gofal iechyd, gwasanaethau cymunedol, a dod o hyd i rywle i fyw, gan felly roi cyfle iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio a derbyn dedfryd lai. Gallai hyn liniaru effaith yr euogfarn ar y fam a'r babi ([mwy o fanylion ym Mhennod Chwech](#)).

Hefyd, y dylai'r Llywodraeth ystyried sut y mae dedfrydau wedi eu hatal yn cael eu dadansoddi o fewn targedau GLITEF ar gyfer lleihau ôl-waith llys. Mae'r Ganolfan Arloesi Cyfiawnder yn cyfeirio at dystiolaeth anecdotaidd bod dedfrydwyr yn cael eu "cymell yn bwrpasol i beidio ag atal dedfrydau am fod hynny'n hwyhau'r achos ac effeithio ar dargedau prydoldeb llys GLITEF."¹²¹ Rhaid gwahanu dedfrydau wedi eu hatal yn ystadegau cyfunol y llysoedd i sicrhau nad yw'n ffactor sy'n cyfrannu at eu tanddefnyddio.

ARGYMHELLIAD 3.4: Annog defnyddio dedfrydau wedi eu hatal ar gyfer troseddwr risg isel gydag anghenion a allai gael eu cwrdd yn y gymuned

Yn ôl deunyddiau eglurhaol y Cyngor Dedfrydu, gallai dedfrydau wedi eu hatal fod yn briodol ar gyfer "grŵp bach o achosion sy'n agos naill at y trothwy cymunedol neu garcharu a'r llys, os yw'r troseddwr yn barod i addasu ei ymddygiad mewn ffordd wedi'i rhagnodi'n glir gan y dedfrydwr, wedyn yn barod i roi dedfryd lai."¹²² Mae unigolion a allai ddisgyn i'r categori hwn ac elwa o gymorth yn y gymuned i addasu eu hymddygiad yn droseddwr risg isel ag anghenion uchel, fel bod yn gaeth i alcohol, niwroamrywiol, gyda chyflyrau iechyd penodol, neu drawma.

Dylid annog defnyddio mwy ar ddedfrydau wedi eu hatal ar gyfer troseddwr risg isel i leihau'r niwed a achosir gan y defnydd diangen o ddedfrydau byr o garchar. Mewn adroddiad yn 2023, mae'r Pwyllgor Cyfiawnder a Materion Cartref yn nodi bod dedfrydau wedi eu hatal yn gyfle i "gymell troseddwr i weithio gyda'r Gwasanaeth Prawf drwy wobrwyo ymddygiad da. Noda'r Pwyllgor fod hyn yn "ffordd well" o gwrdd ag anghenion adsefydlu troseddwr lefel isel a pharhaus."¹²³

Ar hyn o bryd, os yw'r llys yn penderfynu atal dedfryd, mae'r Gwasanaeth Prawf yn goruchwyllo'r troseddwr dros y cyfnod atal tan bwynt y dedfrydu.¹²⁴ Er y gallai'r gwaith o fonitro cydymffurfio â gofynion gael ei wneud gan bartneriaeth, y trydydd sector neu asiantaethau gwirfoddol, clywodd yr Adolygiad yn anecdotaidd fod y gwaith hwn fel arfer yn dal i gael ei wneud gan y Gwasanaeth Prawf sy'n gynyddol brin o gapasiti. Clywsom gan gyrff trydydd sector a fynychodd y sesiynau bwrdd crwn fod ganddynt arbenigedd mewn darparu triniaeth a datblygu perthynas effeithiol â'r unigolyn y maen nhw'n eu cefnogi. Byddai gweithio'n fwy mewn partneriaeth â chyrff trydydd sector i fonitro gofynion ar gyfer unigolion dros gyfnod atal eu dedfryd yn cynorthwyo adsefydlu a hefyd yn helpu i leihau'r straen ar y Gwasanaeth Prawf, sydd dan bwysau ([mwy o fanylion ym Mhennod Saith](#)).

Oherwydd y bydd y grŵp yma o bobl yn rhai risg isel ond anghenion uchel, ni fydd angen monitro ehangach y Gwasanaeth Prawf arnynt. Gellir cadw monitro gorchmynion dedfrydau gohiriedig a chymunedol, sy'n cael eu goruchwyllo gan swyddogion prawf, ar gyfer troseddwr sydd angen cymorth a goruchwyllo mwy dwys. Gallai'r Gwasanaeth Prawf wedyn flaenoriaethu adnoddau gan hefyd wneud arbedion hirdymor pe bai'r unigolion yn cael eu troi draw'n llwyddiannus o'r system cyfiawnder troseddol ([mwy o fanylion ym Mhennod Saith](#)).

ARGYMHELLIAD 3.5: Dylai'r Cyngor Dedfrydu gyflwyno canllawiau ar ddefnyddio dedfrydau wedi eu hatal

Ar hyn o bryd nid oes canllawiau penodol i gynorthwyo dedfrydwyr i benderfynu sut a phryd i atal dedfrydau dros dro, er y manteision posib i wahanol droseddwyd. Rhoddir peth gwybodaeth a chynghor yn Neunyddiau Eglurhaol y Cyngor Dedfrydu.¹²⁵ Fodd bynnag, mae cyrff trydydd sector fel Clinks yn argymhell wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth y dylai'r Cyngor Dedfrydu adolygu eu canllawiau ar hyn er mwyn hyrwyddo defnydd effeithiol o ddedfrydau wedi eu hatal.¹²⁶

Mae'n fwiad gan y Cyngor Dedfrydu gyhoeddi canllawiau pellach ar ddedfrydau wedi eu hatal drwy eu Canllawiau Dedfrydu, gan gynnwys ar bwmpas atal dedfryd, y mathau o amodau y gellir eu cynnwys ac y gallai "pobl ifanc" (rhwng 18-25 oed)" a rhai sy'n wynebu "newid mewn amgylchiadau bywyd" elwa o ddedfrydau wedi eu hatal.¹²⁷ Er y bydd gwybodaeth o'r fath yn helpu i gywiro'r diffyg canllawiau ar ddedfrydau wedi eu hatal, nid ydynt mewn grym eto a gallai mwy o fanylion fod yn ddefnyddiol i ddedfrydwyr.

Roedd y Ganolfan Arloesi Cyfiawnder yn nodi bod angen "polisi a chanllawiau clir ar bryd i ddefnyddio dedfrydau wedi eu hatal", gan gynnwys manylion ar y math o achosion.¹²⁸ Er enghraifft, roedd yr Alwad am Dystiolaeth yn adnabod troseddwyd a allai elwa o ddedfryd wedi'i hatal, gan gynnwys oedolion ifanc yn cwblhau addysg neu hyfforddiant, merched beichiog, pobl gyda chyfrifoldebau gofal ac unigolion yn derbyn triniaeth am broblemau gamblo. Roedd nifer o'r ymatebion yn pwysleisio bod oedolion ifanc yn grŵp a allai elwa o ddedfrydau wedi eu hatal ([mwy o fanylion ym Mhennod Naw](#)). Gallai'r canllawiau hefyd gynnwys manylion am sut fath o ddedfryd i'w rhoi ar ôl cwblhau'r cyfnod atal yn llwyddiannus.

ARGYMHELLIAD 3.6: Casglu a chyhoeddi data ar ddedfrydau wedi eu hatal

Mae'r ymchwil i ddefnyddio dedfrydau wedi eu hatal yng Nghymru a Lloegr yn brin. Nid oes data ar y gwahanol fathau o amodau a ddefnyddir gan ddedfrydwyr, faint o droseddwyd sy'n cydymffurfio â'u hamodau, amrywiadau rhanbarthol mewn defnyddio dedfrydau wedi eu hatal, pa fathau o droseddau neu grwpiau o droseddwyd sy'n elwa'n benodol, ac effaith dedfrydau wedi eu hatal ar aildroseddu.¹²⁹ Mae'r diffyg data hwn yn arbennig o nodedig o'i gymharu â'r data sydd ar gael ar orchmynion dedfrydau gohiriedig a chymunedol.

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn ystyried sut i gasglu a chyhoeddi data ar ba mor effeithiol yw dedfrydau wedi eu hatal.

Delio â throseddau gyda chymhelliad ariannol: monitro, adferiad a chosbi

Er bod yr Adolygiad yn canolbwyntio ar ba mor aneffeithiol yw dedfrydau byr o garchar yn adsefydlu troseddwyd yn ystyrllon ac atal troseddu, i rai troseddwyd gallai hyd yn oed dedfrydau hir o garchar fethu â chwrdd â holl bwmpasau dedfrydu.¹³⁰ I rai troseddwyd difrifol a chyfundrefnol wedi eu sbarduno gan drachwant ariannol, mae carchar yn cael ei weld fel rhan o'u siwrne yrfaol os ydynt yn gallu rhedeg eu busnes troseddol o'r carchar neu ddychwelyd at eu cyfoeth ar ôl cael eu rhyddhau.

Yn ôl yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol, "nid yw cosbi troseddwyd difrifol a chyfundrefnol yn gorffen gydag euogfarn". Mae gyrfa droseddol llawer o droseddwyd difrifol, sy'n debygol o aildroseddu, yn para gydol eu hoes. Gellir rhoi cyfyngiadau ychwanegol ar rai a gafwyd yn euog o droseddau difrifol fel bod asiantaethau'n monitro eu gweithgareddau, rheoli eu hymddygiad ac atal aildroseddu".¹³¹ Dylai'r Llywodraeth ddefnyddio carcharu ochr yn ochr ag ymyriadau ariannol mwy effeithiol i dargedu troseddwyd difrifol a chyfundrefnol a'u henillion

troseddol gan sicrhau nad yw troseddu'n talu a bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni y tu mewn a thu allan i garchar.

Mae atebion fel gorchmynion atafaelu'n targedu enillion gweithgareddau troseddol yn uniongyrchol. Mae ffocws Gorchmynion Atal Troseddu Difrifol (SCPO) hefyd ar atal ymddygiad troseddol.¹³² Drwy orfodi'r gorchmynion hyn, gall y llywodraeth aflonyddu ar y cymhellion economaidd sy'n gyrru ymddygiad troseddol. Gall cosbau a mesurau ariannol hefyd gynnig rhyw fath o ateb adferol er mwyn adennill enillion troseddol a'u defnyddio er mantais i gymdeithas. Mae'r Adolygiad wedi ystyried sut i aflonyddu ar droseddu difrifol a chyfundrefnol a chryfhau'r defnydd o ymyriadau a chosbau ariannol.

ARGYMHELLIAD 3.7: Cynyddu Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol i fod yn berthnasol i holl amser troseddwr yn y carchar yn ogystal ag am 5 mlynedd ar ôl eu ryddhau

Gall llys orfodi SCPO i ddiogelu'r cyhoedd drwy atal, cyfyngu neu aflonyddu ar fod yn rhan o droseddu difrifol a chyfundrefnol, yn ôl y diffiniad yn Atodlen 1 i Ddeddf Troseddu Difrifol 2007.¹³³ Drwy SCPO, gall asiantaethau gorfodi'r gyfraith fonitro cyfrifon banc ac aflonyddu a chyfyngu ar drafodiadau busnes. Gall y cyfyngiadau fod yn eang iawn a chynnwys, er enghraifft, gofynion adrodd ariannol, amodi gyda phwy y gall unigolyn gysylltu neu gyfathrebu gyda nhw, a'r dulliau o wneud hynny.

Gellir rhoi SCPO am gyfnod o bum mlynedd ar y mwyaf a rhaid nodi pryd y mae'n dechrau a gorffen.¹³⁴ Mae'n arfer cyffredin i'r llys ohirio dechrau'r gorchymyn, er enghraifft tan fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau o'r carchar.¹³⁵ Fodd bynnag nid yw hyn yn targedu troseddwr difrifol a chyfundrefnol sy'n parhau i wneud busnes yn y carchar.¹³⁶ O ganlyniad byddai'n ddefnyddiol ehangu'r cyfyngiadau i fod yn eu lle drwy gydol yr amser y mae troseddwr yn y carchar, yn ogystal ag am bum mlynedd ar ôl dod allan. Mae gorchmynion atal niwed rhywiol mewn grym yn y carchar a'r gymuned gyda nod tebyg o gyfyngu ar weithgareddau troseddwr, a fydd yn para am o leiaf pum mlynedd neu hyd nes y rhoddir gorchymyn pellach.¹³⁷ Ym marn yr Adolygiad nid yw gorchmynion SCPO yn ddigon hir a dylent fod yn eu lle drwy gydol amser troseddwr yn y carchar ac am hyd at 5 mlynedd ar ôl dod allan.

Nod ehangu gorchmynion SCPO i gynnwys yr holl amser dan glo fyddai aflonyddu ar fusnesau troseddol, helpu i adennill enillion troseddu drwy fonitro mwy manwl a sicrhau bod dedfrydau o garchar yn cael effaith gref o atal. Mae gweithwyr gorfodi'r gyfraith o blaid yr argymhelliad hwn gan dynnu sylw at ei botensial i leihau troseddu ac aildroseddu, gan gredu y bydd yn annog cyfyngiadau rhagweithiol wedi eu targedu at droseddwr yn y carchar sydd ar hyn o bryd yn parhau i droseddu dan glo.¹³⁸ Gallai hefyd helpu i ddod â throseddwr sy'n hwyluso troseddau difrifol a chyfundrefnol, ond bron byth yn cael eu herlyn, o flaen eu gwell, oherwydd gallai cysylltiadau rhwng grwpiau troseddu cyfundrefnol ddod yn fwy i'r amlwg drwy fonitro.¹³⁹

Mae'r Heddlu Metropolitan yn awgrymu safoni hyd gorchmynion SCPO wrth ryddhau er mwyn symleiddio a rheoli gorchmynion yn effeithiol.¹⁴⁰ Ar hyn o bryd gall SCPO redeg am *hyd at 5 mlynedd*, a'r hyd felly'n amrywio. Fodd bynnag pe bai'r gorchmynion yn para drwy gydol amser troseddwr yn y carchar a hefyd am bum mlynedd ar ôl dod allan, gallai helpu i reoli gorchmynion yn fwy effeithiol a rhoi eglurder o ran pryd y mae troseddwr yn dod o dan SCPO.

Gallai'r Bil Diogelwch Ffiniau, Lloches a Mewnfudo ddiwygio Deddf Troseddu Difrifol 2007.¹⁴¹ Drwy'r Bil hwn, nod y Llywodraeth yw gwneud y broses gais ar gyfer SCPO yn symlach a

gwella rheoli achosion drwy fesurau fel mwy o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau troseddau a mewnfudo. Fodd bynnag nid yw hyn yn delio â throseddau cyfundrefnol difrifol yn y carchar. Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn gweithredu ymhellach ar droseddau difrifol cyfundrefnol mewn carchardai drwy wneud defnydd llawn o orchmynion SCPO i orfodi monitro ac amodau llym ar gyfer troseddau drwy dan glo.

Yn ogystal â defnyddio gorchmynion SCPO yn gyson yn y carchar a'r gymuned, byddai gwella dealltwriaeth a gweithrediad barnwyr a gweithwyr cyfiawnder troseddol o'r gorchmynion hyn yn helpu i hyrwyddo eu defnydd a'u heffeithiolrwydd. Mae torri SCPO yn drosedd gyda chosb o bum mlynedd yn y carchar a dirwy ddi-ben-draw.¹⁴² Dywedodd yr Heddlu Metropolitan a'r Asiantaeth Droseddau Genedlaethol ba mor bwysig yw lleihau'r anghysondeb wrth ymateb i dorri gorchmynion SCPO,¹⁴³ ac mae'r Adolygiad yn annog hyfforddi staff perthnasol mewn sut i reoli ac ymateb i dorri gorchmynion SCPO er mwyn sicrhau ymateb mwy unffurf.

ARGYMHELLIAD 3.8: Ystyried cryfhau gorchmynion atafaelu i sicrhau y gellir gweithredu'r gyfraith yn deg yn ymarferol

Gorchmynion atafaelu yw'r brif ffordd a ddefnyddir gan y Llywodraeth i amddifadu troseddau o enillion eu troseddau.¹⁴⁴ Mae nifer o broblemau gyda gorchmynion atafaelu sydd angen eu datrys ac mae'r Llywodraeth wedi cydnabod llawer ohonynt.¹⁴⁵ Er hynny maen nhw'n opsiwn defnyddiol i'r Llywodraeth ac yn cael eu cyflwyno'n bennaf o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.¹⁴⁶

Mae heriau sylweddol gyda gorfodi gorchmynion atafaelu. Yn ôl GLITEF, roedd cyfanswm gwerth hanesyddol balansau atafaelu a ystyriwyd y gellid eu hadennill ar 31 Mawrth 2024 yn £214 miliwn, o'i gymharu â dyled grynsyth o £2,747 miliwn sy'n ddyledus i GLITEF.¹⁴⁷ Mae'r cyfodiad amlwg hwn yn pwysleisio'r heriau sylweddol a wynebwyd gan weithwyr casglu a gorfodi wrth geisio adennill y dyledion hyn, er enghraifft os yw asedau wedi cael eu cuddio neu'n cael eu dal dramor a llog yn parhau i gynyddu ar y balans sydd heb ei dalu. Mae ymchwilio i darddiad arian wedi'i atafaelu a throseddau gwyngalchu arian yn aml yn golygu ymchwiliadau atafaelu hirfaith sy'n drwm iawn ar adnoddau.

Gall atafaelu fod yn berthnasol i bob achos o droseddau meddiangar, nid dim ond troseddau difrifol.¹⁴⁸ Fodd bynnag, mae'r Adolygiad yn tanlinellu pwysigrwydd gorfodi gorchmynion atafaelu ar rai a enillodd gyfoeth helaeth o droseddau, i sicrhau bod y gorchmynion yn cael eu defnyddio mewn ffordd sy'n targedu'r bobl iawn sydd â'r modd i dalu. Rhaid i orchmynion hefyd fod yn gymesur a realistig i osgoi cynyddu'r boblogaeth garchardai gyda throseddau na fedrant dalu'r gorchmyn.

Cwblhaodd Comisiwn y Gyfraith adolygiad tra-manwl o'r problemau mwyaf taer, gan gynnwys digolledu dioddefwyr yn afreolaidd, gorchmynion afrealistig a chymhellion a sancsiynau anfodddhaol.¹⁴⁹ Arweiniodd yr adroddiad at ddarpariaethau i ddiwygio gorchmynion atafaelu drwy'r Bil Troseddau a Phlisma,¹⁵⁰ er mwyn symleiddio, moderneiddio ac egluro gorchmynion atafaelu'n gliriach.

Dylai'r Llywodraeth barhau i ganolbwyntio ar sicrhau mwy o ddefnydd a gorfodaeth well o orchmynion atafael ac ystyried ymrwymo adnoddau a thechnoleg ychwanegol i wneud hyn yn ogystal â dealltwriaeth weithredol well. Mae rhai gorchmynion yn gostus ac yn para'n hir, yn enwedig os nad yw'r troseddwr yn cydymffurfio. Gallai mwy o adnoddau, gan gynnwys Unedau Gorfodi Atafaelu Asedau'r Heddlu, helpu i orfodi gorchmynion yn well a mwy rhagweithiol.

Gallai moderneiddio'r dechnoleg a ddefnyddir gyda gorchmynion atafaelu gynorthwyo'r llysoedd i gasglu a gorfodi'r gorchmynion yn fwy effeithiol. Anogir hefyd gydweithredu rhwng GLITEF a'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod y mesurau hyn yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae Deddf Enillion Troseddau 2002, sy'n cynnwys gorchmynion atafaelu, yn "arf ddeublyg" sydd nid yn unig yn lleihau manteision, a chymhelliad i gyflawni, troseddau, ond hefyd yn fodd i ail-fuddsoddi arian troseddol yn y system adennill asedau a digolledu dioddefwyr ar yr un pryd.¹⁵¹ Gan hynny, o ystyried gwerth sylweddol y balansau atafaelu sy'n ddyledus a'r cyfle i ail-fuddsoddi'r arian yn y system, gallai buddsoddi yn y dechnoleg ddiweddaraf brofi nid yn unig i fod yn gost-effeithiol ond hefyd yn ariannol fanteisiol. Mae gwella'r gwaith o gasglu a gorfodi gorchmynion atafaelu hefyd yn rhan annatod o atal troseddau rhag mynd i ddyled oherwydd y llog o 8% ar orchmynion a gyflwynwyd gan y Senedd, a chael eu hanfon i'r carchar am fethu â thalu.¹⁵²

Byddai gwella a chynyddu hyfforddiant ar draws y system yn cyfrannu at weithredu a gorfodi gorchmynion atafaelu'n well. Dylai hyn gynnwys adolygu'r hyfforddiant i farnwyr a gweithwyr gorfodi'r gyfraith. Gallai hefyd gynnwys Rheolwyr Troseddau yn y Carchar, a fyddai'n elwa o ddeall gorchmynion atafaelu'n well ynghyd â chanllawiau penodol ar eu rôl yn natblygiad dedfrydau gan helpu staff i gefnogi unigolion i dalu eu gorchmynion a rheoli troseddau gyda gorchmynion heb eu talu.

ARGYMHELLIAD 3.9: Ystyried sefydlu cynllun derbynyddiad troseddol, gan gynnwys derbynyddiad gohiriedig

Mae'r Adolygiad yn gofyn i'r Llywodraeth ystyried cyflwyno cosb ariannol fwy llym ar ffurf derbynyddiad troseddol a fyddai'n esblygiad ar y cysyniad o fethdalau troseddol. Mae gan y cysyniad o fethdalau troseddol gysail hanesyddol gan orfodi aildosbarthu asedau rhywun. Wedi'i gyflwyno'n wreiddiol yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1972,¹⁵³ fe'i dyluniwyd fel cam arloesol gyda digolledu dioddefwyr ac i gryfhau pwrpas atal dedfrydau troseddol traddodiadol.¹⁵⁴ Ymhen blynnyddoedd, disodlwyd methdalau troseddol gan orchmynion atafaelu o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002.¹⁵⁵

Cynigiwn fodel arall; 'derbynyddiad troseddol', a ddylai gael ei anelu at droseddau a enillodd gyfoeth sylweddol o'u troseddau. Byddai derbynnydd yn rheoli neu werthu asedau'r troseddwr i fodloni'r gorchmyn. Gyda'r model hwn, gallai asedau gael eu hatafael dros unrhyw gyfnod o amser heb ddileu'r ddyled gan sicrhau bod y mesur yn parhau i fod yn gosb briodol yn hytrach na'n gymorth.

Nod hyn fyddai cosbi troseddau drwy dargedu'r cymhellion y tu ôl i'w gweithgareddau troseddol ac fel y gallai'r Llywodraeth atafaelu arian a enillwyd yn gyfreithlon ac anghyfreithlon a sicrhau nad yw troseddau'n talu. Yn wahanol i orchmynion atafaelu, ni fyddai derbynyddiad troseddol yn rhoi unrhyw gyfle o'r dechrau i'r troseddwr ddewis pa asedau i'w gwerthu.

Er bod yr Adolygiad wedi ymgynghori â gweithwyr rheng flaen ar y mesur hwn, mae angen mwy o waith i sefydlu sut y gallai derbynyddiad troseddol gael ei weithredu'n effeithiol, gan gynnwys sicrhau bod y model yn targedu'r troseddau iawn.

Nod derbynyddiad troseddol fyddai amddifadu troseddau o'u pŵer ariannol a'u gallu i barhau â'u gweithgareddau troseddol. Ni fyddai'n disodli'r cosbau ariannol presennol ond, yn hytrach, yn ychwanegu opsiwn dedfrydu i gryfhau'r ymdrechion i adennill asedau, gan ddyrannu rhai

efallai i ddioddefwyr. Byddai angen i'r Llywodraeth ystyried yn ofalus ble y byddai'r arian a fyddai'n cael ei atafaelu'n mynd.

Derbynyddiad Troseddol Wedi'i Ohirio

Mae'r Adolygiad hefyd yn cynnig ystyried cyflwyno derbynyddiad troseddol wedi'i ohirio fel ffordd o annog cydymffurfio â gorchmynion llys. O dan y cynllun hwn, gallai'r llysoedd orfodi derbynyddiad troseddol wedi'i ohirio fel amod wrth ddedfrydu i sicrhau cydymffurfio â thalu dirwyon, gorchmynion atafaelu a gorchmynion eraill y llys, gan gynnwys gorchmynion ategol. Gallai hyn weithio i orfodi'r gorchmynion hyn. Pe bai'r troseddwr yn methu â chydymffurfio, byddai'r derbynydd yn cael ei alw a'u hamddifadu o'u holl asedau ariannol. Dywedodd yr Heddlu Metropolitan fod elfen o ohirio'n helpu i adnabod bod troseddwr yn ymgysylltu â'i orchymyn ac yn cefnogi ymdrechion i newid pan fydd troseddwr yn ymddwyn yn dda.¹⁵⁶

Yn debyg i ddedfryd ohiriedig, gallai'r system yma greu cymhelliad cryf i droseddwr gyflawni eu rhwymedigaethau a dangos ymddygiad da o dan ystod o orchmynion llys. Pe bai'n cael ei weithredu, byddai angen adnoddau ychwanegol i sicrhau bod y cynllun yn effeithiol. Mewn achosion o golled ariannol i ddioddefwyr neu orchymyn iawndal gan y llys, gallai derbynydd troseddol gynorthwyo i adennill gorchymyn heb ei dalu drwy ddefnyddio asedau'r troseddwr a chynnig ffordd fwy effeithiol o roi cyfiawnder i rai a effeithiwyd gan droseddu.

Mae gan system derbynyddion troseddol elfennau tebyg i'r darpariaethau ffordd droseddol o fyw o dan Ddeddf Enillion Troseddu 2002¹⁵⁷, sy'n caniatáu rhagdybio, a gallu dod â'r holl asedau o fewn sgôp gorchmynion atafaelu, nid yn unig enillion gwreiddiol y drosedd benodol, oni bai fod y troseddwr yn gallu profi tarddiad cyfreithlon.¹⁵⁸ Fodd bynnag, cyfrifir enillion o dan y system i fyny at chwe blynedd cyn achosion llys a dylai derbynyddiad troseddol fynd yn ôl ymhellach na hyn a pheidio ag ystyried tarddiad cyfreithlon enillion y troseddwr. Gallai'r Llywodraeth ystyried y derbynyddiad troseddol drwy gydol bywyd y troseddwr ac felly eu holl gyfoeth ac asedau gan ei wneud yn brofiad cosbol i'r troseddwr.

Pennod Pedwar: Cymhellion i symud o garchar i'r gymuned

Er bod yr Adolygiad yn cynnig y dylai carchar fod yn niffyg popeth arall, i lawer o droseddwy'r carchar fydd yr ateb iawn o hyd. Os felly, mae'n bwysig bod y dedfrydau hyn yn cael eu cyflawni mewn ffordd sy'n deg a thryloyw i droseddwy'r a dioddefwy'r ac yn unol â dedfryd y llys. Bydd y rhan fwyaf o droseddwy'r yn y carchar yn cael eu rhyddhau felly dylid defnyddio carcharu i gymell ymddygiad da gyda ffocws ar leihau'r risg o aildroseddu. Mae'r pwysau ar gapasiti ac adnoddau prin y carchardai'n cyfyngu ar i ba raddau y gall y carchardai gyflawni hyn.

Mae'r Adolygiad wedi ystyried sut y gellir symleiddio a gwella prosesau llwybr cynnydd ar gyfer dedfrydau penodol safonol gan hefyd edrych ar rôl cymhellion mewn rheoli dedfrydau. Dedfryd benodol safonol (SDS) yw'r ddedfryd o garchar fwyaf cyffredin a roddir gan y llysoedd, gan gyfrif am 44% o'r holl bobl yn y carchar ar 31 Mawrth 2025.¹⁵⁹ Fel arfer, bydd troseddwr yn treulio SDS yn cael eu rhyddhau'n awtomatig o garchar i'r gymuned ar bwynt penodol yn eu dedfryd (eu dyddiad rhyddhau amodol) gan ddibynnu ar hyd eu dedfryd, y math o ddedfryd a phryd y cafodd y ddedfryd ei rhoi. Mae rhai'n cael eu rhyddhau'n gynt i Gyrffyw Cadw yn y Cartref (HDC). Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o droseddwy'r SDS yn treulio rhwng 20% a 66% o'u dedfryd dan glo cyn cael eu rhyddhau i'r gymuned.

Ar hyn o bryd mae tri phwynt rhyddhau awtomatig ar gyfer troseddwy'r SDS. Cyn Gorchymyn Rhyddhau Carcharorion 2020, roedd pob troseddwr SDS fel arfer yn treulio'r 50% cyntaf o'u dedfryd dan glo cyn cael eu rhyddhau'n awtomatig. Ar ôl deddfu yn 2020 a 2022, symudodd y pwynt rhyddhau awtomatig hwn i'r pwynt dwy ran o dair (66%) ar gyfer dedfrydau SDS o 4 blynedd neu fwy am droseddau treisgar a rhywiol penodedig difrifol.¹⁶⁰ Erbyn Mawrth 2026, amcangyfrifwyd y byddai cyflwyno'r pwynt rhyddhau dwy ran o dair yn 2020 wedi cynyddu'r boblogaeth garchardai o 800.¹⁶¹ Amcangyfrifir bellach y bydd ehangu'r mesur hwn ymhellach yn 2022 wedi arwain at dwf ychwanegol yn y boblogaeth garchardai o rhwng 560 – 610 erbyn 2025/26.¹⁶² Yn 2024, penderfynodd y Llywodraeth gymryd camau angenrheidiol i arafu'r twf (drwy ryddhau carcharorion ar frys i ateb yr argyfwng mewn capasiti carchardai) drwy symud y pwynt rhyddhau awtomatig o 50% i 40% ar gyfer rhai troseddwy'r.

Mae rhai troseddwy'r yn cael eu rhyddhau cyn eu dyddiad rhyddhau awtomatig o dan HDC. Ar ôl asesu eu risg, mae hyn yn golygu y gellir rhyddhau rhai troseddwy'r cymwys gyda SDS o 12 wythnos neu fwy hyd at 6 mis cyn eu dyddiad rhyddhau awtomatig. Mae rhai troseddwy'r SDS felly'n cael eu rhyddhau mor gynnar â 20% drwy eu dedfryd.

Derbyniodd yr Adolygiad dystiolaeth gan gyn-droseddwy'r, dioddefwy'r a chyrrff trydydd sector bod y system bresennol ar gyfer SDS yn ddryslyd. Gyda'r system bresennol mae troseddwy'r yn cael eu rhyddhau ar y pwynt 66%, 50% neu 40%, a rhai'n gynt ar HDC. Mae'r meini prawf cymhwyso ar gyfer HDC wedi cael eu newid droeon yn y blynyddoedd diwethaf mewn ymateb i bwysau ar gapasiti carchardai. Dros amser felly, roedd faint o droseddwy'r oedd yn cael eu rhyddhau'n gynt na'u dyddiad rhyddhau awtomatig yn amrywio. Dros y cyfnod rhwng Hydref a Rhagfyr 2024, roedd nifer y troseddwy'r a ryddhawyd ar HDC i fyny 73% o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol.¹⁶³

Mae'r holl bwyntiau rhyddhau yn y system bresennol wedi creu cymhlethdod gweithredol sylweddol a golygu bod dedfrydau o garchar yn ddryslyd i droseddwy'r a'u dioddefwy'r eu deall. Dywedodd lawer o gyn-droseddwy'r a holwyd drwy'r Adolygiad hwn nad oeddent yn deall eu dedfryd na'u llwybr cynnydd drwy eu dedfryd. Mae cymhlethdod y system hefyd yn andwyol i

hyder dioddefwyr sy'n aml yn cael trafferth deall pwyntiau rhyddhau ar gyfer dedfrydau o garchar, yn enwedig os newidiwyd y dedfrydau mewn ymateb i bwysau gorlenwi. Mae'r cyfryngau hefyd yn cynyddu pryderon am unigolion yn cael eu rhyddhau'n gynt na'u dedfryd lawn gan hefyd gyfrannu at ddiffyg ffydd y cyhoedd yn y system gyfiawnder.

Drwy'r Alwad am Dystiolaeth, clywodd yr Adolygiad gan Claire Waxman OBE, Comisiynydd Dioddefwyr Annibynnol Llundain, fod diffyg dealltwriaeth o'r system ddedfrydu ymhlith dioddefwyr a'r cyhoedd oedd yn aml yn achosi trawma pellach i ddioddefwyr a chreu teimlad o anghyfiawnder ar ôl sylweddoli nad oedd elfen garcharu dedfryd y troseddwr mor hir ag yr oeddent wedi disgwyl y byddai.¹⁶⁴

Mae'r Adolygiad wedi ystyried sut i ddiwygio'r system SDS bresennol i fod yn symlach a haws ei deall gan sicrhau bod carcharu'n cael ei ddefnyddio'n briodol ochr yn ochr ag amser yn y gymuned, gyda goruchwyllo effeithiol yn ei le.

ARGYMHELLIAD 4.1: Cyflwyno model "ennill cynnydd" ar gyfer rhai sy'n treulio dedfrydau penodol safonol

Mae'r Adolygiad hwn yn cynnig model SDS mwy tryloyw wedi'i ddylunio i gymell troseddwr i ddefnyddio eu hamser yn y carchar yn llesol drwy gynllun ennill cynnydd a thrwy hynny ddod â'u dyddiad rhyddhau awtomatig ymlaen i draean o'r ffordd drwy eu dedfryd.

Nod y model yw symleiddio trefniadau rhyddhau ar gyfer pob troseddwr SDS drwy safoni pwyntiau rhyddhau a dileu darpariaethau rhyddhau'r Cyrffw Cadw yn y Cartref. Gyda'r model hwn, byddai troseddwr yn cynyddu (symud ymlaen) drwy dri cham penodol: y cam carcharu, y cam goruchwyllo ôl-garcharu, a'r cam risg:

- **Y cam carcharu:** Mae'r cam hwn yn gweithredu cynllun ennill cynnydd yn y carchar. Gyda'r model hwn, disgwylir i'r rhan fwyaf o droseddwr SDS gael eu rhyddhau traean o'r ffordd drwy eu dedfryd os ydynt wedi ymgysylltu'n adeiladol â chyfundrefn y carchar. Y disgwyl yw bod gweddill y troseddwr SDS yn cael eu rhyddhau o'r carchar erbyn hanner ffordd drwy eu dedfryd.
- **Y cam ôl-garcharu:** Ar ôl gadael y carchar, byddai troseddwr yn symud i'r cam goruchwyllo dwys ôl-garcharu ac yna'n cael eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned o dan amodau trwydded llym nes cyrraedd y pwynt dwy ran o dair drwy eu dedfryd.
- **Y cam risg:** Ar gyfer traean olaf eu dedfryd, byddai troseddwr yn symud i'r cam risg heb unrhyw oruchwyllo gweithredol ac ond yn cael eu galw'n ôl i garchar pe byddent yn cyflawni trosedd newydd.

Mae cynlluniau cymhelliad yn y carchar ac ar brawf yn defnyddio egwyddorion gwobrwyo ac atgyfnerthu i annog ymddygiad da. Mae rhai cynlluniau hefyd yn ymgorffori cosb fel bod troseddwr yn colli breintiau am ymddwyn yn wael neu beidio â chydymffurfio. Nid yw cynlluniau cymhellion mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn cynnig rhyddhau'n gynnar ond, yn hytrach, yn rhoi cymhellion i droseddwr ddilyn rheolau, ymgysylltu â chyfundrefn y carchar ac mewn gweithgareddau adsefydlu drwy gynnig newid amodau a rhyddid unigolyn yn y carchar (er enghraifft faint o arian y maen nhw'n gallu ei ennill neu amser y tu allan i'r gell).¹⁶⁵ Mae gwerthuso'r cynllun Cymhellion ac Ennill Breintiau (IEP) wedi pwysleisio bod angen i gynlluniau cymhellion gael eu gweld i fod yn deg a dangos atgyfnerthu positif. O wersi a ddysgwyr o gynlluniau cymhellion fel IEP, gall effeithiau dieisiau ddigwydd fel mwy o herio, dal dig a thralod ymhlith carcharorion os yw'r cynlluniau'n cael eu gweithredu drwy roi gormod o bwyslais ar gosbi a gwneud i garcharorion deimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg.¹⁶⁶

Mewn llawer o wledydd Ewropeaidd a thaleithiau yn UDA, mae cynlluniau cymhellion yn mynd ymhellach drwy roi cyfle i droseddwr leihau eu hamser yn y carchar neu dan oruchwylloeth Prawf. Mae'r dystiolaeth o systemau cymhellion yn brin er bod peth ymchwil wedi cysylltu rhai cynlluniau sy'n arwain at ddod â goruchwylloeth Prawf i ben i leihad mewn llwythi achosion a

dim cynnydd mewn aildroseddu gan bobl a enillodd hawl i gael eu rhyddhau'n gynnar (Ennill Credydau Cydymffurfio ym Missouri).¹⁶⁷ Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd hirdymor y cynlluniau hyn ar ganlyniadau Prawf (fel cydymffurfio, aildroseddu a llwythi achosion) yn brin.

Yn fwy cyffredinol, mae ymchwil wedi'i wneud i gynlluniau cymhellion mewn carchardai ar sail yr egwyddor o gyflyru seicolegol.¹⁶⁸ Yn ôl yr ymchwil, mae gan rai cynlluniau cymhellion sy'n cael eu rhedeg yn dda, yn enwedig rhai sy'n blaenoriaethu atgyfnerthu positif am ymddygiad da yn lle sancsiynau am ymddwyn yn wael, botensial i "hyrwyddo disgyblaeth a strwythur a chymell carcharorion i ennill yr hawl i dderbyn mwy o freintiau gan arwain at ryddhau'n gynnar."¹⁶⁹

Mae'r Adolygiad yn cynnig cyflwyno cynllun 'ennill cynnydd' ar gyfer troseddwr SDS sy'n annog ymgysylltu'n adeiladol â chyfundrefn y carchar. Byddai hyn yn creu disgwyliad y dylai pob troseddwr gydymffurfio â'r rheolau ac na fydd ymddwyn yn wael (fel trais neu ddefnyddio cyffuriau) yn cael ei oddef. Egwyddorion craidd y model yw:

- A. Dylai'r cynllun gymryd yn ganiataol bod troseddwr yn cydymffurfio â'i feini prawf o'r dechrau a chael eu rhyddhau draean o'r ffordd drwy eu dedfryd. Os na fyddai'r troseddwr yn cydymffurfio â'r cynllun ennill cynnydd, byddai'r pwynt rhyddhau'n cael ei wthio'n ôl i hanner ffordd. Dylid ystyried amseriad cadarnhau'r dyddiad rhyddhau er mwyn rhoi amser priodol i wneud cynlluniau cyn-rhyddhau.
- B. Dylai'r meini prawf cydymffurfio gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ufuddhau i reolau'r carchar.¹⁷⁰ Byddai ymddygiad a fyddai'n torri rheolau'r carchar (er enghraifft troseddau yn erbyn disgyblaeth fel ymddwyn yn fygythiol, camdriniol neu'n dreisgar, bod ym meddiant eitemau diawdurdod) a ddim yn dilyn cyfarwyddyd cyfreithlon swyddogion mewn fudo mewn achos allgludo (ond gan gadw'r hawl gyfreithiol i apelio) yn arwain at wthio'r dyddiad rhyddhau'n ôl. Dylai'r meini prawf cydymffurfio hefyd gynnwys disgwyl bod y troseddwr yn ymgysylltu mewn gweithgareddau pwrpasol a mynychu unrhyw rwymedigaethau gwaith, addysg, triniaeth a / neu hyfforddiant sydd ar gael. Ym marn yr Adolygiad, wrth i gapasiti carchardai ysgafnu a chyfundrefnau carchar llawnach ddod yn bosib, dylai gofynion cydymffurfio ar gyfer ennill rhyddhau'n gynt ddod yn fwy llym.
- C. Dylai'r meini prawf cydymffurfio fod mor wrthrychol a hawdd i'w gweinyddu â phosib drwy ddefnyddio'r prosesau presennol a sicrhau cyn lleied o brosesau penderfynu / biwrocratiaeth pellach â phosib.

Pan fydd troseddwr yn dod allan o garchar, rhaid i'r trefniadau ac ymyriadau cymorth iawn fod yn eu lle i helpu i atal aildroseddu, rheoli ymddygiad ac amddiffyn dioddefwyr. A chymryd y byddai troseddwr SDS yn cael ei ryddhau o garchar rhwng traean a hanner ffordd drwy ei ddedfryd, mae'r Adolygiad wedi ystyried sut i reoli ei ryddhau yn y ffordd fwyaf diogel. Mae'r model a gynigir yn blaenoriaethu adnoddau Prawf ar reoli risg ac ateb anghenion drwy oruchwylio'n fanwl yn y cyfnod yn syth ar ôl dod allan o garchar (trafodwn hyn yn yr adran nesaf).

Mae'r rhan fwyaf o aildroseddu'n digwydd yn y cyfnod yn syth ar ôl rhyddhau. Yn achos y cohort cyfunol o oedolion a phobl ifanc, roedd bron i draean (31.9%) o'r holl aildroseddu wedi digwydd o fewn tri mis, a thros eu hanner (57.2%) o fewn chwe mis, i ddod allan o'r carchar neu ar ôl derbyn euogfarn ddi-garchar gan y llys, cerydd, neu rybudd.¹⁷¹ Mae'r model hwn felly'n cydnabod bod manteision goruchwylio, i'r rhan fwyaf o gohortau troseddwr, i'w cael yn y cyfnod yn syth ar ôl dod allan o garchar drwy gynnig 'camu lawr' mwy graddol o garchar, profi ymddygiad y troseddwr a chefnogi troseddwr i symud yn ôl i'r gymuned ond gan gydnabod bod hyn yn gallu bod yn anodd iawn (gan gynnwys bod angen rhywle sefydlog i fyw ar droseddwr, sy'n cael ei drafod nes ymlaen yn y Bennod hon).

Hefyd o dan y model hwn, byddai angen dod â threfniadau Goruchwylio Ôl-Ddedfryd (PSS) i ben ar gyfer troseddwr yn cael eu rhyddhau o ddedfryd o lai na dwy flynedd o garchar. Mae

llawer o bobl wedi beirniadu PSS am ei fod yn aneffeithiol. Yn ôl adroddiad yn 2019 gan Arolygiaeth Prawf EF (HMIP), “nid oedd unrhyw leihad amlwg i’w weld mewn aildroseddu” yn dilyn PSS – er bod hyn o dan y drefn flaenorol cyn i’r Gwasanaeth Prawf preifat (y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol) gael eu dychwelyd i ddwylo cyhoeddus a dod yn rhan o’r “Gwasanaeth Prawf” newydd ym Mehefin 2021.¹⁷² Ynghyd â dod â goruchwyliaeth i ben ar y pwynt dwy ran o dair drwy’r ddedfryd, byddai’r newid yma’n adeiladu ar y trefniadau presennol ar gyfer cyfnodau trwydded a gyflwynwyd yn dilyn mesurau Ailosod Prawf 2024 (ailosod blaenoriaethau llwyth gwaith y Gwasanaeth Prawf mewn ymateb i’r pwysau cynyddol ar y Gwasanaeth Prawf o weithredu’r mesurau rhyddhau brys).

Cohort SDS o droseddau treisgar a rhywiol difrifol

Ym marn yr Adolygiad, cadw cysondeb gyda phwyntiau rhyddhau i bob troseddwr SDS yn y model “ennill cynnydd” fyddai’r ffordd orau i gynnal yr egwyddorion o gadw pethau’n dryloyw a syml. Dylai unrhyw amrywio ar y cynllun fod yn seiliedig ar y ddedfryd a roddir gan y llys, a dyna pam fod yr Adolygiad yn cynnig cynllun diwygiedig i rai gyda dedfrydau penodol estynedig os yw’r barnwr wedi asesu lefel berygl y troseddwr ([mwy o fanylion yn Argymhelliaid 4.2](#)). Fodd bynnag, yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn 2020 a 2022, symudwyd y pwynt rhyddhau awtomatig i ddwy ran o dair ar gyfer troseddwyr ar ddedfryd SDS o 4 blynedd neu fwy am droseddau rhywiol difrifol a rhai mathau o droseddau treisgar. Mae’r troseddau hyn yn cynnwys treisio, dynladdiad, gofyn i rywun lofruddio, ymgais i lofruddio a chlwyfo bwriadol i achosi niwed corfforol difrifol – os yw’r llys yn penderfynu nad yw amgylchiadau penodol yr achos yn cyfiawnhau Carchar am Oes neu EDS ac felly’n rhoi dedfryd SDS yn lle.¹⁷³

Mae’r newidiadau deddfwriaethol hyn yn adlewyrchu bod dedfrydu ar gyfer troseddau treisgar a rhywiol difrifol yn anghytbwys o’i gymharu â throseddau eraill. Mae’r Adolygiad yn cynnig bod y Llywodraeth, yn y tymor hirach, yn ystyried cosbau uchafswm yn llawn ([mwy o fanylion ym Mhennod Naw](#)), ac mai dyma’r ffordd fwy priodol o adlewyrchu barn y Senedd o ddifrifoldeb ar gyfer gwahanol fathau o droseddau. Fodd bynnag, o ystyried natur hirdymor unrhyw werthusiad llawn o gosbau uchafswm, mae’r Adolygiad yn cydnabod y dylid cadw gwahanol bwynt rhyddhau ar gyfer y cohort hwn o droseddwyr difrifol yn y cyfnod yn syth ar ôl gweithredu’r model hwn.

I adlewyrchu’r farn yma a’i chysoni’n agosach i’r pwyntiau rhyddhau presennol ar gyfer y cohort SDS o droseddwyr treisgar a rhywiol difrifol sy’n cael eu rhyddhau ar y pwynt dwy ran o dair ar hyn o bryd, mae’r Adolygiad yn argymhell bod y cohort hwn yn symud ymlaen drwy’r tri cham yn yr un ffordd â’r cohort SDS ehangach, ond ar wahanol bwyntiau yn eu dedfryd:

Y cynnig ar gyfer y cohort SDS o droseddau treisgar a rhywiol difrifol yw newid y pwyntiau rhyddhau fel bod y **rhan fwyaf o droseddwyr yn cael eu rhyddhau ar y pwynt hanner ffordd** os ydynt wedi ymgysylltu’n adeiladol â chyfundrefn y carchar. Byddai **gweddill y troseddwyr yn y cohort hwn yn cael eu rhyddhau erbyn y pwynt dwy ran o dair drwy’r ddedfryd** fan bellaf. Byddai’r troseddwyr hyn yna’n cael eu **goruchwyllo yn y gymuned yn y cam ôl-garcharu nes cyrraedd 80%** drwy eu dedfryd ac, ar ôl hynny, byddent yn symud ymlaen i’r cam risg heb unrhyw oruchwyllo gweithredol ac ond yn cael eu galw’n ôl i garchar pe byddent yn cyflawni trosedd newydd.

Er yn gwneud dedfrydau o garchar yn fwy tryloyw i droseddwyr a dioddefwyr, disgwylir i’r model “ennill cynnydd” hwn leihau’r galw ar y boblogaeth garchardai mewn ffordd gydlynus a disgwyledig, gan wella sicrwydd wrth gynllunio dedfrydau er mwyn gallu rheoli risg yn well. Mae’r Adolygiad wedi amcangyfrif y gallai’r model hwn arbed oddeutu 4,100 o lefydd carchar drwy annog ymddygiad da yn y carchar. [Rhoddir mwy o wybodaeth am hyn yn Atodiad B.](#)

Cryfhau goruchwyllo troseddwr ar ôl dod allan o garchar

Mae barnwr sy'n rhoi SDS i droseddwr ar bwynt eu dedfrydu'n ystyried nad yw'r troseddwr yn cwrdd â'r trothwy perygl sy'n cyfiawnhau rhoi EDS fwy cosbol.¹⁷⁴ O dan y system bresennol felly, nid yw troseddwr SDS yn derbyn adolygiad gan y Bwrdd Parôl ac yn cael eu rhyddhau o garchar yn awtomatig ar eu dyddiad rhyddhau amodol. Yn ogystal â symleiddio'r dyddiad rhyddhau i droseddwr SDS, mae'r Adolygiad yn cydnabod pa mor bwysig yw rheoli rhyddhau'r troseddwr hyn er mwyn delio â nhw'n ddiogel a chadarn, ac amddiffyn dioddefwyr.

Er mwyn goruchwyllo troseddwr yn briodol ar ôl gadael y carchar, mae'r Adolygiad yn cynnig system goruchwyliaeth yn y gymuned gyda throseddwr yn cael eu symud i fyny, neu i lawr, tair lefel o oruchwyliaeth gan ddibynnu ar eu hymateb i amodau eu trwydded. Y nod fyddai cydbwysu'r angen i ddiogelu a goruchwyllo'n gadarn â'r ffaith nad oes adnoddau Prawf di-ben-draw gan nodi y gallai newidiadau technolegol yn y dyfodol gyflwyno dulliau mwy arloesol o fonitro a goruchwyllo. Mae'r gwahanol lefelau a gynigir fel a ganlyn:

- **Lefel 1: Goruchwyllo a Chymorth** - Gellid rhoi amodau trwydded safonol i droseddwr risg isel, fel y gwneir ar hyn o bryd, gyda throsolwg gan y Gwasanaeth Prawf. Gallai troseddwr dderbyn monitro ychwanegol, lle bo'n briodol, drwy addasu technolegau symudol neu dagio fel y rhai a ddefnyddir gan yr Heddlu ar gyfer Rheolaeth Integredig o Droseddwr (a allai fod yn arbennig o bwysig i rai heb le parhaol i fyw). I fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd troseddu, gallai amodau trwydded gynnwys profion cyffuriau ac alcohol, triniaeth a gwaith adsefydlu gyda'r trydydd sector.
- **Lefel 2: Goruchwyllo gyda Chyrrffyw** – Gallai troseddwr risg uwch dderbyn goruchwyliaeth bellach dan gyrrffyw monitro electronig. Gellid addasu'r cyrrffyw i'r unigolyn gan amrywio o gyrrffyw dros nos i gyrrffyw hirach yn ystod y dydd os na fyddai hyn yn effeithio ar waith adsefydlu fel cyflogaeth. Gallai cydymffurfio drwy gydol y cam goruchwyllo arwain at gyrrffyw llai dwys.
- **Lefel 3: Goruchwyllo Uwch gyda monitro ychwanegol** – Gallai troseddwr gyda'r risg uchaf dderbyn y lefel uchaf o dracio GPS a chyrrffyw.

Dylai'r lefelau hyn ganiatáu i'r Gwasanaeth Prawf ganolbwyntio eu gwaith rheoli ar droseddwr sy'n cyflwyno risg arbennig o uchel a rheoli eu trosglwyddo i'r gymuned yn y ffordd fwyaf diogel bosib.

Os bydd lefelau goruchwyllo ôl-garcharu yn y gymuned yn cynyddu'r defnydd o fonitro electronig a dulliau technolegol eraill, byddai angen ystyried sut y gallai troseddwr na fyddai'n ymarferol gymwys ar gyfer monitro electronig (er enghraifft heb lety parhaol ganddynt neu bryderon diogelu yn y cartref) gael eu rheoli'n ddiogel. Yn y dyfodol, gallai trefniadau dal i fyny biometrig drwy ffôn symudol neu ddyfeisiau gwisgadwy heb eu cysylltu i leoliad penodol gynnig opsiynau hyblyg ar gyfer rhai heb le parhaol i fyw ([mwy o fanylion ym Mhennod Wyth](#)). Gallai'r technolegau hyn, ynghyd â dulliau cyfathrebu clyfar a systemau goruchwyllo AI, wella rheoli risg fel rhan o fframweithiau monitro ôl-garcharu.

Bydd gorfodi amodau trwydded yn y cam goruchwyllo ôl-garcharu'n bwysig i amddiffyn y cyhoedd. Mae'r Adolygiad wedi ystyried trefniadau galw'n ôl am dorri amodau trwydded nes ymlaen yn y Bennod hon.

Bydd y modelau cynnydd newydd yn cynyddu'r galw ar y Gwasanaeth Prawf a gwasanaethau trydydd sector eraill. Gan hynny mae angen buddsoddi yn y gymuned er mwyn gallu darparu trefniadau goruchwyllo mwy dwys fel rhan o broses raddol wedi'i theilwrio'n well o 'gamu lawr' o'r carchar i'r gymuned. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud dan gontract gan eraill yn gweithio ar ran Prawf (e.e. cyrrff trydydd sector) ([mwy o fanylion ym Mhennod Saith](#)). Byddai hefyd angen buddsoddi mewn Gwasanaeth Llety ychwanegol yn y Gymuned (CAS) gan gynnwys darpariaeth Eiddo Cymeradwy er mwyn cefnogi'r broses oruchwyllo, yn enwedig ar

lefelau 2 a 3 lle'r oedd cyrffw'n cael ei ystyried i fod yn offeryn rheoli risg angenrheidiol a'r troseddwr heb gyfeiriad llety parhaol ([mwy o fanylion yn Argymhelliad 4.5](#)).

Mae'r Adolygiad hwn yn ystyriol o'r ffaith y gallai rhai grwpiau o droseddwr (er enghraifft sy'n dioddef o gyflyrau iechyd meddwl aciwt neu droseddwr niwroamrywiol) gael trafferth cydymffurfio â gofynion y model hwn a chael eu heffeithio'n negyddol o'i gymharu â throseddwr eraill. Mae'r Adolygiad yn cynghori'n gryf y dylid gweithredu'r model "ennill cynnydd" gyda throseddwr ag anghenion mwy cymhleth ochr yn ochr ag unrhyw addasiadau rhesymol neu gymorth wedi'i deilwrio a allai fod ei angen arnynt yn y carchar, i sicrhau eu bod yn cael eu trin yn deg.

Pe bai model "ennill cynnydd" yn cael ei weithredu, byddai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb wrth ddeddfu i sefydlu na fyddai grwpiau dan anfantais a gwarchodedig yn wynebu rhwystrau i gymryd rhan neu anfantais o dan y model. Byddai hefyd angen monitro model "ennill cynnydd" yn ofalus i werthuso ei effeithiolrwydd ac adnabod a lliniaru rhag unrhyw ganlyniadau niweidiol. Gallai Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi wneud y gwaith monitro hwn.

Mae'r Adolygiad yn cynghori gweithredu'r model "ennill cynnydd" ochr yn ochr â'r newidiadau sy'n cael eu hargymell ym Mhennod Tri. Byddai troseddwr ar ddedfrydau byr o garchar ac anghenion iechyd meddwl, neu droseddwr niwroamrywiol, yn elwa o argymhellion yr Adolygiad ar ddedfrydau wedi eu hatal ([mwy o fanylion yn Argymhelliad 3.4](#)) a defnyddio dedfrydau byr o garchar dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Byddai'r argymhellion hyn yn debygol o roi'r cymorth mwy arbenigol sydd ei angen ar y troseddwr hyn i adsefydlu a byw bywydau da oherwydd yn y gymuned y mae'r cymorth hwn i'w gael gan amlaf. Os gweithredir pecyn mesurau'r Adolygiad yn llawn, byddai'r effaith o arafu twf y boblogaeth garchardai hefyd yn debygol o'i gwneud yn haws i garchardai a staff ganolbwyntio ar y troseddwr sy'n aros yn y carchar a'u hanghenion penodol.

ARGYMHELLIAD 4.2: Cyflwyno model "ennill cynnydd" ar gyfer rhai sy'n treulio dedfrydau penodol estynedig

Mae'r Adolygiad wedi ystyried a ddylid a sut i gymhwyso'r egwyddorion uchod ar gyfer dedfrydau SDS ac EDS. Cedwir dedfrydau EDS ar gyfer rhai a gyflawnodd droseddau mwy difrifol mewn achosion lle y mae'r llys wedi asesu bod y troseddwr yn "beryglus" (o fewn y diffiniad cyfreithiol o gyflwyno risg sylweddol o niwed difrifol), ond nid yw'r drosedd yn cael ei barnu i fod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau carchar am oes.¹⁷⁵ Mae'r ddedfryd yn cynnwys cyfnod priodol yn y carchar a chyfnod estynedig o flwyddyn o leiaf ar drwydded. Ar hyn o bryd gellir rhyddhau'r troseddwr ddwy ran o dair drwy eu cyfnod yn y carchar ond dim ond ar ddisgresiwn y Bwrdd Parôl, fel arall mae'r troseddwr yn derbyn adolygiadau parôl pellach bob dwy flynedd o leiaf drwy gydol eu cyfnod dan glo.

Bydd y Bwrdd Parôl ond yn cyfarwyddo bod troseddwr i gael ei ryddhau os aseswyd y gellir ei reoli'n ddiogel yn y gymuned.¹⁷⁶ Erbyn 31 Mawrth 2025 roedd 8,841 o garcharorion yn treulio dedfrydau penodol estynedig.¹⁷⁷ Mae hyn yn gynydd o 9% ers Mawrth 2024 ac mae carcharorion gyda EDS yn cyfrif am dros 10% o'r boblogaeth garchardai.¹⁷⁸

Mae'r Adolygiad o'r farn bod rôl y Bwrdd Parôl mewn rhyddhau carcharorion EDS yn un briodol. Dyma'r carcharorion y penderfynodd barnwyr eu bod yn beryglus ar bwynt eu dedfrydu ac felly dylai fod gofyniad ychwanegol ar y carcharorion a'r system i asesu y gellir eu rheoli'n ddiogel yn y gymuned. Gellir cymhwyso egwyddorion cymhelliad i garcharorion EDS ond dylid eu haddasu i ystyried y risg sy'n cael ei gydnabod gan y llys. Mae'r model EDS a gynigir yn cynnwys yr un camau â'r broses gynydd ar gyfer SDS, wedi'i addasu i gyfnod carcharu a fformat cyfnod trwydded estynedig dedfrydau estynedig. Byddai troseddwr EDS yn dechrau'r cam carcharu cyn symud ymlaen i'r cam goruchwyllo ôl-garcharu naill ai ar ôl eu rhyddhau gan y Bwrdd Parôl neu ar ôl dod at ddiwedd eu cyfnod carcharu. Gallai rhai troseddwr yna symud ymlaen at gam risg tan ddiwedd cyfnod eu trwydded estynedig.

Yn y model hwn, byddai pob troseddwr EDS yn parhau i gael eu rhyddhau o garchar cyn diwedd eu cyfnod carcharu i gael eu goruchwyllo yn y gymuned **dim ond** ar ôl asesu eu bod yn ddiogel i gael eu rhyddhau gan y Bwrdd Parôl. Gallai'r model hwn hefyd gynnwys carcharorion gyda Dedfrydau i Droseddwr o Bryder Penodol (SOPC) sydd, ar hyn o bryd, yn cael eu rhoi ar gyfer rhestr neilltuol o droseddau terfysgaeth a'r ddwy drosedd rhyw plant fwyaf difrifol, o gofio eu bod hefyd yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd Parôl.¹⁷⁹ Drwy ennill cynnydd, byddai troseddwr yn dod yn gymwys i'w ryddhau gan y Bwrdd Parôl o'r pwynt hanner ffordd i'r pwynt dwy ran o dair drwy'r ddedfryd. Byddai troseddwr na fyddai'n gymwys am hyn drwy ennill cynnydd yn parhau i fod yn gymwys i'w rhyddhau gan y Bwrdd Parôl ar y pwynt dwy ran o dair presennol. Byddai pob troseddwr yna'n cael eu rheoli dan y cam goruchwyllo ôl-garcharu ar ôl eu rhyddhau o garchar, p'un ai a fyddai hyn cyn diwedd eu cyfnod carcharu neu ar ddiwedd eu cyfnod carcharu. Gallai'r cam goruchwyllo ôl-garcharu hefyd ddod i ben yn gynnar pe bai'r troseddwr yn cydymffurfio drwy gydol y cam hwnnw ac yna aros yn y cam risg tan ddiwedd cyfnod eu trwydded estynedig.

Yn wahanol i'r model SDS lle y mae symud ymlaen at y cam risg yn ganiataol, byddai troseddwr ar ddedfrydau estynedig yn symud i'r cam risg dim ond ar ôl dod yn gymwys drwy gydymffurfio yn y cam goruchwyllo ôl-garcharu. Felly ni ddisgwylir y bydd pob troseddwr EDS yn symud ymlaen at gam risg.

Mae'r un egwyddorion cydymffurfio ag yn y model SDS yn berthnasol ond gyda rhai gwahaniaethau i gyfrif am y risg ychwanegol ar gyfer troseddwr ar ddedfrydau estynedig:

- A. Gyda'r cynllun hwn, byddai troseddwr yn parhau i fod yn gymwys i'w rhyddhau cyn diwedd eu cyfnod carcharu i gael eu goruchwyllo yn y gymuned **dim ond** ar ôl i'r Bwrdd Parôl asesu eu bod yn ddiogel i gael eu rhyddhau. Byddai angen i droseddwr ddangos cydymffurfio â'r cynllun ennill cynnydd er mwyn dod â dyddiad eu hadolygiad Bwrdd Parôl ymlaen o'r pwynt dwy ran o dair i'r pwynt hanner ffordd cynharaf posib.
 - Dylid cyfrifo'r pwynt rhyddhau cynharaf posib ar gyfer y troseddwr hyn ar ddechrau eu cyfnod carcharu. Pe bai troseddwr yn dod yn gymwys am adolygiad Bwrdd Parôl ar y pwynt cynharaf posib (hanner ffordd), dylai'r Bwrdd Parôl amseru'r adolygiad cyn y pwynt hanner ffordd er mwyn rhyddhau'r troseddwr ar y pwynt hanner ffordd os asesir bod hynny'n ddiogel.
- B. Dylai hefyd fod yn ofynnol i droseddwr dedfrydau estynedig gydymffurfio â'u cynllun dedfrydu i ddangos i'r Bwrdd Parôl eu bod yn gweithio i wella eu hymddygiad troseddol. I gefnogi'r egwyddorion hyn, byddai angen creu cynllun credydau mwy sylweddol i droseddwr gael dod ag adolygiad y Bwrdd Parôl ymlaen.
- C. Dylai'r cynllun credydau gynnwys elfen ychwanegol ar gyfer dedfrydau estynedig gyda'r cynllun yn cael ei gymhwyso i oruchwyliaeth yn y gymuned, fel y gallai troseddwr hefyd ennill credydau ar drwydded er mwyn symud ymlaen i'r cam risg yn ystod cyfnod y drwydded estynedig.

Mae dadansoddiad ar gyfer yr Adolygiad yn awgrymu y gallai'r model hwn arbed oddeutu 600 o lefydd carchar. [Rhoddir mwy o wybodaeth am hyn yn Atodiad B.](#)

Cynllun Lleihau Carchar “Amser Ymddygiad Da” Texas

Mae gan Adran Cyfiawnder Troseddol Texas (TDCJ) system “amser ymddygiad da” sy’n gadael i garcharorion cymwys leihau eu hamser yn y carchar cyn dod yn gymwys am adolygiad parôl drwy ymddwyn yn dda, gydag amser i ffwrdd ychwanegol yn cael ei roi am gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon. Er y gall ennill lleihad amser ddod â dyddiad eu hadolygiad parôl ymlaen, nid yw’n fesur rhyddhau awtomatig. Nid yw “amser ymddygiad da” yn effeithio ar hyd dedfryd y carcharor yn gyffredinol, hynny yw os dedfrydwyd troseddwr i ddeng mlynedd, bydd naill ai yn y carchar neu ar barôl am y deng mlynedd i gyd.

Ar ddechrau cyfnod o garchar, cyfrifir dyddiad gwrandawriad parôl cynharaf gan dybio y byddai’r carcharor yn ennill yr “amser ymddygiad da” mwyaf posib. Gellir wedyn ychwanegu amser at y cyfnod carcharu os yw’r carcharor yn camymddwyn drwy ymosod ar staff neu garcharorion eraill, er enghraifft.¹⁸⁰

Er y byddai troseddwr SDS ac EDS yn cael eu trin yn wahanol o dan y ddau fodel, eu nod yw helpu i symleiddio sut y gallai troseddwr dreulio’r ddedfryd a gwneud pethau’n fwy eglur i droseddwr a’u dioddefwyr drwy drin pob troseddwr yr un fath ym mhob un o’r categorïau dedfrydau SDS, SDS am droseddau treisgar a rhywiol difrifol, a dedfrydau EDS. Oherwydd nad oes gan droseddwr gyfle, o dan y system bresennol, i ennill dyddiad rhyddhau cynt, mae’n bwysig nad yw’r modelau sydd mewn golwg yn arwain at gynyddu tariff, yn enwedig tariffau troseddwr sy’n addas am SDS i EDS. Rhaid parhau i gadw EDS ar gyfer troseddwr y mae pryder difrifol yn eu cylch yn lle troi at EDS fel dedfryd ddiofyn.

Mae’r Adolygiad hefyd yn disgwyl sylw penodol i bryd a sut y mae dioddefwyr a’u teuluoedd yn derbyn gwybodaeth am ddedfryd troseddwr a thrafodwn hyn yn fanwl ym Mhennod Pump.

Yn y Bennod hon, mae’r Adolygiad wedi cynnig modelau “ennill cynnydd” i rai ar ddedfrydau penodol safonol a dedfrydau penodol estynedig. Nid yw’r Adolygiad wedi ystyried dedfrydau am oes oherwydd eithriwyd rhai dedfrydau oes yn benodol o’n Cylch Gorchwyl. Fodd bynnag mae’r Adolygiad yn annog y Llywodraeth i ystyried sut y gellid addasu argymhellion ar gyfer y modelau hyn i gyd-fynd â chynnydd troseddwr ar ddedfrydau oes drwy’r system garchardai.

ARGYMHELLIAD 4.3: Cyflwyno model galw’n ôl newydd i rai sy’n treulio dedfrydau penodol safonol, gyda meini prawf a throthwyon mwy llym

Mae nifer y carcharorion wedi eu galw’n ôl wedi mwy na dyblu dros y saith mlynedd rhwng Mawrth 2018 a 2025 o tua 6,000 i 13,500, ac felly’n ffactor bwysig sy’n cyfrannu at y boblogaeth garchardai.¹⁸¹ Mae troseddwr yn cael eu galw’n ôl i garchar am dorri amodau eu trwydded neu os yw eu swyddog prawf yn poeni am eu risg o aildroseddu. O dan y system galw’n ôl bresennol, mae troseddwr SDS yn cael eu cadw dan glo am weddill eu dedfryd oni bai eu bod yn cael eu hail-ryddhau gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu’r Bwrdd Parôl, sy’n gallu golygu proses hir a chyfnodau hir dan glo. Mae cyfnodau galw’n ôl penodol (FTR) byr (14 neu 28 diwrnod) hefyd yn bosib. Mae’r rhain yn creu aflonyddwch i droseddwr drwy nad oes digon o amser i’r troseddwr wella’r ymddygiad risg yn y carchar nac i weithredu mesurau lleihau risg pellach ar ôl eu hail-ryddhau / dychwelyd at oruchwyliaeth yn y gymuned.¹⁸²

Mae llawer o sefydliadau ac unigolion wedi dadlau bod y defnydd presennol o alw’n ôl yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau sy’n gwrthdroi gwaith i adsefydlu a symud troseddwr allan o garchar. Derbyniodd yr Adolygiad nifer o adroddiadau am droseddwr yn cael eu galw’n ôl am dag wedi rhedeg allan o bŵer neu fethu â chadw mewn cysylltiad, bod prosesau tor-amod a galw’n ôl yn rhy llawdrwm a throseddwr yn aml yn meddwl eu bod yn annheg (er enghraifft os cawsant eu rhyddhau i lety ansefydlog).¹⁸³ O’r achosion galw’n ôl rhwng Hydref a Rhagfyr 2024, roedd bron i’w chwarter (23%) am gyhuddiad o droseddu pellach ond bron i’w tri-

chwarter am ddiffyg cydymffurfio (74%).¹⁸⁴ Cyfeiriwyd at ddefnydd Ffrainc o alw'n ôl, sydd ond yn digwydd yn niffyg popeth arall, o'i gymharu â system Cymru a Lloegr. Yn Ffrainc mae galw'n ôl ond yn tueddu i ddigwydd os oes "diffyg cydymffurfio difrifol" (fel ail-droseddu, dianc neu dor-amod parhaus)". Rhoddir mwy o bwyslais ar fesurau eraill neu sancsiynau i ateb anghenion ac ymddygiad y troseddwr.¹⁸⁵

Yn ystod ymweliadau'r Adolygiad â charchardai, dywedodd staff a charcharorion fod galw'n ôl FTR yn "gwneud pethau'n waeth". Yn ôl un droseddwrraig, mae 14 diwrnod yn "ddigon hir i golli pob dim" gan gynnwys llety, cyflogaeth neu ofal plant a allai fod wedi cael ei sicrhau. Dywedodd staff mewn un carchar dynion fod troseddwr ar gyfnod galw'n ôl 14 diwrnod yn syrthio'n brin o gymhwyso am Daliad Cynhaliaeth oherwydd bod angen isafswm o 15 diwrnod yn y carchar, a throseddwr felly'n cael eu rhyddhau o garchar heb unrhyw arian o gwbl.¹⁸⁶ Teimlai staff fod hyn yn gwneud troseddwr yn fwy tebygol o aildroseddu. Adleisiwyd y farn yma mewn llawer o sesiynau bwrdd crwn yr Adolygiad, gyda chyn-droseddwr a chyrrff trydydd parti'n teimlo bod y prosesau a'r cymorth a roddwyd yn eu lle'n ofalus i droseddwr ar ôl dod allan o garchar yn aml yn methu oherwydd y cyfnodau galw'n ôl 14 neu 28 diwrnod.

Mae tystiolaeth ac ymchwil i alw'n ôl yn aml yn cyfuno effaith yr holl fathau o alw'n ôl (cyfnodau safonol a phenodol). O ganlyniad, mae'r dystiolaeth o effaith cyfnodau FTR yn brin ac mae angen mwy o ymchwil i ddeall pa effeithiau y mae cyfnodau FTR wedi ei gael. Fodd bynnag, yn ôl papur mewnwelediad gan Catch22 yn 2025, er bod FTR 14 a 28 diwrnod yn aml yn digwydd wrth i droseddwr gael trafferth adsefydlu, gall cyfnod byr yn y carchar waethgu'r trafferthion hyn a chreu rhwystrau pellach i adsefydlu yn lle mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd diffyg cydymffurfio ag amodau trwydded yn y lle cyntaf.¹⁸⁷ Mae'r papur yn argymhell ffordd wahanol o wneud pethau drwy atal defnyddio FTR os yw ymyriadau eraill yn fwy effeithiol, a thrawsnewid FTR o fesur cosb i fod yn ymyriad mwy ystyrlon.

Mae'r Adolygiad yn argymhell model galw'n ôl cyfnod penodol newydd ar gyfer SDS i gynnwys:

- a) Tynhau'r trothwy ar gyfer galw'n ôl a'i ddefnyddio ond ar gyfer diffyg cydymffurfio cyson ag amodau trwydded neu risg benodol a thaer. I wneud hyn byddai disgresiwn yr ymarferydd o ran beth fyddai'n ddiffyg cydymffurfio cyson neu'n risg benodol a thaer yn allweddol.
- b) Cyflwyno cyfnod FTR hirach (er enghraifft 56 diwrnod) i adlewyrchu'r risg a'r diffyg cydymffurfio mwy difrifol hwn, gan ddisodli galw'n ôl 14 neu 28 diwrnod a galw'n ôl safonol ar gyfer SDS.

Yn ôl amcan yr Adolygiad, gallai'r argymhelliad hwn arbed oddeutu 2,300 o lefydd carchar. [Mwy o wybodaeth am hyn yn Atodiad B.](#)

Nod y diwygiadau hyn yw lleihau galw'n ôl gweinyddol am ddiffyg cydymffurfio lefel isel (er enghraifft am golli un apwyntiad) ac, yn hytrach, gwneud trefniadau eraill yn y gymuned i gefnogi anghenion adsefydlu'r troseddwr a'u cynorthwyo i gydymffurfio'n well o hynny ymlaen. Byddai risg y troseddwr ar ôl ei ryddhau o'r carchar felly'n cael ei reoli mewn ffordd wahanol i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, drwy deilwrio amodau'r drwydded a rhoi mwy o gymorth yn y gymuned i atal troseddu pellach yn lle gorddibynnu ar alw'n ôl i garchar i atal troseddu pellach. Byddai'r diwygiadau hefyd yn rhoi digon o amser i gynllunio amodau priodol ar gyfer ail-ryddhau'n ddiogel i oruchwyliaeth yn y gymuned. I osgoi defnydd gor-fympwyol o'r drefn galw'n ôl newydd hon, gallai'r Gwasanaeth Prawf deilwrio neu dynhau amodau'r drwydded i roi sylw i'r rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio fel cam cyntaf yn lle penderfynu galw'n ôl y troseddwr yn syth i garchar.

Mewn achosion lle y gellid ail-ryddhau troseddwr SDS yn ddiogel i oruchwyliaeth yn y gymuned cyn y cyfnod FTR llawn, gallai fod trefn ar gyfer adolygu ac ail-ryddhau'r unigolion hyn yn gynt na 56 diwrnod. Mater o eithriad yn hytrach nag arfer fyddai hyn. Ar y llaw arall, gellid ymgorffori trefn i ganiatáu cadw dan glo am fwy na'r 56 diwrnod yn y weithdrefn galw'n ôl ar gyfer SDS yn achos troseddwr a ystyriwyd i fod angen rheoli eu risg ymhellach. Dylai

hyn ddigwydd fel eithriad a dim ond mewn achosion lle y byddai risg benodol, daer ac uchel o niwed difrifol. Byddai hyn yn atal troseddwyd peryglus rhag cael eu rhyddhau'n awtomatig ar ôl y 56 diwrnod.

Er mai nod y diwygiadau hyn yw lleihau faint o droseddwyd SDS sy'n cael eu galw'n ôl i garchar, rhaid cymryd camau cymesur a chadarn i amddiffyn dioddefwyr. Nod y diwygiadau arfaethedig hyn yw atal troseddu pellach drwy sicrhau bod troseddwyd yn derbyn digon o gymorth ac ymgysylltu'n syth ar ôl eu rhyddhau o garchar. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy dargedu adnoddau i gefnogi'r Gwasanaeth Prawf i oruchwyllo troseddwyd ar ôl eu rhyddhau a'u cynorthwyo i gymryd camau priodol i gynyddu a theilwrio amodau trwydded yn y gymuned yn lle galw troseddwyd yn ôl i garchar am gyfnodau byr. Lle bo galw'n ôl yn parhau i fod yn ateb priodol i risg benodol a thaer gan droseddwr, dylai hyn ddigwydd.

Mae dileu rôl y Bwrdd Parôl mewn galw troseddwyd SDS yn ôl i garchar yn adlewyrchu natur y ddedfryd SDS, sydd â dyddiad rhyddhau awtomatig, a rhyddhau capasiti'r Bwrdd i ganolbwyntio ar ei brif rôl o benderfynu a yw carcharorion ar ddedfrydau amhenodol (oes ac IPP) a rhai ar ddedfrydau penodol estynedig a aseswyd i fod yn beryglus, yn parhau i gyflwyno risg sylweddol i'r cyhoedd. Bydd y Bwrdd Parôl yna'n gallu canolbwyntio adnoddau a chyflymu eu hadolygiadau o achosion gyda Dyddiad Cymwys am Barôl os oes risg uwch i'r cyhoedd, a rhaid i'r Bwrdd gymeradwyo eu rhyddhau.

Defnyddio gwahanol ddulliau o garcharu yn y ffordd fwyaf effeithiol

Fel y saif pethau ar 30 Mehefin 2024, mae gan Gymru a Lloegr 123 o garchardai - adeiladwyd rhai'n fwy diweddar, mae eraill yn hŷn a rhai yng nghanol dinasoedd neu yn y wlad, a nifer fach yn cael eu rhedeg gan y sector preifat.¹⁸⁸ Er na ofynnwyd i'r Adolygiad edrych ar ffurf a chyfansoddiad y system garchardai, mae wedi ystyried sut y gallai gwahanol gategoriâu o garchar, fel carchardai agored, helpu troseddwyd i symud ymlaen (gwneud cynnydd) adeiladol a diogel drwy eu dedfrydau, a hefyd i adsefydlu.

ARGYMHELLIAD 4.4: Cynyddu a theilwrio'r defnydd o amodau agored lle bo'n addas i droseddwyd

Mae gan garchardai agored (a elwir yn garchardai Categori D yn y system i ddynion) lai o ddiogelwch na rhai caeedig ac mae carcharorion cymwys yn gallu treulio peth neu'r rhan fwyaf o'r diwrnod i ffwrdd o'r carchar ar drwydded er mwyn gweithio, derbyn addysg neu i bwrpas adsefydlu arall. Dyluniwyd y carchardai hyn yn wreiddiol fel y gallai troseddwyd gyda digon o amser ar ôl ar eu dedfryd elwa o gyfundrefn a allai ganolbwyntio ar eu hadsefydlu yn y gymuned. Roedd gan y rhan fwyaf o droseddwyd a symudodd i garchar agored drwy broses ail-gategoreiddio ddedfrydau hirach o garchar ac wedi cwblhau rhaglenni adsefydlu blaenorol yn y carchar.¹⁸⁹ Yna cafodd y troseddwyd hyn eu hasesu o ran risg a'u hystyried yn addas ar gyfer amodau diogelwch is.¹⁹⁰

Gall carchardai agored roi canlyniadau gwell i droseddwyd – mae peth ymchwil i ddangos y gall carchardai agored a chynlluniau rhyddhau dros dro yn yr ystâd agored gael effaith dda ar aildroseddu.¹⁹¹ Mae tystiolaeth hefyd i awgrymu bod troseddwyd yn credu bod carchardai agored yn well na rhai caeedig drwy fod yn llai llym, mwy diogel a llai niweidiol.¹⁹² Mae carchardai agored hefyd yn costio llai i'r llywodraeth na rhai caeedig (categoriâu A-C): mae cost gyfartalog lle mewn carchar caeedig yn £58,000 o'i gymharu â £42,000 mewn carchar agored.¹⁹³

Yn ddiweddar mae tensiwn wedi codi yn y system garchardai rhwng defnyddio carchardai agored ar gyfer eu pwrpas craidd - adsefydlu ac integreiddio carcharorion yn ôl mewn cymdeithas - a'u defnyddio i ddal mwy o garcharorion i leihau'r pwysau ar gapasiti. Yn dilyn cyflwyno mesurau brys fel y Cynllun Rhagdybio Ail-gategoreiddio Dros Dro (TPRS) yn 2023, symudwyd mwy o garcharorion gydag amser byr ar ôl ar eu dedfryd i garchardai agored i wneud mwy o le i droseddwyd peryglus yn y carchardai mwyaf diogel. Fodd bynnag, ni all

troseddwy'r gyda dim ond misoedd ar ôl i'w treulio yn y carchar ymgysylltu cystal â'r gweithgareddau a'r rhaglenni adsefydlu mewn carchardai agored.¹⁹⁴

Wrth ymweld â charchardai, clywodd yr Adolygiad fod symud yr holl droseddwy'r heb lawer o amser ar ôl ar eu dedfrydau i garchardai agored wedi aflonyddu ar gyfundrefn y carchardai hyn. Teimlai staff yn llai diogel oherwydd y cynnydd mewn ymddygiad ymosodol a defnydd o gyffuriau gan y troseddwy'r hyn oedd yn aml yn iau, ar ddedfrydau byrrach a gyda llai o ddiddordeb mewn adsefydlu ac ailsefydlu. Dywedodd staff nid yn unig nad oedd y troseddwy'r hyn yn cael unrhyw fudd o'r amodau agored ond bod eu hymddygiad, a'r newid yn amgylchiadau'r ystâd agored, yn aflonyddu ar rai ar ddedfrydau hirach oedd yn gweithio'n galed i adsefydlu ac ailsefydlu.

Roedd ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth ar y cyfan yn gadarnhaol am botensial adsefydlu carchardai agored gyda rhai'n argymhell adeiladu mwy o garchardai agored i gynyddu capasiti. Awgrymodd eraill fod carchardai agored yn paratoi troseddwy'r yn well ar gyfer rhyddhau na charchardai categorïau eraill, yn enwedig i garcharorion ar ddedfrydau hir fel dedfrydau oes.

Mae'r Adolygiad yn gwneud dau argymhelliad ar gyfer amodau agored. Yn gyntaf y dylai HMPPS wneud mwy o ddefnydd o'r ystâd agored ar gyfer troseddwy'r addas ar ddedfrydau hirach y gellid eu rheoli'n ddiogel dan amodau agored am y rhan fwyaf o'u dedfryd. I rai troseddwy'r a gyflawnodd droseddau di-dreisgar a heb gyflwyno risg uchel, gallai hyn olygu symud i garchar agored yn gynt yn eu dedfryd nag y mae'r broses ail-gategoreiddio bresennol yn ei ganiatáu. Ar y cyfan dylai fod gan droseddwy'r o leiaf 12 mis ar ôl ar eu dedfryd fel bod ganddynt ddigon o amser i ymgysylltu â gweithgareddau adsefydlu.

Yn ail, fel bo'r Llywodraeth yn gallu parhau i ysgafnu'r pwysau capasiti ac er mwyn diogelu rôl yr ystâd agored o adsefydlu troseddwy'r addas, mae'r Adolygiad yn argymhell creu cyfundrefn agored newydd ar wahân ar gyfer troseddwy'r heb lawer o amser ar ôl ar eu dedfryd. Byddai hyn yn hwyluso adsefydlu troseddwy'r ar ddedfrydau hirach (gyda mwy o amser ar ôl) yn well o dan y gyfundrefn bresennol, oherwydd byddai carcharorion heb lawer o amser ar ôl yn cael eu rhoi mewn lle ar wahân neu garchar hollol wahanol. Byddai hefyd angen i'r Llywodraeth ystyried sut y gallai'r gyfundrefn newydd, ar wahân hon gynnwys mwy o weithgareddau ail-integreiddio priodol, wedi eu teilwrio, i droseddwy'r heb lawer o amser ar ôl. Gallai hyn gynnwys ystyried lleoliadau priodol ar gyfer y gwahanol fathau o gyfundrefn (newydd a phresennol), i adnabod gweithgareddau adsefydlu effeithiol a pharatoi troseddwy'r ar gyfer rhyddhau yn y lleoliad hwnnw.

Cefnogi troseddwy'r i adsefydlu ac ail-integreiddio yn y gymuned

Mae angen lle sefydlog i fyw ar droseddwy'r a enillodd gynnydd o'r carchar i'r gymuned, neu sydd ar orchymyn cymunedol, er mwyn gallu cydymffurfio ag amodau neu ofynion eu trwyddedau. Yn hanesyddol mae troseddwy'r wedi cael trafferth dod o hyd i lety am nifer o resymau.¹⁹⁵

ARGYMHELLIAD 4.5: Buddsoddi mwy a gwella mynediad at lety yn y gymuned i droseddwy'r sy'n gadael y carchar a rhai gyda dedfrydau yn y gymuned

Yn 2020, adroddwyd gan HMIP “nad yw'r rhan fwyaf o droseddwy'r yn cael blaenoriaeth ar y gofrestr dai [am dai Awdurdod Lleol] ac mae rhai'n cael eu heithrio oherwydd ymddygiad blaenorol, dyledion rhent, cael eu dosbarthu fel ‘bwriadol ddigartref’ neu heb gysylltiad lleol”.¹⁹⁶ Mae marchnadoedd rhent preifat hefyd yn gynyddol gystadleuol a gall landlordiaid fod yn gyndyn o rentu i bobl gyda hanes troseddol.¹⁹⁷ Mae Comisiynu Gwasanaethau Adsefydlu (CRS) yn cynnig cyngor, cymorth ac atgyfeiriadau tai i droseddwy'r ond nid yw'n gwarantu llety o gwbl.¹⁹⁸

Mae tai dros dro ar gael i droseddwy'r naill ai drwy Wasanaeth Llety Cymunedol (CAS) HMPPS neu dai cymorth wedi eu comisiynu gan HMPPS a / neu Awdurdodau Lleol. Mae CAS wedi'i rannu'n dair haen, i droseddwy'r ar orchmynion cymunedol dwys, mechnïaeth, trwydded neu Gyrffiw Cadw yn y Cartref.¹⁹⁹ Fel rheol mae Tai Cymorth ar gael gan ystod o sefydliadau fel awdurdodau lleol, elusennau a landlordiaid preifat,²⁰⁰ ac yn cael eu darparu “ochr yn ochr â chymorth, goruchwyliaeth neu ofal” i gefnogi unigolion ag anghenion penodol, gan gynnwys troseddwy'r.²⁰¹ Mae'r cyfrifoldeb statudol am dai a digartrefedd yn dal i orwedd gydag awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.

Er nad yw lleoliadau tymor byr yn ateb llety parhaol, maen nhw'n gallu helpu troseddwy'r i gydymffurfio â gofynion, derbyn cymorth ac osgoi bod yn ddigartref yn syth. Clywodd yr Adolygiad drwy drafod gyda chyrff trydydd sector a chyn-droseddwy'r fod cael trefn ar eu bywydau a mynychu apwyntiadau'n anoddach heb rywle sefydlog i fyw. Clywodd yr Adolygiad hefyd y gall diffyg llety sefydlog arwain at alw'n ôl i garchar a allai fod wedi cael ei osgoi, er enghraifft am beidio â gallu gwefru tag electronig neu golli apwyntiad canolfan waith. Yn ôl adroddiad HMIP (2020), roedd 63% o droseddwy'r yn eu sampl arolygu mewn llety ansefydlog wedi cael eu galw'n ôl neu ail-ddedfrydu i garchar yn y 12 mis cyntaf ar ôl gadael carchar.²⁰²

Mewn rhai achosion, gall CAS a thai cymorth hefyd roi cymorth arbenigol ar gyfer anghenion cymhleth troseddwy'r sy'n aml yn rhai o'r prif resymau am eu troseddu ac yn gallu eu hatal rhag byw'n annibynnol.

Er enghraifft:

Dywedodd troseddwrraig yn byw mewn llety CAS-1 i garcharorion risg uchel (Hosteli Prawf yn y Gymuned) wrth yr Adolygiad fod “staff wedi ei helpu i roi popeth yn ei le” er mwyn derbyn triniaeth am gaethiwed i alcohol. Mae hi bellach yn sobor ers bron i flwyddyn ar ôl 25 mlynedd o gaethiwed “oherwydd yr help a gafodd yn yr AP” ac yn dal i ddychwelyd i weld a chael cymorth gan ei gweithiwr allweddol.

Er y manteision y gall gwasanaethau llety eu cynnig, clywodd yr Adolygiad drwy ymgysylltu nad oes digon o gyflenwad o CAS a thai cymorth a bod hynny'n arwain at brinder gwelyau a darpariaeth anghyfartal ar draws Cymru a Lloegr. Yn ôl Adolygiad Tai Cymorth 2023, mae “heriau sylweddol a hirdymor gyda chynnal y cyflenwad presennol o dai cymorth”, gan gynnwys pwysau cyllid hirdymor ar awdurdodau lleol. Cafwyd toriadau cyllid, trothwyon uwch ar gyfer derbyn rhai gwasanaethau ac, mewn rhai ardaloedd, gwasanaethau wedi cael eu datgomiynu.²⁰³

Gall diffyg llety tymor byr olygu bod troseddwyd yn cael eu cadw'n hirach yn y carchar gan fynd â lle mewn carchardai. Yn eu hymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, pwysleisiodd Arolygiaeth Carchardai EF fod 17 o ferched yn cael eu cadw yng ngharchar HMP/YOI Drake Hall yn hirach na'u dyddiad rhyddhau cymwys cynharaf oherwydd "nid oes bron ddim llety addas ar eu cyfer".²⁰⁴ Clywodd yr Adolygiad gan staff mewn nifer o garchardai fod diffyg llety sefydlog yn effeithio ar ryddhau carcharorion i Gyrffyw Cadw yn y Cartref. Ni ddylid defnyddio carchar os nad oes digon o lety ar gael.

Oherwydd bod yr Adolygiad yn argymhell rheoli mwy o droseddwyd yn y gymuned, rhaid buddsoddi mwy mewn mwy o opsiynau llety i'w defnyddio gan HMPPS. Gall hyn hefyd fod yn ffordd gost-effeithiol o leihau aildroseddu oherwydd bod cost aildroseddu'n uchel,²⁰⁵ ac mae rhai sy'n gadael carchar i gysgu ar y stryd ar ôl dod allan ddwywaith yn fwy tebygol o aildroseddu (70.4%) na rhai sydd â rhywle i fyw ar ôl dod allan (35.1%).²⁰⁶ Er bod cyllid HMPPS ar gyfer llety i droseddwyd wedi cynyddu drwy fesurau fel cynllun peilot newydd yn 2021, a thrwy gyflwyno llety CAS-3,²⁰⁷ mae angen buddsoddi mwy i ateb y problemau cyflenwad.

Er bod llety tymor byr gan HMPPS yn helpu troseddwyd yn y ffyrdd sydd eisoes wedi eu trafod, mae'r cyfrifoldeb statudol cyffredinol am ddigartrefedd a thai yng Nghymru a Lloegr yn gorwedd gyda'r awdurdodau lleol. Efallai na fydd mwy o lety addas dros dro'n leihau aildroseddu ar ei ben ei hun, fodd bynnag yn 2014 roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ategu'r safiad ei fod yn fesur angenrheidiol er nad yn un digonol efallai.²⁰⁸

Derbyniodd yr Adolygiad hefyd dystiolaeth gan staff rheng flaen nad yw'r llety cymunedol sydd ar gael bob amser yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol oherwydd problemau gyda'r broses atgyfeirio ac ymwybyddiaeth o wasanaethau. Dywedodd staff yn un Hostel yn y Gymuned yr aeth yr Adolygiad iddi fod "pobl yn cael eu rhyddhau i sefyllfaoedd anaddas" er bod gwelyau gwag ar gael, oherwydd na wyddai swyddogion prawf fod yr hostel yn derbyn troseddwyd lefel ganolig neu isel os yw lefel yr anghenion yn uchel. Teimlai staff hefyd nad oedd ynadon yn ymwybodol o'u gwasanaethau a bod merched a allai gael eu rhyddhau ar fechnïaeth i Hostel yn y Gymuned i dderbyn cymorth adsefydlu a throi draw cynnar bron byth felly'n cael cynnig hyn. Dylid gwneud mwy o waith i sicrhau bod llety effeithiol ar gael.

Pennod Pump: Cymorth i ddioddefwyr

Mae'r Adolygiad yn ystyriol o anghenion dioddefwyr drwy gydol y broses o ddatblygu ei argymhellion ac yn ddiolchgar i'r holl ddioddefwyr a sefydliadau sy'n gweithio gyda dioddefwyr ac a ymgysylltodd â'r Adolygiad.

Clywodd yr Adolygiad drwy gydol y casglu tystiolaeth, er bod gan ddioddefwyr wahanol ddisgwyliadau o beth yw dedfryd effeithiol a chyfiawn, pa mor hanfodol oedd bod actorion yn y system gyfiawnder yn tawelu meddyliau a chyfathrebu'n effeithiol.²⁰⁹ Ffocws argymhellion y bennod hon yw hyrwyddo mwy o eglurder a chymorth i ddioddefwyr gyda deall y system gyfiawnder.

Mae'r Adolygiad hefyd yn gobeithio y bydd yr argymhellion, fel pecyn cyfan, yn gwneud pethau'n fwy eglur i ddioddefwyr. Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, dywedodd y Farwnes Newlove, Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr, fod "byrhau dedfrydau o garchar yn ôl-weithredol yn erydu ffydd y cyhoedd yn y system gyfiawnder."²¹⁰ Dywedodd sefydliadau cymorth i ddioddefwyr hefyd fod llawer o ddioddefwyr yn hollol syn o glywed am gynlluniau rhyddhau fel SDS-40.²¹¹ Gobaith yr Adolygiad yw bydd ei argymhellion i safoni cynnydd troseddwr drwy eu dedfrydau o garchar yn gwneud i ffwrdd â'r angen am fesurau rhyddhau brys pellach ac felly'n darparu mwy o sicrwydd i ddioddefwyr (Pennod 4). Nod ei argymhellion ehangach – gan gynnwys rhai i gryfhau trosolwg a rheolaeth ar droseddwr yn y gymuned, a defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i dargedu adnoddau at beth sy'n gweithio i leihau aildrosedd – yw gwella diogelwch i ddioddefwyr a'r cyhoedd.

Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod effaith ddinistriol trais yn erbyn merched a genethod (VAWG). Er bod angen gwella'r system ar ei thraws, gydag atal yn arbennig o bwysig, mae'r Adolygiad wedi datblygu argymhellion i helpu'r Llywodraeth i sicrhau bod drwgweithredwr sy'n ymuno â'r system yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

ARGYMHELLIAD 5.1: Lansio ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus o ddedfrydu

Yn ôl tystiolaeth a dderbyniwyd gan lawer iawn, gan gynnwys gan Claire Waxman OBE, Comisiynydd Dioddefwyr Annibynnol Llundain, mae diffyg dealltwriaeth gyffredinol o ddedfrydu ymhlith y cyhoedd, a hefyd felly ymhlith dioddefwyr.²¹²

Gall camsyniadau a diffyg gwybodaeth am ddedfrydu a sut y mae'r fframwaith dedfrydu'n gweithio'n gallu lleihau ffydd y cyhoedd yn nhegwch y system gyfiawnder.²¹³ Er enghraifft, clywsom gan sefydliadau dioddefwyr a fynychodd y sesiynau bwrdd crwn fod diffyg dealltwriaeth o'r bwlch rhwng dedfrydau uchafswm a chosbau mwy arferol yn cyfrannu at wneud i ddioddefwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol deimlo bod dedfrydau'n rhy drugarog. Gall hyn yn ei dro effeithio ar barodrwydd dioddefwyr i adrodd trosedd neu roi tystiolaeth yn erbyn troseddwr.²¹⁴

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn lansio ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i helpu'r cyhoedd i ddeall unrhyw newidiadau a wneir yn dilyn cynigion yr Adolygiad hwn. Dylai'r wybodaeth a roddir ddarparu cyd-destun i newidiadau a gynigir gan yr Adolygiad fel rhan o'r fframwaith dedfrydu bresennol, gan gynnwys sicrhau'r cyhoedd am ragofalon a goruchwyliaeth fydd yn eu lle i rai sy'n cael eu rhyddhau neu adsefydlu yn y gymuned.

Dylai unrhyw ymgyrch ymwybyddiaeth gynnwys taflen wybodaeth neu ganllawiau i ddioddefwyr yn rhoi gwybodaeth am beth allai dedfryd ei olygu'n ymarferol, mewn iaith a fformat clir a hygyrch.

ARGYMHELLIAD 5.2: Ystyried sut i fod yn fwy tryloyw am faint o amser y mae troseddwr yn ei dreulio yn y carchar

Er bod y dedfrydwr yn egluro faint o amser fydd troseddwr yn ei dreulio yn y carchar ar bwynt dedfrydu'r troseddwr yn y llys, clywodd yr Adolygiad droeon drwy ymgysylltu â'r Alwad am Dystiolaeth fod dioddefwyr, a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn teimlo'n ddryslyd ac aneglur am hyd dedfrydau o garchar a faint o amser fydd troseddwr yn ei dreulio dan glo - sy'n cael ei waethygu gan adroddiadau camarweiniol yn y cyfryngau. Mae hyn yn aml yn creu disgwyliadau afrealistig ac anghywir i droseddwr, dioddefwyr a'r cyhoedd.

Bwriad yr Adolygiad yw y bydd ei argymhellion i safoni cynnydd troseddwr drwy eu dedfrydau o garchar yn cyfrannu at wneud hyn yn fwy eglur i bobl.

Fodd bynnag, rhaid gwneud mwy i sicrhau bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth glir o beth y mae dedfryd yn ei olygu'n ymarferol – gan gynnwys faint o amser y bydd troseddwr dan glo – a bod hyn yn cael ei adrodd yn gywir gan y cyfryngau. Er enghraifft, mae gan Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg (IPSO) gyngor ar adrodd o'r llys ond nid yw hyn yn cynnwys unrhyw ganllawiau penodol ar sut i adrodd penderfyniadau dedfrydu.²¹⁵ Dywedodd sefydliadau dioddefwyr a fynychodd y sesiynau bwrdd crwn eto fod angen rhoi mwy o eglurder i ddioddefwyr ar beth i'w ddisgwyl a'u cefnogi i ddeall y canlyniadau tebygol.

Dylai'r Llywodraeth ystyried sut i wneud canlyniadau dedfrydu mor glir a digamsyniol â phosib, efallai drwy gyfuniad o ganllawiau, cyfathrebu cenedlaethol ac wedi'i deilwrio ac ymgysylltu.

ARGYMHELLIAD 5.3: Adolygu'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr a thystion a datrys y pethau sy'n rhwystro gwybodaeth a chymorth effeithiol

Drwy ei Alwad am Dystiolaeth a'i waith ymgysylltu, clywodd yr Adolygiad fod "cyfiawnder gweithdrefnol" yn bwysig i ddioddefwyr – y dylai'r system cyfiawnder troseddol fod yn deg a thryloyw ac, ynghlwm â hyn, y dylid rhoi cymorth i ddioddefwyr troseddu a'u diweddarau ar gynydd achosion. Dywedodd sefydliadau fel Safeline wrth yr Adolygiad fod cael eu diweddarau weithiau'n bwysicach i ddioddefwyr na'r canlyniad dedfrydu yn y pen draw.²¹⁶ Mae safonau yn y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddu (Cod Dioddefwyr) yn rhoi canllawiau i ymarferwyr a dioddefwyr ar y lefel leiaf o wasanaeth y dylai pobl ei dderbyn yng Nghymru a Lloegr. Yn ôl y Cod, dylai fod gan ddioddefwyr hawl "i fedru deall a chael eu deall" a "cael gwybod am ganlyniad yr achos a derbyn eglurhad o'r ddedfryd, [a hefyd] i dderbyn gwybodaeth am y troseddwr ar ôl euogfarn."²¹⁷

Er y safonau hyn, clywodd yr Adolygiad am amrywiol heriau gyda lefel a chysondeb y cymorth a roddir i ddioddefwyr. Yn gyntaf, rhaid i ddioddefwyr 'ryngweithio' â nifer o actorion ac asiantaethau i dderbyn gwybodaeth. Mae'r rhain yn cynnwys plismyn mewn Unedau Gofal Tystion sy'n rhoi cymorth tan y gwrandawriad terfynol,²¹⁸ Gwasanaeth Erlyn y Goron drwy'r Cynllun Cyfathrebu a Chyswllt Dioddefwyr,²¹⁹ ac mewn rhai achosion ar ôl dedfrydu, y Gwasanaeth Prawf drwy'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr.²²⁰

Clywodd yr Adolygiad gan sefydliadau rheng flaen nad yw'r gwasanaethau hyn yn rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr mewn ffordd gyson, sensitif nac ar yr amser iawn bob tro. Yn ôl ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth, mae dioddefwyr yn aml yn derbyn gwybodaeth dameidiog gan amryw o ffynonellau sy'n gallu creu dryswch. Mewn Adolygiad yn 2023 o gwrdd ag anghenion dioddefwyr, barnodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF (HMICFRS) fod llwythi gwaith trwm a gwahanol bethau'n galw ar Wasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu a'r Gwasanaeth Prawf yn golygu na allai staff bob amser fuddsoddi'r amser a'r sylw yr oedd dioddefwyr ei angen ym mhob cam o achos,²²¹ ac yn trin y Cod Dioddefwyr

fel ymarfer cydymffurfio gyda ffocws ar “broses yn hytrach nag ansawdd”.²²² Dywedodd dioddefwyr hefyd nad oeddent bob amser yn deall dedfryd y troseddwr yn ymarferol oherwydd bod penderfyniadau’n cael eu hegluro mewn jargon cyfreithiol cymhleth a gwrandawiadau dedfrydu’n gallu bod yn brofiad emosiynol anodd.²²³

I lawer o ddioddefwyr, mae effaith y broses cyfiawnder troseddol yn para’n llawer hirach na threial y troseddwr. Pwysleisiwyd i’r Adolygiad drwy ymgysylltu fod cymorth i ddioddefwyr yn aml yn lleihau ar ôl dedfrydu wrth iddynt golli cysylltiad â’r actorion a fu’n gyfrifol am arestio, euogfarnu a dedfrydu. Wrth ymateb i’r Alwad am Dystiolaeth, dywedodd Gomisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr hyd yn oed pan fydd gan ddioddefwyr ddealltwriaeth glir o’r dyddiad rhyddhau, nad ydynt yn disgwyl i’r dyddiad gael ei “addasu’n ôl-weithredol”, er enghraifft drwy Gyrffyw Cadw yn y Cartref (HDC).²²⁴ Yn ôl sefydliadau rheng flaen, gall yr addasiadau hyn fod yn dipyn o sioc i’r dioddefwyr a gefnogir ganddynt, sy’n amlach na pheidio ddim yn cael eu hysbysu. Gall gwybodaeth a roddir gan y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr ar ôl gwrandawriad terfynol – sydd ond yn cael ei gynnig i ddioddefwyr rhai troseddau treisgar neu rywiol os dedfrydwyd troseddwr i 12 mis neu fwy o garchar – hefyd fod yn anghyson a thameidiog.²²⁵

Nid yw dioddefwyr yn grŵp unffurf ac er y bydd rhai eisiau gwybodaeth am gynnydd dedfryd y troseddwr, ni fydd eraill.²²⁶ Clywodd yr Adolygiad drwy ymgysylltu â sefydliadau fel We Are Survivors nad yw dioddefwyr bob tro eisiau derbyn yr un wybodaeth a chael eu diweddarau mor aml â rhai. Mae’r Adolygiad yn nodi pa mor bwysig yw gwasanaethau cymorth dioddefwyr sy’n ymateb i anghenion dioddefwyr ac addasu’n gynnar iddynt. Mae’r Adolygiad hefyd yn pwysleisio y dylai fod gan staff sy’n gweithio’n uniongyrchol gyda dioddefwyr y sgiliau deall trawma angenrheidiol i weithio’n adeiladol gyda nhw. Roedd HMICFRS yn nodi pa mor bwysig oedd hyfforddiant deall trawma,²²⁷ fel y rhai a gyflwynwyd yn addawol drwy Operation Soteria.²²⁸

Hefyd, rhaid codi ymwybyddiaeth dioddefwyr a’r cyhoedd o’r Cynllun Dedfrydau Rhy Drugarog (ULS) sy’n gadael i bobl ofyn am adolygiad o rai dedfrydau a roddir yn Llys y Goron. Yn ôl Comisiynydd Dioddefwyr Llundain, yn aml iawn nid yw dioddefwyr yn cael gwybod am y Cynllun ULS.²²⁹ Mae terfyn amser o 28 diwrnod i ddioddefwyr neu’r cyhoedd gael gofyn am apêl, heb unrhyw eithriadau.²³⁰ Dylai ymgyrch ymwybyddiaeth wneud y cyhoedd yn ymwybodol o hyn.

Mae’r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn ystyried sut i wneud dedfrydu’n fwy eglur a thryloyw i ddioddefwyr drwy ei wasanaethau cyswllt dioddefwyr drwy: hwyluso mwy o gydweithredu gan gynnwys rhannu data a gwybodaeth rhwng yr amrywiol actorion; gwella parhad y gofal; gwneud dedfrydu a hawliau apêl yn fwy eglur i bobl; a chyflwyno hyfforddiant ehangach i’w staff ar gymorth deall trawma.

ARGYMHELLIAD 5.4: Parhau i roi copïau am ddim o sylwadau dedfrydu’r barnwr i ddioddefwyr Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol

Ym Mai 2024, cyflwynodd y Llywodraeth gynllun peilot 12 mis sy’n rhoi hawl i ddioddefwyr treisio a throseddau rhywiol eraill gydag achosion yn Llys y Goron ofyn am gopi am ddim o sylwadau dedfrydu’r barnwr ar eu hachos. Cyflwynwyd y cynllun gan gydnabod bod dedfrydu troseddwr yn “rhan annatod o’r system cyfiawnder troseddol i ddioddefwyr” a bod sylwadau dedfrydu’n “crynhoi’r achos yn erbyn y diffynnydd a chyfathrebu sut y cyrhaeddwyd y canlyniad yn yr achos.”²³¹ Mae gwerthusiad o’r peilot wrthi’n cael ei wneud.

Yn ôl sefydliadau’n cynrychioli dioddefwyr yn sesiynau bwrdd crwn yr Adolygiad, mae dioddefwyr yn aml yn cael traferth deall y rhannau mwy cymhleth o ddedfryd yn ystod treial, fel y ffactorau gwaethybol a lliniarol, oherwydd y straen aruthrol sydd arnynt. Gall darparu

sylwadau dedfrydu ysgrifenedig felly greu gofod i ddioddefwyr treisio a throsteddau rhywiol gael deall a phrosesu'r penderfyniad yn eu hamser eu hunain. Mae'r peilot yn cefnogi dioddefwyr treisio a throsteddau rhywiol yn benodol oherwydd "yr anawsterau neilltuoel a wynebwr gan yr unigolion hyn wrth fynychu treial, yn aml oherwydd y trawma cysylltiedig".²³²

Mae'r Adolygiad yn argymhell y dylid rhoi copiâu am ddim o sylwadau dedfrydu'r barnwr i ddioddefwyr Troseddau Treisio a Rhywiol Difrifol (RASSO) ar ôl i'r peilot ddod i ben. Hefyd, dylid gwneud staff cyfiawnder troseddol yn gweithio gyda dioddefwyr yn ymwybodol o hyn a chynorthwyo dioddefwyr i ofyn am eu copi am ddim.

Dioddefwyr Trais yn Erbyn Merched a Genethod

Mae'r Adolygiad hefyd wedi ystyried dedfrydau troseddau a gyflawnir yn bennaf yn erbyn merched a genethod.²³³

Mae trais yn erbyn merched a genethod (VAWG) yn cynnwys gweithredoedd trais neu gam-drin sy'n "effeithio'n anghymesur ar ferched a genethod", gan gynnwys troseddau fel "treisio a throsteddau rhywiol eraill, cam-drin domestig, cam-drin ar sail 'anrhydedd', a stelcian".²³⁴ Mae'r troseddau hyn yn ddinistriol iawn ac yn gallu effeithio'n barhaol ar ddioddefwyr yn gorfforol, meddyliol, cymdeithasol ac ariannol.

Er y cynnydd cyffredinol mewn dedfrydau o garchar ac yn hyd y dedfrydau a roddir gan y llysoedd, mae VAWG yn parhau i fod yn broblem fawr. Amcangyfrifwyd bod 1 o bob 12 o ferched yn dioddef troseddau VAWG pob blwyddyn.²³⁵

Roedd tystiolaeth i'r Adolygiad yn tynnu sylw at hyn. Yn ôl *Standing Together*, elusen cam-drin domestig arbenigol, "mae'r twf parhaus mewn troseddau [VAWG] yn awgrymu bod y model dedfrydu presennol yn syrthio'n brin o'i amcanion" gan nodi "er y gellid cosbi a diogelu'r cyhoedd drwy gyfnodau hirach o garchar, mae'r lefel uchel o aildroseddu'n awgrymu mai ychydig iawn y mae hyn yn ei wneud i leihau aildroseddu ac atal troseddau."²³⁶

Roedd ymatebion i'r Alwad am Dystiolaeth hefyd yn pwysleisio y gall dedfrydau o garchar fod yn angenrheidiol i reoli'r risgiau a gyflwynir gan droseddwyr VAWG ac i ddiogelu dioddefwyr. Gyda throsteddau fel stelcian a cham-drin domestig, gallai carcharu fod yr unig seibiant i ddioddefwyr rhag eu camdriniwr.

Mae'r Llywodraeth wedi gosod targed o haneru trais yn erbyn merched a genethod yn y degawd nesaf.²³⁷ Mae angen gwelliannau helaeth ar draws y system gyfiawnder i sicrhau bod camdrinwyr yn cael eu dal i gyfrif a dioddefwyr yn cael eu diogelu. Mae atal, sy'n gofyn am ymateb traws-systemig, yn greiddiol bwysig os yw'r Llywodraeth i gyflawni hyn. Fodd bynnag rhaid i'r Llywodraeth hefyd sicrhau, unwaith y bydd camdrinwyr VAWG yn y system, eu bod yn cael eu monitro'n effeithiol a'r ymyriadau iawn yn cael eu rhoi yn eu lle ym mhob cam i atal risgiau i ddioddefwyr a'r cyhoedd.

ARGYMHELLIAD 5.5: Adnabod camdrinwyr domestig yn well ar bwynt eu dedfrydu i sicrhau bod yr ymyriadau iawn yn eu lle i reoli troseddwyr

Er mwyn monitro camdrinwyr domestig yn effeithiol, rhaid eu hadnabod yn well ar bwynt eu dedfrydu i sicrhau y gellir tracio troseddwyr drwy'r system a bod ymyriadau priodol yn eu lle.

Mae tystiolaeth fanwl o gamdrinwyr domestig yn brin ar draws y system, o ran argaeledd, cysondeb ac ansawdd, sy'n ei gwneud yn anodd hadnabod a monitro camdrinwyr yn effeithiol. Mae nifer o droseddau y gellir erlyn camdrinwyr domestig amdanynt ac nid yw'r troseddau hyn bob amser yn cofnodi natur troseddu'r camdriniwr a'r risgiau a gyflwynir gan y camdriniwr. Er enghraifft, gall cam-drin domestig gael ei erlyn fel ymosodiad neu achosi difrod troseddol. Er bod asiantaethau ar draws y broses gyfiawnder yn cynnwys baneri cam-drin domestig mewn systemau data i amlygu'r achosion hyn, nid ydynt bob amser yn gyson ac nid oes un 'marciwr'

neu rybudd cyson a digamsyniol i adnabod y troseddwy'r hyn er mwyn rhoi ymyriadau priodol yn eu lle i ddiogelu dioddefwyr.

Roedd papur polisi diweddar gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig, Y Fonesig Nicole Jacobs, yn argymhell bod y Llywodraeth ac asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gwneud gwelliannau data a bod taer angen codi baner at ddigwyddiadau cam-drin domestig ar draws data cyfiawnder troseddol.²³⁸ Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi bod data gwael wedi'i godi fel pryder droeon.²³⁹ Roedd arolygiad thematig o gam-drin domestig gan Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi (HMIP) hefyd yn amlygu bod angen adnabod achosion o gam-drin domestig yn well er mwyn rheoli camdrinwyr. Roedd yr adroddiad yn argymhell bod HMPPS yn "sicrhau bod dioddefwyr a dioddefwyr posib cam-drin domestig yn cael eu hadnabod yn gywir" er mwyn "diogelu dioddefwyr a'u hysbysu ym mhob cam o broses reoli'r ddedfryd".²⁴⁰

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn ei gwneud yn statudol ofynnol i'r llysoedd gofnodi canfyddiadau barnwrol achosion cam-drin domestig, er mwyn adnabod a monitro camdrinwyr yn well. Bydd cofnodi canfyddiadau barnwrol yn gadael i'r heddlu, y Gwasanaeth Prawf ac asiantaethau eraill adnabod achosion a gofnodwyd yn flaenorol fel cam-drin domestig gan eu helpu i dracio camdrinwyr domestig yn haws, deall y risgiau a gyflwynir ganddynt a sicrhau bod yr ymyriadau iawn yn eu lle i ddiogelu dioddefwyr a'r cyhoedd.

Rhannu gwybodaeth

Er mwyn monitro camdrinwyr domestig yn well, rhaid hefyd gwella sut y mae gwybodaeth a data'n cael ei rannu rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol. Dylai'r Llywodraeth ystyried sut i gynorthwyo rhannu gwybodaeth yn well, gan gynnwys sut y gall systemau a thechnoleg data wella'r broses o adnabod a monitro camdrinwyr o'r dechrau i'r diwedd yn y system gyfiawnder. Mae'r Comisiwn Cam-drin Domestig yn argymhell "ailwampio" systemau data'n llwyr a mwy o integreiddio ar draws y system gyfiawnder i "drawsnewid sut y mae arweinwyr cyfiawnder troseddol... yn dyrannu adnoddau'n briodol, gorfodi'r gyfraith a chadw dioddefwyr yn ddiogel"²⁴¹ Gallai rhannu data a gwybodaeth yn well ar draws y system gyfiawnder hefyd wella dealltwriaeth o beth sy'n gweithio i reoli'r risg a gyflwynir gan droseddwy'r VAWG.

ARGYMHELLIAD 5.6: Darparu mwy o Lysoedd Cam-drin Domestig Arbenigol

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn darparu mwy o Lysoedd Cam-drin Domestig Arbenigol (SDAC) fel ymateb cyson ac arbenigol i achosion cam-drin domestig, o ystyried cymhlethdod yr achosion hyn.

Mae llysoedd SDAC yn fodel llys amgen a dreialwyd gyntaf yn 1999 cyn eu cyflwyno'n genedlaethol.²⁴² Yn 2023, dywedodd *Standing Together* fod nifer y llysoedd SDAC wedi lleihau'n sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf a bod anghysondeb gyda'r egwyddorion o ddarparu'r llysoedd hyn.²⁴³ Mae nifer o fodelau ymarfer o lysoedd SDAC ac ar hyn o bryd nid ydynt yn cael eu monitro'n genedlaethol. Mae gweithio'n amlasiantaethol yn egwyddor graidd sy'n helpu i rannu gwybodaeth a chyfathrebu rhwng asiantaethau er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer rheoli troseddwy'r.²⁴⁴ Hefyd, mae'r modelau hyn yn aml yn clystyru achosion, gydag achosion cam-drin domestig yn cael eu rhestru ar yr un diwrnod i ganolbwyntio adnoddau a chynorthwyo staff a barnwyr, i wella eu gwybodaeth arbenigol. Dylai llysoedd SDAC gadw'r prif ffocws ar gefnogi a diogelu dioddefwyr.

Lle bo'n bosib, mae'r Adolygiad hefyd yn argymhell bod llysoedd SDAC yn defnyddio Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA). Mae cynghorwyr IDVA yn rhoi cymorth hanfodol i dioddefwyr drwy gydol eu cyswllt â'r system cyfiawnder troseddol a gwella profiad y dioddefwyr yn sylweddol pan fyddant yn y llys.²⁴⁵ Mae Rheolau Gweithdrefnau Teuluol 2010 (Cyfarwyddyd Ymarfer 27C) a Rheolau Gweithdrefnau Troseddol 2020 (Rheol 3.8(7)(a)(ii)) yn cadarnhau y dylai'r llys teulu a throseddol adael i gynghorwyr IDVA (a Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA)) eistedd gyda neu'n agos i'r dioddefwr yn y llys os yw trefn llawr y llys yn caniatáu, neu yn unrhyw le arall y mae'r dioddefwr yn cymryd rhan oni bai fod rheswm da i'r barnwr / ynadon wrthod.²⁴⁶ Mae'r Adolygiad yn deall nad yw'r arfer da hwn yn digwydd

mewn rhai ardaloedd. Mae'r Adolygiad yn annog y Llywodraeth i ystyried a fyddai canllawiau ar y mater hwn yn gwella cysondeb y cymorth i ddioddefwyr mewn gwrandawiau llys.

Mae ehangu llysoedd SDAC yn cael ei gefnogi gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig a sefydliadau fel y Ganolfan Cyfiawnder i Ferched a *Standing Together*.²⁴⁷ Mewn tystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad, dywedodd *Standing Together* fod "darparu mwy o lysoedd SDAC yn hollbwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth ac asesiadau risg yn effeithiol er mwyn gallu defnyddio'r canllawiau dedfrydu i'w botensial llawn".²⁴⁸

Enghreifftiau eraill o weithio'n amlasiantaethol

Mae'r Adolygiad yn cydnabod pwysigrwydd gweithio'n amlasiantaethol i sicrhau ymyriadau effeithiol ar gyfer rheoli troseddwr. Er enghraifft, o dan Drefniadau Gwarchod y Cyhoedd Amlasiantaethol (MAPPA), mae'r heddlu, gwasanaethau Prawf a charchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd i roi barn holistig am amgylchiadau a lefel risg y troseddwr.²⁴⁹ Mae'r Adolygiad yn croesawu ehangu MAPPA er mwyn gallu rheoli'n awtomatig y troseddwr hynny a gafodd 12 mis neu fwy o garchar, neu orchymyn ysbyty, am drosedd ymddygiad rheolgar a rheoli drwy orfodaeth.

Gallai mewnbwn amlasiantaethol hefyd gynorthwyo gwaith y Gwasanaeth Prawf o asesu risg. Er enghraifft, dywedodd y Comisiynydd Cam-drin Domestig fod enghreifftiau o wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yn cyfrannu at adroddiadau cyn-dedfrydu yn "addawol".²⁵⁰ Mae enghreifftiau hefyd o ddulliau amlasiantaethol effeithiol o ddarparu ymyriadau:

Mae'r Prosiect *Drive* wedi'i ddatblygu gan Respect, SafeLives a Social Finance ac yn rhaglen ymyriadau cam-drin domestig i geisio lleihau nifer y dioddefwyr (oedolion a phlant) drwy aflonyddu ar a newid ymddygiad camdriniwr, a gweithio gyda chamdrinwyr a aseswyd o dan lwybr atgyfeirio'r gynhadledd asesu risg amlasiantaethol (MARAC) i fod yn cyflwyno risg uchel, niwed uchel o gam-drin domestig. Mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi goroeswyr.

Mae'r model yn cynnwys sesiynau un-i-un gan reolwyr achos i ddefnyddwyr gwasanaeth, a chymorth un-i-un gan gynghorwyr IDVA i oroeswyr. Defnyddir gweithio amlasiantaethol i rannu gwybodaeth, rhannu risg yn effeithiol ac aflonyddu ar ymddygiad camdriniol. Mae reolwyr achos yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys trefnu llety neu driniaeth sylweddau, er mwyn lleihau'r risg i ddioddefwyr.

Mae'r model ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu mewn saith ardal heddlu ar draws Cymru a Lloegr.²⁵¹

Mae Prifysgol Bryste wedi gwneud gwerthusiad annibynnol o gam darparu cyntaf (2016-2019) y prosiect. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn tueddu i fod ag anghenion dwys gan gynnwys problemau cyffuriau / alcohol, iechyd meddwl gwael a phroblemau tai.

Casglodd y gwerthusiad:

- Bod camdrinwyr yn cam-drin llai: roedd y cam-drin corfforol i lawr o 82%, ymddygiad harasio a stelcian i lawr o 75% ac ymddygiad cenfigennus a rheolgar i lawr o 73%.
- Dywedodd gynghorwyr IDVA fod y risg i ddioddefwyr yn llai mewn 82% o achosion yn ystod yr ymyriad.
- Roedd llai o gamdrinwyr ailadroddus a chyfresol yn dod o flaen MARAC.²⁵²

ARGYMHELLIAD 5.7: Gwella hyfforddiant i ymarferwyr cyfiawnder troseddol a barnwyr ar drais yn erbyn merched a genethod i gynorthwyo dedfrydu a rheoli troseddwyd yn briodol

Mae sicrhau bod gan ymarferwyr y wybodaeth arbenigol i ymateb i gam-drin domestig a mathau eraill o VAWG yn hollbwysig. Dylai fod gan ddedfrydwyr a gwasanaethau ymyriadau wybodaeth helaeth o droseddau VAWG, y risgiau a gyflwynir gan droseddwyd, a'r ystod lawn o ymyriadau sydd ar gael.

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod yr holl ymarferwyr cyfiawnder troseddol (gan gynnwys erlynwyr a swyddogion prawf) a'r farnwriaeth yn derbyn hyfforddiant deall trawma ar VAWG i'w helpu i ddedfrydu a rheoli troseddwyd yn briodol. Dylid adolygu'r hyfforddiant yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu ymarfer gorau.

Er bod angen i ymarferwyr a'r farnwriaeth dderbyn hyfforddiant ar gam-drin domestig a mathau eraill o VAWG yn barod, mae'r angen am hyfforddiant gwell wedi bod yn thema barhaus yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad.

Pwysleisiodd ymatebwyr i'r Alwad am Dystiolaeth y dylai hyfforddiant fod yn rheolaidd, gorfodol a seiliedig ar ddeall trawma a chynnwys pob math o VAWG a cham-drin domestig, gan gynnwys rheoli drwy orfodaeth. Yn ôl sefydliadau dioddefwyr a ymgysylltodd â'r Adolygiad, "nid yw dealltwriaeth o'r perygl neu risg a gyflwynir gan gamdrinwyr cystal ag y dylai fod" – gan nodi na ddylai arwyddion o gymeriad da neu ddiffyg euogfarnau blaenorol awgrymu na ddigwyddodd y cam-drin.

Er bod hyfforddiant barnwrol yn fater i'r farnwriaeth annibynnol, byddai unrhyw adolygiad felly'n fater i'r Coleg Barnwrol ac mae'r Adolygiad yn credu bod adolygu'r hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau bod gan farnwyr y wybodaeth i ddedfrydu'n briodol. Yn yr adroddiad "Shifting the Scales", rhannodd y Comisiynydd Cam-drin Domestig hanesion yn awgrymu bod diffyg dealltwriaeth o hyd o gam-drin domestig ymhlith y farnwriaeth. Er enghraifft clywodd un dioddefwr nad oedd "yn edrych fel dioddefwr".²⁵³

ARGYMHELLIAD 5.8: Sicrhau bod gan y Gwasanaeth Prawf ddigon o adnoddau i reoli camdrinwyr trais yn erbyn merched a genethod, gan gynnwys ar gyfer monitro electronig

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn chwarae rôl hanfodol mewn rheoli camdrinwyr VAWG ac mae'r Adolygiad yn cydnabod bod gwasanaethau dan bwysau sylweddol. Yn ôl adroddiad thematig HMIP ar gam-drin domestig yn 2023, roedd tua 30% o'r rhai oedd ar brawf yn neu wedi bod yn gamdrinwyr domestig.²⁵⁴ Dim ond 28% o'r achosion a arolygwyd gan HMIP a aseswyd yn ddigonol am unrhyw risg o gam-drin domestig.²⁵⁵

Fel y mae Pennod Saith yn ei egluro'n fwy manwl, mae'r Adolygiad yn argymhell nifer o fesurau i gynorthwyo'r Gwasanaeth Prawf i flaenoriaethu ei adnoddau er mwyn cael yr effaith fwyaf ar leihau aildroseddu a rheoli risg o niwed. Mae'r Adolygiad hefyd yn argymhell buddsoddi yn y Gwasanaeth Prawf i sicrhau digon o adnoddau i reoli troseddwyd yn fwy effeithiol yn y gymuned. O ran camdrinwyr VAWG, mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn rhoi'r adnoddau angenrheidiol i'r Gwasanaeth Prawf i ddarparu mwy o fonitro electronig ar gyfer camdrinwyr VAWG, i reoli risg a diogelu dioddefwyr ([mwy o fanylion ym Mhennod Wyth](#)).

Gall tagio fod yn ffordd ddefnyddiol o fonitro troseddwyd ac adnabod os yw risg yn cynyddu. Mae'r Llywodraeth wedi peilota monitro electronig o gamdrinwyr domestig gydag oedolion-droseddwyd yn gorfod gwisgo tag electronig ar ôl gadael y carchar, gyda'r nod o reoli troseddwyd yn fwy cadarn, helpu dioddefwyr i deimlo'n ddiogel ar ôl cael eu rhyddhau, ac atal troseddu pellach.²⁵⁶ Fel rhan o'r gwerthusiad, dywedodd staff Prawf, swyddogion cyswllt dioddefwyr a throseddwyd ar brawf i gyd fod gallu cadarnhau lleoliad gwisgwr y tag yn beth da.²⁵⁷ Roedd data o'r tag electronig yn helpu staff Prawf i adnabod patrymau posib o risg yn

gwaethygu. Roedd tagio hefyd yn tawelu meddyliau dioddefwyr a symud y baich o brofi bod tor-amod wedi digwydd oddi arnynt. Dylid tagio troseddwr yn fuan iawn ar ôl gadael y carchar i roi'r tawelwch meddwl hwn i ddioddefwyr.

Mewn tystiolaeth i'r Alwad am Dystiolaeth, lleisiodd Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh bryderon nad yw torri amodau tagio electronig yn cael eu cymryd ddigon o ddifrif ar hyn o bryd.²⁵⁸ Os yw'n cael ei adnabod bod troseddwr wedi torri amodau eu rhyddhau, dylid ymateb yn ddiymdros a blaenoriaethu diogelwch dioddefwyr. Dylai tagio ychwanegu at, yn hytrach na disodli, gorfodaeth gywir o'r gorchmynion hyn.

Mae hefyd yn bwysig bod ymyriadau, fel y rhaglenni ymddygiad troseddwr achrededig, yn effeithiol a bod gan y Gwasanaeth Prawf yr adnoddau angenrheidiol i'w darparu. Dywedodd sefydliadau VAWG a ymgysylltodd â'r Adolygiad fod goroeswyr yn aml yn clywed bod camdrinwyr yn cael eu hadsefydlu ond eu bod aildroseddu'n fuan ar ôl cael eu rhyddhau, gan arwain at golli hyder yn y system. Casglodd adroddiad thematig HMIP ar gam-drin domestig yn 2023 y dylai 45% o'r rhain yn eu sampl achosion fod wedi derbyn ymyriad ond nad oeddent.²⁵⁹ Rhaid i'r rhaglenni fod ar gael yn ehangach a gallai data cenedlaethol gwell ar atgyfeiriadau a wnaed ac a gwblhawyd helpu'r Llywodraeth i ddeall ansawdd darparu'r rhaglenni'n well.

Iawndal i ddioddefwyr ymddygiad rheolgar a rheoli drwy orfodaeth

Yn ogystal ag adnabod a monitro camdrinwyr VAWG yn well, mae'n bwysig bod dioddefwyr yn derbyn iawndal digonol am y niwed a achoswyd iddynt.

Gall cam-drin economaidd wneud y broses o adael camdriniwr a cheisio cyfiawnder yn anoddach i ddioddefwyr. Pwysleisiodd adroddiad gan yr elusen *Surviving Economic Abuse* fod dioddefwyr yn aml yn wynebu trafferthion ariannol hirdymor yn dilyn cam-drin economaidd. Casglodd hefyd fod dioddefwyr nid yn unig eisiau cyfiawnder troseddol ond cyfiawnder economaidd hefyd i gwrdd â'r gost sy'n deillio o gael eu cam-drin yn ariannol, gan gynnwys drwy wneud iawn.²⁶⁰

Mae gan y llys ddyletswydd statudol i ystyried a yw gorchymyn iawndal yn briodol mewn unrhyw achos lle yr achosodd drosodd anaf, colledion neu ddifrod personol.²⁶¹ Mae'r canllawiau dedfrydu'n glir y gellir gorchymyn iawndal am "anaf meddyliol", yn cynnwys yr effaith y gall ymddygiad rheolgar a rheoli drwy orfodaeth, a mathau eraill o VAWG, ei gael ar les meddwl dioddefwyr.²⁶² Fodd bynnag, mewn ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, mae *Surviving Economic Abuse* yn awgrymu nad yw'n gyffredin gwneud gorchymyn iawndal ar gyfer ymddygiad rheolgar a rheoli drwy orfodaeth.²⁶³ Nid yw'r Adolygiad wedi dadansoddi hyn ymhellach.

Mae iawndal yn fater cymhleth a gallai fod nifer o resymau dros beidio ei orchymyn yn yr achosion hyn. Mae cyfraith achosion yn awgrymu bod gorchmynion iawndal i'w darparu ar gyfer "achosion didrafferth" ac "na ddylai'r llys ymchwilio'n fanwl i faint unrhyw anaf, colled neu ddifrod".²⁶⁴ Gallai hyn wneud cwblhau gorchmynion iawndal yn heriol mewn achosion lle nad yw'r golled neu'r difrod i'r dioddefwr yn cael ei gydnabod neu ei gyfrifo'n benodol. Rhaid i'r llys hefyd ystyried modd y troseddwr ac a fyddai'n gallu talu iawndal.²⁶⁵ Hefyd, efallai na fydd rhai dioddefwyr eisiau derbyn iawndal gan y troseddwr ac yn awyddus i dorri pob cysylltiad. Gallai hefyd roi'r argraff beryglus i gamdrinwyr eu bod dal yn gallu ymarfer rhyw elfen o reolaeth dros eu dioddefwr. Yn ôl canllawiau'r Cyngor Dedfrydu, dylid holi barn dioddefwyr mewn ffordd sensitif wrth ystyried gorchymyn iawndal i osgoi achosi mwy o niwed os gallai iawndal ariannol gan y troseddwr achosi trallod.²⁶⁶

Mae'r Adolygiad yn annog ystyried ymhellach sut y gallai iawndal gael ei gynnig i ddioddefwyr sy'n gymwys ac eisiau derbyn iawndal. Dylid gwneud mwy o waith i ddeall y rhwystrau presennol i iawndal a sut y gellid lliniaru yn eu herbyn.

Pennod Chweth: Dulliau targed gyda gwahanol grwpiau o droseddwr

Mae'r Adolygiad wedi canolbwyntio ar sut y gall ymyriadau adsefydlu a gynigir drwy ddedfrydau leihau aildroseddu ac atal mwy o bobl rhag dod yn ddioddefwyr troseddu. Yn ganolog i hyn yw ystyried amgylchiadau ac anghenion personol troseddwr a theilwrio'r ddedfryd i fynd i'r afael â'r rhesymau sydd wrth wraidd eu troseddu.

Mae dull wedi'i deilwrio a neilltuo yn arbennig o bwysig i droseddwr gyda nifer o ffactorau bregus fel trawma a chamddefnyddio sylweddau. Dylai dedfrydu osgoi atgyfnerthu'r duedd i anfantais gynnar ym mywyd rhywun achosi canlyniadau cynyddol-waethygol yn y tymor hir (hefyd yn cael ei alw'n anfantais gronnus). Yn hytrach, dylai dedfrydu sicrhau bod unigolion yn cael eu dal i gyfrif gan hefyd fynd i'r afael â'r rhesymau sydd wrth wraidd eu hymddygiad troseddol.

Pwysleisiodd y rhai wnaeth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth y rôl ganolog y mae adroddiadau cyn-dedfrydu (PSRs) yn ei chwarae mewn teilwrio dedfrydau i droseddwr, i sicrhau cosb ac ymyriad adsefydlu priodol. Pan gynhyrchir PSRs llawn, maen nhw'n cynnig gwybodaeth sylfaenol i ddedfrydwyr am gefndir y troseddwr, amgylchiadau'r drosedd, y risg a gyflwynir ganddynt, ac unrhyw gyd-destun perthnasol arall. Er enghraifft, i lawer o droseddwr gyda hanes o gamddefnyddio sylweddau, gall adroddiadau PSR helpu barnwyr i benderfynu sut fath o ymyriad adsefydlu fyddai fwyaf effeithiol. Yn 2024, daeth Arolygiaeth Prawf EF (HMIP) i'r casgliad, o 490 o adroddiadau PSR a archwiliwyd rhwng Chwefror 2022 ac Awst 2023, bod llai na'u hanner yn ddigon dadansoddol ac wedi eu personoli i'r unigolyn.²⁶⁷ Mae'r Adolygiad yn ystyried bod adroddiad PSR yn bwysig i bob troseddwr.

Er bod pecyn mesurau'r Adolygiad wedi'i gynllunio i leihau'r defnydd diangen o'r carchar i rai troseddwr ([mwy o fanylion ym Mhennod Tri](#)), amcan yr argymhellion canlynol yw datblygu dull wedi'i deilwrio o ddedfrydu er mwyn gwella canlyniadau adsefydlu.

Troseddwr cyson

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn diffinio troseddwr cyson fel unigolion oedd yn 21+ oed ar adeg eu cysylltiad diwethaf â'r system cyfiawnder troseddol, sydd â chyfanswm o 16 neu fwy o euogfarnau neu rybuddiadau blaenorol ac 8 neu fwy o euogfarnau neu rybuddiadau blaenorol pan oeddent yn 21+ oed.²⁶⁸

Mae troseddwr cyson fel arfer yn cyflawni nifer o droseddau fel dwyn, lladrad ar y stryd a difrod troseddol.²⁶⁹ Fel arfer mae ganddynt amryw o anghenion a lefel uwch o "anghenion trosedd-achosol" na throseddwr anghyson.²⁷⁰ Anghenion trosedd-achosol yw ffactorau risg deinamig yn gysylltiedig â throseddu, fel llety neu berthnasoedd ansefydlog.²⁷¹ Yn ôl astudiaeth ddiweddar gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o droseddwr a gafwyd yn euog o droseddau rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020, roedd gan 73% o droseddwr cyson 6 neu fwy (allan o 8) o anghenion trosedd-achosol o'i gymharu â 49% o droseddwr anghyson.²⁷² Mae'r gwahaniaeth rhwng anghenion troseddwr cyson ac anghyson i'w weld fwyaf gydag anghenion fel camddefnyddio cyffuriau (21 pwynt canran), llety (16 pwynt canran) a chyflogaeth (16 pwynt canran).²⁷³

Teimlai y rhan fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth nad yw'r ffordd bresennol i reoli troseddwr cyson yn gweithio gan gydnabod na all dedfrydu ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r rhesymau sydd wrth wraidd troseddau'r cohort hwn. Yn ôl Cymdeithas yr Ynadon, nid oes gan ddedfrydwyr ddigon o opsiynau i ddedfrydu troseddwr cyson yn adeiladol, a'r

opsiynau tu allan i lys a di-garchar, fel rhybuddiadau amodol ar orchymyn yr heddlu, yw'r rhai mwyaf effeithiol yn aml.²⁷⁴

Yn eu hymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, pwysleisiodd y Ganolfan Arloesi Cyfiawnder fod cyfran uchel o droseddwyd cyson yn gaeth i gyffuriau gyda thystiolaeth sylweddol y gall triniaeth gyffuriau orfodol sicrhau adsefydlu effeithiol ac ymatal rhag trosedd.²⁷⁵ Mae'r Adolygiad o blaid buddsoddi mwy mewn Gofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol (CSTR) fydd yn arbennig o bwysig i droseddwyd cyson ag anghenion caethiwed i gyffuriau ac alcohol ([mwy o fanylion yn Argymhelliad 2.3](#)).

Mae trosedd cyson yn tarfu ar gymunedau ac mae'r broblem hon yn anferth: rhwng 2000 a 2021, roedd troseddwyd cyson yn cyfrif am tua 10% o'r holl droseddwyd ond yn derbyn dwywaith gymaint o ddedfrydau o garchar na throseddwyd eraill.²⁷⁶ Mae'r Adolygiad yn cydnabod bod angen cosbi troseddwyd cyson ond, yn greiddiol, rhaid hefyd eu hadsefydlu.

ARGYMHELLIAD 6.1: Sicrhau bod mwy o Lysoedd Goruchwylio Dwys ar gael i ddelio â throseddwyd cyson

Fel y trafodwn ym Mhennod Tri, dengys tystiolaeth fod dedfrydau byr o garchar yn aml yn aneffeithiol i atal y "drws troi mewn cylch" o aildrosedd parhaus. Teimlai rhai wnaeth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth y gallai ymyriadau ffurfiol a dwys yn y gymuned annog troseddwyd cyson i ymatal yn well rhag trosedd. I gynorthwyo hyn, mae'r Adolygiad yn argymhell ehangu nifer y Llysoedd Goruchwylio Dwys (ISC), sef llysoedd datrys problemau arbenigol sy'n ceisio troi troseddwyd draw o garchar at gael eu rheoli'n gadarn yn y gymuned.

Mae llysoedd ISC yn targedu troseddwyd ag anghenion sylfaenol a chymhleth sylweddol, sy'n debygol o fod yn fwy tebygol o ailadrodd eu hymddygiad troseddwyd, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r rhesymau sydd wrth wraidd yr ymddygiad troseddol. Mae llysoedd ISC peilot yng Nghymru a Lloegr (yn Llysoedd y Goron Lerpwl, Teeside a Bryste ac yn Llys Ynadon Birmingham) yn derbyn troseddwyd ar orchymynion cymunedol lefel uchel a gorchymynion dedfrydau gohiriedig (SSO).²⁷⁷ Mae llysoedd ISC yn monitro troseddwyd drwy gydol eu dedfryd a, drwy gydlyn timau amlasiantaethol, yn gallu darparu cymorth dwys 'cofleidiol' i ateb anghenion y troseddwr. Mae llysoedd ISC yn trefnu adolygiadau rheolaidd o droseddwyd gan farnwr penodol, hapbrofion cyffuriau a breintiau a sancsiynau graddoledig i droseddwyd ar sail eu cynnydd a chydymffurfio â'u gorchymyn.

Gallai llysoedd datrys problemau fel rhai ISC fod yn ymyriad arbennig o ddefnyddiol i ferched sy'n troseddu'n gyson ac yn aml ag anghenion lluosog a chymhleth, fel y dangosodd ganfyddiadau cynnar gwerthusiad o ISC Birmingham, sy'n gweithio gyda merched yn y gymuned (er nid gyda throseddwyd cyson yn unig).²⁷⁸ Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth pwysleisiodd Sefydliad JABBS fod ISC Birmingham, yn anecdotaid, wedi cael "llwyddiant aruthrol" gyda merched a gefnogir gan dîm amlasiantaethol sy'n darparu pecyn gofal 'deall trawma', penodol i rywedd wedi'i deilwrio ar eu cyfer.²⁷⁹

Roedd y gwerthusiadau proses interim o'r cynlluniau peilot ISC yng Nghymru a Lloegr, gyda chohort bach o droseddwyd, ar y cyfan yn bositif gan ddangos y byddai'r rhan fwyaf o bobl a anfonwyd i'r llysoedd ISC (41 allan o 63) wedi derbyn dedfryd o garchar fel arall.²⁸⁰ Roedd unigolion ar gynllun ISC wedi mynychu eu gofynion adsefydlu neu roi rheswm derbyniol dros fod yn absennol 89% o'r amser, gan awgrymu ymgysylltu da â gofynion eu gorchymyn.²⁸¹ Er i'r canfyddiadau awgrymu llwythi gwaith trymach na'r disgwyl mewn rhai ardaloedd, a heriau oherwydd diffyg rhan y gwasanaethau tai, cafwyd perthnasoedd positif rhwng y timau amlasiantaethol a throseddwyd a dderbyniodd becynnau cymorth wedi eu teilwrio.²⁸² Roedd rhai troseddwyd hefyd wedi derbyn triniaeth iechyd meddwl am y tro cyntaf.²⁸³ Mae'n ddyddiau cynnar ar weithredu'r llysoedd ISC a bydd gwerthusiad pellach wedi'i wneud erbyn haf 2025.

Nod y dull dedfrydu dwys hwn yw gwneud troseddwy yn fwy atebol a'u cael i gydymffurfio'n well gan felly wella hyder y farnwriaeth mewn dedfrydau cymunedol fel ffordd effeithiol o gosbi ac adsefydlu troseddwy cyson.

Mewn achosion lle na chredir bod ISC yn briodol, mae gan ddedfrydwyr ddisgresiwn llawn i ddedfrydu'n syth i garchar mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os yw troseddwr yn torri gorchymyn llys dro ar ôl tro.

Ymyriad cymunedol llym i droseddwy cyson

Gall yr agwedd datrys problemau ar lysoedd ISC, fel trosolwg barnwrol a threfniadau rheoli dedfryd, fod yn effeithiol i rai troseddwy cyson ond, i eraill, gall fod yn fwy priodol iddynt dderbyn cosb yn y gymuned heb y trosolwg barnwrol hwn (er enghraifft, trwy SSO). Yn achos eraill, efallai y bydd angen ymyrryd cofleidiol a chadarn yn gymuned fel drwy Reolaeth Integredig o Droseddwy (IOM).

Ar hyn o bryd gellir rheoli troseddwy cyson sy'n cyflawni troseddau cymdogaeth, fel lladrata neu ddwyn, o dan IOM i helpu i dorri'r cylch o droseddu.²⁸⁴ Mae IOM yn rhoi cymorth wedi'i dargedu, drwy oruchwyliaeth traws-asiantaeth a throsolwg gan y Gwasanaeth Prawf, heddlu ac awdurdodau lleol. Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, dywedodd HMIP fod ymdrechion blaenorol i ddefnyddio rheolaeth integredig, amlasiantaethol o droseddwy wedi dangos arwyddion addawol o adsefydlu troseddwy gan ddadlau y gellid ailwampio'r dull hwn drwy roi ffocws cryfach ar y troseddwy mwyaf cyson.²⁸⁵

Yn dilyn arolygiad thematig ar y cyd o IOM gan HMIP, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EF a'r gwasanaethau Tân ac Achub yn 2020, roedd y canfyddiadau'n siomedig gan ddangos bod IOM wedi "colli ei ffordd", a chytunodd rhanddeiliaid a gweithwyr ei bod yn "bryd neu'n hen bryd" cael strategaeth newydd.²⁸⁶ Diwygiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y cynllun yn Rhagfyr 2020 i roi "mwy o eglurder ac atebolrwydd".²⁸⁷ Roedd y strategaeth newydd yn categoreiddio troseddwy yn dri chohort – penodol, hyblyg a rhydd – i deilwrio ymyriadau ac optimeiddio adnoddau.

- Mae'r cohort **penodol** yn cynnwys troseddwy a gyflawnodd droseddau cymdogaeth gyda risg uchel o aildroseddu (ar sail Sgôr Aileuogfarn Grŵp Troseddwy (OGRS)), fel arfer lladradau a ddwyn.
- Mae'r cohort **hyblyg** yn cynnwys troseddwy a gyflawnodd droseddau cymdogaeth neu sydd â hanes o gyflawni troseddau o'r fath, a sgôr OGRS canolig.
- Mae'r cohort **rhydd** yn rhoi hyblygrwydd i ardaloedd lleol gyda sut i gwrdd ag anghenion a blaenoriaethau drwy gynnwys troseddwy nad ydynt yn disgyn i'r categorïau penodol neu hyblyg.²⁸⁹

Mae'r model IOM yn parhau i fod yn fodel lleol y gellir ei addasu, gyda dull wedi'i deilwrio a chadarn o reoli troseddwy. O gael ei ddarparu'n effeithiol, gall dull amlasiantaethol gynorthwyo i reoli troseddwy yn y gymuned drwy rannu fwy o wybodaeth, defnyddio safleoedd cyd-leoli a chynlluniau amlasiantaethol.²⁸⁸ Mae'r rhaglen IOM ffurfiol yn ddwys gydag unigolion o'r cohort penodol yn mynychu tri apwyntiad yr wythnos rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth Prawf, gan dderbyn goruchwyliaeth a chymorth adsefydlu. Gallai hyn gynnwys cymorth iechyd meddwl, triniaeth cyffuriau / alcohol a chymorth cyflogaeth. Mae'r Adolygiad yn credu bod yr egwyddorion sydd wrth wraidd IOM (gweithio gyda'n gilydd, arweinyddiaeth a phartneriaeth leol, a goruchwyliaeth holistig) yn rhan annatod o reolaeth ddwys a helpu rhai troseddwy cyson i droi cefn ar droseddu.

Yn ôl gwerthusiad diweddar o IOM gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar sail pedair ardal astudiaeth achos (Sir Efrog a'r Humber, Manceinion Fwyaf, Dwyrain Lloegr a De-Canol Lloegr), roedd y strategaeth newydd yn 2020 yn rhoi mwy o eglurder a ffocws ar IOM, roedd

strwythurau llywodraethu newydd yn glir a gweithio'n dda a'r ailwampio wedi cyflwyno lefel o drosolwg ac arweinyddiaeth strategol oedd yn absennol o'r blaen.²⁸⁹ Fe wnaeth y gwerthusiad nodi mai'r rhwystrau i IOM oedd adnoddau a chapasiti gan gynnwys problemau gyda chapasiti sefydliadau ehangach fel cymorth tai neu iechyd meddwl.

Mae llwyddiant dedfrydau cymunedol dwys i droseddwyd cyson yn dibynnu ar Wasanaeth Prawf sydd wedi'i ariannu'n dda ac yn gweithio'n dda ([mwy o fanylion ym Mhennod Saith](#)).

Mae datrys troseddau cyson yn anodd ac ni all Prawf a dedfrydu'n unig ei leihau. Mae sicrhau llety a chyflogaeth sefydlog ynghyd â thriniaethau iechyd hefyd yn gwbl hanfodol. Mae'r Adolygiad hefyd wedi ystyried sut y gallai defnyddio mwy ar dechnoleg - fel adnabod wynebau troseddwyd cyson mewn ardaloedd cadw allan - gynorthwyo cosbi cadarn yn y gymuned ([mwy o fanylion ym Mhennod Wyth](#)).

Merched sy'n troseddu

Mae merched yn cyfrif am gyfran fach o'r bobl yn y system cyfiawnder troseddol – dim ond 4% o'r boblogaeth garchardai ar 31 Mawrth 2025 a 16% o'r unigolion ar ddedfrydau cymunedol ar 31 Rhagfyr 2024.²⁹⁰ Derbyniodd yr Adolygiad gyfoeth o wybodaeth yn tynnu sylw at nodweddion bregus llawer o'r merched sy'n troseddu. Yn ôl y Glymblaid Cyfiawnder Merched Genedlaethol, mae gan ferched yn y system cyfiawnder troseddol nifer o anghenion heb eu cwrdd yn aml ac yn gorfod ymdopi â heriau cysylltiedig fel digartrefedd, problemau iechyd meddwl a chaethiwed i sylweddau.²⁹¹

Mae llawer o ferched sy'n troseddu'n ddioddefwyr yn ogystal â throseddwyd gyda bron i 60% o ferched dan oruchwyliaeth yn y gymuned neu yn y carchar yn adrodd profiad o drais domestig.²⁹² Yn ôl elusen Elizabeth Fry, sy'n darparu llety a chymorth i ferched ar ôl dod allan o garchar, mae llwybrau merched at droseddu'n aml yn deillio o brofi lefelau uchel o ddrama fel cam-drin rhywiol neu gorfforol, sydd weithiau'n mynd yn ôl i'w plentyndod.²⁹³ Yn ôl astudiaeth Corston (2007) o ferched yn y system cyfiawnder troseddol, mae rhai merched yn cael eu cymell i droseddu dan orfodaeth gan y dynion yn eu bywydau.²⁹⁴ Roedd staff a chyn-droseddwyd mewn Canolfan Merched hefyd yn pwysleisio'r pwynt hwn. Mae Cymorth i Fenywod wedi galw am fwy o ddealltwriaeth ar draws y system cyfiawnder troseddol o natur ryweddol cam-drin a rheoli drwy orfodaeth gan bartneriaid.²⁹⁵

Gall merched yn y carchar fod yn feichiog, yn famau neu'n ofalwyr. Amcangyfrifir bod dros 17,500 o blant yn cael eu gwahanu'n flynyddol oddi wrth eu mamau drwy garcharu (adroddir bod 51% o ferched yn y carchar wedi eu gwahanu oddi wrth eu plant).²⁹⁶ Pwysleisiodd y rhai a fynychodd y sesiynau bwrdd crwn y niwed a achosir i blant o garcharu eu prif ofalwr, sy'n gallu gwreiddio cylchoedd o brofiadau niweidiol ymhlith teuluoedd a gwneud troseddu o un genhedlaeth i'r llall yn fwy tebygol. Nodir ganddynt fod y system cyfiawnder troseddol "yn trin anghenion teuluoedd fel difrod eilaidd" yn lle meddwl a yw dedfryd yn effeithiol a chymesur, gan gyfeirio at anghenion dibynyddion.

Mae llawer wnaeth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth a'r broses ymgysylltu'n teimlo nad yw carchar byth y lle iawn i ferched beichiog, babanod a mamau newydd.²⁹⁷ I gyd, roedd 215 o ferched beichiog yn y carchar yn y 12 mis rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024.²⁹⁸ Mae'r GIG a HMPPS yn credu bod pob merch feichiog dan glo'n cyflwyno risg uchel oherwydd y risgiau iechyd mewn carchar a thrafferth gyda derbyn cymorth meddygol neu wasanaethau arbenigol.²⁹⁹ Er yr ymdrechion a wneir mewn carchardai, clywodd yr Adolygiad nad yw gofal dan glo cyfwerth â gofal yn y gymuned.

Sut fydd pecyn mesurau'r Adolygiad yn effeithio ar ferched sy'n troseddu

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mehefin 2024, derbyniodd 77% o'r merched a ddedfrydwyd i garchar ddedfryd o 12 mis neu lai.³⁰⁰ Dywedodd gyrff trydydd sector wrth yr Adolygiad nad carchar yw'r lle iawn i lawer o ferched oherwydd eu nodweddion bregus (megis bod yn ddioddefwyr troseddu eu hunain) neu oherwydd eu bod yn cyflwyno risg isel i'r cyhoedd. Mae'r gyfradd hunan-niwed yn yr ystâd ferched yn syfrdanol: rhwng Rhagfyr 2023 a Rhagfyr 2024, roedd y gyfradd hunan-niwed naw gwaith yn fwy mewn carchardai merched (6,056 digwyddiad am bob mil o garcharorion) na mewn carchardai dynion (687 digwyddiad am bob mil o droseddwyd).³⁰¹ Sefydlodd Adolygiad Farmer (2019) hefyd mai perthnasodd yw angen trosedd-achosol mwyaf cyffredin merched.³⁰² Gall dedfrydau byr o garchar i ferched wneud niwed i berthnasodd teuluol, yn enwedig oherwydd bod y carchardai'n aml yn bell o gartref gan ei gwneud yn anodd a chostus cynnal perthynas.³⁰³

Mae argymhellion yr Adolygiad ym Mhennod Tri'n hyrwyddo carcharu yn niffyg popeth arall. Bydd Argymhelliad 3.1, i ddeddfu i sicrhau bod dedfrydau byr o garchar ond yn cael eu defnyddio mewn amgylchiadau eithriadol, yn annog dargyfeirio merched o garchar ac at sancsiynau a chymorth mwy effeithiol. Wrth annog defnyddio llai o ddedfrydau byr, nod yr Adolygiad yw lleihau'r niwed y gallai merched sy'n troseddu ei brofi.

Bydd argymhellion yr Adolygiad ar ddedfrydau wedi eu hatal (Pennod Tri) hefyd yn annog opsiynau dedfrydu mwy hyblyg i ferched beichiog a mamau. Felly hefyd, bydd argymhelliad yr Adolygiad i gynyddu uchafswm gorchmynion SSO i ddedfrydau o hyd at dair blynedd o garchar yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddedfrydwyr, sy'n arbennig o berthnasol i ferched beichiog. Mae'r Adolygiad yn cydnabod y niwed a achosir gan garcharu merched beichiog ac yn credu y dylid dargyfeirio a rhoi cymorth i ferched beichiog a mamau newydd yn y gymuned, oni bai mewn amgylchiadau eithriadol. Rhaid i garcharu fod yn niffyg popeth arall.

ARGYMHELLIAD 6.2: Darparu cyllid mwy cynaliadwy a hirdymor i Ganolfannau Merched

Er mwyn helpu i ddargyfeirio merched o fynd i'r carchar, rhaid i gymorth priodol wedi'i deilwrio fod ar gael yn y gymuned i fynd i'r afael â rhesymau merched dros droseddu.

Mae Canolfannau Merched yn chwarae rôl hanfodol mewn atgyfeirio merched sydd yn y system cyfiawnder troseddol at gymorth ymarferol ac emosiynol gwerthfawr.³⁰⁴ Maen nhw'n cynnig cymorth 'deall trawma', wedi'i deilwrio i geisio ateb anghenion lluosog a chymhleth merched (er enghraifft, cymorth gyda thai, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a chyflogaeth).³⁰⁵ Pwysleisiodd staff rheng flaen a chyn-droseddwyd, drwy ymweliadau a sesiynau bwrdd crwn yr Adolygiad, yr effaith yr oedd cymorth holistig yn ei gael ar ferched wrth symud o'r carchar i'r gymuned gan nodi, i lawer o ferched a gafodd eu cam-drin, mai dyma'r tro cyntaf iddynt dderbyn cymorth digonol mewn amgylchedd heb wynebu stigma.

Mae Canolfannau Merched yn dibynnu ar gymysgedd cymhleth o gyllid gan awdurdodau lleol, lechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, a chyllidwyr annibynnol, sy'n aml yn rheoli nifer o ffrydiau cyllid gwahanol, oherwydd nad oes dull traws-wasanaeth o gomisiynu cymorth ar draws gwahanol ardaloedd.³⁰⁶ Pwysleisiodd adroddiad gan Grŵp Cyllideb Merched y DU (2020) fod gwasanaethau arbenigol i ferched wedi cael eu heffeithio'n niweidiol gan doriadau cyllid a phwysau prosesau tendro cystadleuol.³⁰⁷ Mae natur tymor byr y cyllid yn effeithio'n negyddol ar gynaliadwyedd gwasanaethau.³⁰⁸ Gyda rhai gwasanaethau,

gall hyn arwain at danariannu, trafferthion yn cadw staff profiadol, angen parhaus i gystadlu am ffynonellau cyllid newydd ac ansicrwydd ynghylch parhad prosiectau.³⁰⁹

Pwysleisiodd staff mewn Canolfan Merched eu bod yn gweld effaith sylweddol eu gwaith er y cyfyngiadau ar gyllid. Awgrymodd tystiolaeth gan Grŵp Cyllideb Merched y DU fod ymyriadau dwysedd uchel yn costio tua £4,000 y person ac ymyriadau dwysedd isel yn costio tua £1,200, a'r ymyriadau a dderbynnir yn dibynnu ar anghenion y merched (prisiau 2018/19).³¹⁰ Ar y llaw arall roedd lle mewn carchar yn costio £52,121 y ferch yn 2018/19.³¹¹ Mae'r Strategaeth Merched sy'n Troseddu (2018) yn cydnabod yr arbedion y gall Canolfannau Merched eu rhoi o ddargyfeirio merched o garchar, gan bwysleisio eu pwysigrwydd gyda chwrdd ag anghenion cymhleth merched.³¹²

Clywodd yr Adolygiad am nifer o enghreifftiau o raglenni triniaeth gymunedol effeithiol a fyddai'n elwa o dderbyn mwy o gyllid. Yn ôl y *Women Diversion Service* yn Llundain, rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan *Advance* i droseddwr lefel is, o'r 175 o ferched a gyfeiriwyd at y gwasanaeth, roedd 91% wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth a dim ond 7% a gyfeiriwyd gyda rhybuddiadau amodol oedd wedi cael eu hail-arestio ar ôl derbyn cymorth.³¹³ Roedd ymweliad â Chanolfan Merched yn Llundain wedi cadarnhau effaith y dull cofleidio a staff yn nodi mai ychydig iawn o ferched a dderbyniodd gymorth ganddynt oedd wedi ailroseddu.

ARGYMHELLIAD 6.3: Sicrhau bod merched sy'n troseddu'n derbyn cymorth priodol drwy (1) ehangu'r defnydd o gyswllt a dargyfeirio a (2) ystyried llwybr penodol i ferched fel rhan o ofynion trin Cyffuriau ac Alcohol

Mae Cyswllt a Dargyfeirio'r GIG yn dimau amlddisgyblaeth sy'n adnabod unigolion gyda nodweddion bregus ac anghenion iechyd pan fyddant yn dod i gysylltiad gyntaf â'r system cyfiawnder troseddol yn nalfar heddlu neu yn y llys, gan atgyfeirio troseddwr at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol priodol.³¹⁴ Maen nhw hefyd yn hwyluso rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid y system cyfiawnder troseddol. Mae asesiadau gan weithwyr yn tynnu sylw at y ffactorau sy'n effeithio ar ymddygiad troseddol unigolyn, fel trawma, i sicrhau bod penderfyniadau a chynlluniau dedfrydu'n effeithiol. Gall y gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio hefyd atal ymddygiad troseddol rhag gwaethygu drwy ymyrryd yn gynnar pan fydd troseddwr yn y ddalfa.

Mae'n ofynnol i bob ardal gwasanaeth Cyswllt a Dargyfeirio yn Lloegr ddatblygu llwybr gofal merched i asesu anghenion neilltuol merched ac i roi cymorth wedi'i deilwrio. Mae'r Adolygiad yn annog y Llywodraeth i gryfhau'r llwybrau penodol i ferched yn yr ardaloedd Cyswllt a Dargyfeirio, ac ehangu'r opsiynau cymorth. Clywodd yr Adolygiad gan gyrrff trydydd sector fod adnabod ffactorau bregus yn gynnar a rhoi'r cymorth iawn yn ei le'n golygu bod merched yn llai tebygol o gyrraedd argyfwng neu fod troseddu'n gwreiddio. Er bod pwysigrwydd Cyswllt a Dargyfeirio wedi'i gyfleu i'r Adolygiad, yn enwedig ar gyfer merched sy'n troseddu, mae'r Adolygiad yn nodi eto bod angen ehangu a sicrhau ansawdd y gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio i bob troseddwr.

Mae'r Adolygiad hefyd yn argymhell datblygu llwybrau penodol i ferched ar gyfer gofynion triniaeth Cyffuriau ac Alcohol. Yn ôl y Ganolfan Cyfiawnder Cymdeithasol, mae defnydd merched o gyffuriau ac alcohol yn wahanol i ddynion ac wedi'i gysylltu'n amlach i drawma a cham-drin, a sylweddau gwahanol, wedi'i gymhlethu gan wahaniaethau biolegol-ryweddol ac

yn fwy tebygol o ddigwydd ochr yn ochr â chyfrifoldebau gofalu.³¹⁵ Mae gan y Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl (MHTR) lwybrau penodol i ferched o ddarparu triniaeth seicolegol wedi'i deilwrio ar gyfer merched sy'n tressedu. Ond nid oes llwybrau o'r fath ar gyfer gofynion triniaeth cyffuriau ac alcohol. Bydd datblygu llwybrau penodol i ferched i ateb anghenion merched yn gwella eu canlyniadau a dylent hefyd, ynghyd â'r argymhellion i fuddsoddi mwy mewn darparwyr gofynion CSTR a ddisgrifir ym Mhennod Dau, annog dedfrydwyr i'w defnyddio.

ARGYMHELLIAD 6.4: Casglu a chyhoeddi data ar ddefnydd o garchar fel "lle diogel"

Lleisiodd staff carchardai, Arolygiaeth Carchardai EF a'r Bwrdd Monitro Annibynnol bryderon gyda'r Adolygiad bod carchar yn cael ei ddefnyddio fel "lle diogel" ar gyfer pobl sâl eu meddwl a bregus.³¹⁶ Er y gall yr arfer yma ddigwydd gyda dynion a merched, derbyniodd yr Adolygiad dystiolaeth bod carchar yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol i gadw merched sâl dan glo. Dywedodd staff rheng flaen wrth yr Adolygiad nad yw carchardai a swyddogion carchar wedi eu harfogi na'u hyfforddi i ddelio ag anghenion iechyd meddwl cymhleth.

Yn ôl y diffiniad cyfreithiol o "lle diogel" yn Neddf Iechyd Meddwl 1983, gellir anfon unigolion ag anghenion iechyd meddwl aciwt, ac sy'n cwrdd â'r trothwy ar gyfer cael eu cadw mewn ysbyty, i garchar fel lle diogel tra byddant yn aros am asesiad neu driniaeth. Mae Deddf Mechnïaeth 1976 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cadw unigolion sâl ar remand yn y carchar er mwyn eu diogelwch eu hunain.³¹⁷ Mae'r Adolygiad yn pwysleisio bod yr arfer yma'n broblematic a niweidiol er bod y mater o remand y tu allan i'w sgôp.

Drwy ddiwygiadau yn y Bil Iechyd Meddwl, mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i roi diwedd ar garcharu fel "lle diogel" o dan MHA 1983 a chadw diffynnydd ar remand er mwyn eu diogelwch eu hunain os mai eu hiechyd meddwl yw'r unig bryder.³¹⁸ Mae'r Adolygiad yn croesawu hyn ac yn annog y Llywodraeth i weithredu'r newid hwn yn ddiogel a diymdroi. Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno terfyn amser statudol o 28 diwrnod i symud cleifion sy'n bodloni'r trothwy cadw dan glo o dan y MHA allan o garchar.³¹⁹ Gobaith yr Adolygiad yw y bydd yr arfer yma'n cael ei fonitro'n ofalus – mae'n hollbwysig cynyddu'r cyflenwad o lefydd diogel eraill fel gwelyau ysbyty.

Dylai diwygiadau Bil Iechyd Meddwl 2025 wneud rhywfaint i ateb y broblem hon ond mae'r Adolygiad yn ystyried bod y broblem yn un ehangach. Clywodd yr Adolygiad fod y term "lle diogel" efallai'n cael ei ddefnyddio i gyfeirio at ystod ehangach o achosion lle nad yw unigolion yn cael eu cadw o dan MHA 1983 a Deddf Mechnïaeth 1976 ond mewn amgylchiadau eraill. Nid oes dealltwriaeth dda o bryd a pham y mae hyn yn digwydd. Mae angen cydweithrediad traws-asiantaeth i ddatrys hyn. Fel y trafodwn yn Argymhelliad 6.3, gallai sicrhau bod merched yn derbyn gofal iechyd a chymdeithasol priodol drwy'r gwasanaethau Cyswllt a Dargyfeirio a Gofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol leihau nifer y merched sâl sydd dan glo.

Ar hyn o bryd nid oes data i ddangos yn union faint o unigolion sydd wedi eu rhoi yn y carchar o dan y darpariaethau hyn. I annog mwy o dryloywder, mae'r Adolygiad yn argymhell casglu a chyhoeddi data i adnabod faint o bobl a anfonwyd i'r carchar fel "lle diogel" ar eu cyfer. Bydd hyn hefyd yn gwella dealltwriaeth o'r amgylchiadau y tu allan i MHA 1983 a Deddf Mechnïaeth

1976 lle y defnyddir carchar fel “lle diogel”, a hefyd i weld a oes angen mwy o waith i ddod â'r arfer yma i ben pan ddaw diwygiadau'r Bil Iechyd Meddwl i rym.

ARGYMHELLIAD 6.5: Comisiynu astudiaeth o effaith a chanlyniadau'r ddeddfwriaeth Ymosod ar Weithwyr Brys

Derbyniodd yr Adolygiad dystiolaeth o'r effaith anghymesur y cafodd Deddf (Troseddau) Ymosod ar Weithwyr Brys (AEW) 2018 ar ferched. Mae'r Ddeddf hon “yn gwneud darpariaeth ar gyfer mwy o bwerau dedfrydu ar gyfer troseddau o ymosod cyffredin a churo yn erbyn gweithwyr brys” wrth eu gwaith.³²⁰ Er mai'r ddedfryd uchaf ar gyfer ymosodiad cyffredin yw chwe mis, mae'n ddwy flynedd ar gyfer AEW. Cafodd y ddedfryd uchafswm am AEW ei chynyddu o flwyddyn i ddwy flynedd ym Mehefin 2022 er mwyn amddiffyn gweithwyr brys yn well.

Drwy ei sesiynau bwrdd crwn, clywodd yr Adolygiad bryderon am effaith anghymesur y ddeddfwriaeth yma ar unigolion bregus a hefyd ar gapasiti carchardai. Yn ôl tystiolaeth rhanddeiliaid, mae digwyddiadau AEW yn aml yn ymwneud â merched niwroamrywiol, sydd wedi dioddef trais domestig neu gyda chyflyrau iechyd meddwl. Dywedodd staff Canolfan Merched fod merched yn aml yn cael eu cyhuddo o AEW ar ôl i'r heddlu gael eu galw i wneud archwiliad lles arnynt oherwydd gellir dod â chyhuddiad o AEW am weiddi'n fygythiol os yw'r gweithiwr brys yn credu eu bod ar fin cael niwed. Gwnaed yr asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gyfer dyblu'r gosb uchafswm am AEW er bod y data'n brin ac felly nid yw'r asesiad, yn benodol, wedi asesu cyflyrau iechyd meddwl sy'n anablu³²¹

Yn ôl staff mewn Hostel Prawf, mae merched sydd wedi goroesi cam-drin domestig yn aml yn cael eu cyhuddo o'r drosedd hon pan elwir heddlu allan i'r digwyddiad. Mae merched yn aml yn cael eu hatal yn gorfforol gan blismyn sy'n ysgogi ymateb trawma a gwaethygu'r sefyllfa ymhellach. Nid yw ymarferwyr yn gweld hanesion parhaus o gam-drin domestig fel continwmm ond yn hytrach fel digwyddiadau unigol sy'n ystyried bod merch yn ymddwyn yn frawychus. Dywedodd staff hefyd fod euogfarn yn creu problemau ar ôl rhyddhau gyda llawer o wasanaethau tai'n gyndyn o gefnogi troseddau benywaidd gan eu gweld fel risg i staff. Mae hyn yn arbennig o bryderus gyda goroeswyr cam-drin domestig.

Y drosedd o drais yn erbyn y person a welodd y cynnydd mwyaf yn nifer yr erlyniadau o ferched ers 2019 (28%, o 7,100 i 9,000), a hynny'n bennaf oherwydd y drosedd AEW.³²² Mae AEW bellach yn cyfrif am 52% o'r 9,000 o erlyniadau o ferched am drais yn erbyn y person, o'i gymharu â 22% o'r 47,000 o erlyniadau o ddynion.³²³ AEW oedd yr ail drosedd dditiadwy fwyaf cyffredin gan ferched ar ôl dwyn o siopau.³²⁴

Er ei bod yn annerbyniol ymosod ar unrhyw weithiwr brys wrth eu gwaith, nid oes tystiolaeth bod y ddeddfwriaeth AEW wedi cael unrhyw effaith atal. Roedd *Transform Justice* yn cydnabod y gall ymosod ar weithwyr brys achosi niwed a chael effaith barhaol ar forâl, absenoldeb a chadw staff a bod galw am sancsiynau mwy llym yn anfon neges bod ymosod ar weithwyr brys yn cael ei gymryd o ddifrif.³²⁵ Fodd bynnag, maen nhw hefyd yn dadlau nad oes tystiolaeth bod sancsiynau troseddol yn atal ymosod ar weithwyr brys gan ofyn onid oes ffyrdd gwell o ddelio â'r niwed a achosir.³²⁶

Hefyd, mae'r Adolygiad yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddi staff y GIG a'r heddlu i adnabod unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl neu sy'n niwroamrywiol. Dylai'r hyfforddiant ganolbwyntio ar arferion 'deall trawma' a thechnegau tawelu sefyllfa, yn enwedig wrth ddelio ag unigolion bregus. Mae'r Adolygiad yn awgrymu edrych ar hyfforddiant Oliver McGowan ar anableddau dysgu ac awtistiaeth, sy'n orfodol ar gyfer staff y GIG, fel enghraifft o arfer gorau.³²⁷

Mae angen tystiolaeth ddibynadwy ar y Llywodraeth i ddeall effaith a chanlyniadau'r ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys pa mor effeithiol yw hi o ran atal a lleihau troseddu. Bydd y dystiolaeth yma'n arbennig o berthnasol o gofio bod trosedd newydd ar wahân o ymosod ar weithwyr manwerthu wedi'i chyflwyno ym Mil Troseddau a Phlisma 2025.³²⁸ Yn dilyn yr astudiaeth yma, dylid mynd ati i chwilio am unrhyw fylchau yn y gwasanaethau i unigolion bregus a allai gael eu dal o dan y drosedd hon ac unrhyw fylchau mewn hyfforddiant i weithwyr brys.

Mae'r Adolygiad yn gobeithio, drwy'r argymhellion i ddefnyddio llai o ddedfrydau byr o garchar ym Mhennod Tri, y bydd dedfrydau cyfran sylweddol o ferched a gyhuddir o AEW yn cael eu gohirio'n ddiofyn gyda dedfrydau yn y gymuned yn cael eu rhoi yn eu lle.

Ystyriaethau pellach ar gyfer merched sy'n troseddu

Mae'r Adolygiad yn cydnabod bod angen i ddedfrydwyr deilwrio dedfrydau, yn enwedig os yw merched wedi profi cam-drin domestig.

Er mai mater i'r farnwriaeth annibynnol yw hyfforddiant barnwrol, mae'r Adolygiad yn credu bod hyfforddiant cynhwysfawr yn bwysig i helpu barnwyr i ddeall pam fod rhai merched bregus yn troseddu, gan gynnwys cydnabod effaith cam-drin domestig a rheoli drwy orfodaeth. Dylid hefyd cymryd camau i wella dealltwriaeth y farnwriaeth o opsiynau di-garchar a gwasanaethau cymorth ar gyfer merched sy'n troseddu.

Dywedodd y trydydd sector a sefydliadau rheng flaen hefyd wrth yr Adolygiad y dylid gwneud dedfrydwyr a gweithwyr cyfiawnder yn fwy ymwybodol o'r heriau neilltuol a wynebwr gan ferched o gael eu tagio ar gyfer monitro electronig. Yn ôl *We Level Up*, mae "tagio'n atgyfnerthu'r profiad o ymddygiad rheolgar a gorfodol" i ferched, a allai hefyd fod wedi cael eu cam-drin neu fasnachu. Yn ôl rhai a fynychodd y sesiynau bwrdd crwn, gall cyfyngiadau lleoliad ar dagiau hefyd gyfyngu merched i ardaloedd sy'n agos i bartner camdriniol. Roedd un wedi dod ar draws achos o droseddwr benywaidd yn gwisgo tag electronig wedi cael ei galw'n ôl i garchar am ddianc oddi wrth ymosodwr. Cyfeiriodd gyrff trydydd sector a staff mewn Canolfan Merched a Hostel Brawf hefyd at faterion ymarferol gyda gweinyddu tagiau sy'n effeithio'n neilltuol ar ferched, fel nôl y plant o'r ysgol neu ddod o hyd i waith.

Mae tystiolaeth a dderbyniodd yr Adolygiad o blaid mesurau i wella Adroddiadau Cyn-Dedfrydu (PSR), er mwyn ymateb i fylchau yn ansawdd yr asesiadau. Dylid rhoi hyfforddiant i awduron adroddiadau ar gam-drin domestig, rheoli drwy orfodaeth a mathau eraill o Drais yn Erbyn Merched a Genethod.³²⁹ Rhaid i adroddiadau PSR ystyried goblygiadau gwahanol ddedfrydau fel anghenion beichiogrwydd a bod yn fam newydd, yn ogystal ag unrhyw ddibynyddion.

“Cefais fy arestio heb gyfieithydd, yn methu siarad na deall Saesneg, a chafodd cyfreithiwr dyletswydd ei ddynodi i fi na allwn gyfathrebu â fo. Wnes i erioed dderbyn adroddiad cyn-dedfrydu ac felly ni allai'r llys ystyried fy nghefnidir a pha mor fregus oeddwn i fel merch wedi fy masnachu ac fel unig ofalwr plentyn pump oed” [cyn-droseddwr wedi'i chefnogi gan Ganolfan Merched].

Er bod amddiffyniadau statudol y tu allan i sgôp yr Adolygiad, mae grwpiau dioddefwyr yn aml o blaid sefydlu amddiffyniadau statudol (er enghraifft hunanamddiffyniad) i ddioddefwyr cam-drin domestig, gan gynnwys lle'r oedd rheoli drwy orfodaeth yn ffactor yn eu troseddu. Mae papur polisi diweddar gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig wedi argymhell bod y Llywodraeth yn deddfu i wneud hunan-amddiffyniad yn fwy hygyrch i ddioddefwyr cam-drin domestig ac fel amddiffyniad os ydynt yn cael eu rheoli drwy orfodaeth i droseddu.³³⁰ Bydd Adolygiad Lladidiadau Comisiwn y Gyfraith yn ymchwilio i'r gyfraith ar laddiadau, gan gynnwys amddiffyniadau.³³¹ Mae'r Adolygiad yn annog y Llywodraeth i ystyried a allai amddiffyniad statudol helpu i atal dioddefwyr rhag cael eu troseddoli'n ddiangen.

Troseddwy'r Hyn

Mae troseddwy'r hyn yn rhan fawr a chynyddol o'r boblogaeth garchardai.³³² Ar ddiwedd Mawrth 2025, roedd 18% o'r boblogaeth garchardai'n 50+ oed (15,849 o bobl) a'r cohort dros 70 oed yn 2% (2,041 o bobl).³³³ Er nad yw'r grŵp hwn yn unffurf, maen nhw'n rhannu nodweddion a heriau allweddol, yn enwedig yn achos y boblogaeth dros 70 oed. Gall rhoi sylw i'r pethau hyn helpu'r Gwasanaeth Carchardai i weithredu mor effeithiol a chynaliadwy â phosib.

ARGYMHELLIAD 6.6: Gwneud mwy o ddefnydd o Ryddhau'n Gynnar ar Seiliau Tosturiol ar gyfer troseddwy'r hyn addas

Ar y cyfan mae gan garcharorion 70+ oed anghenion iechyd gwaeth (e.e. problemau cardiofasgwlaidd neu glefyd cronig yr arennau), yn ogystal ag anghenion iechyd meddwl aciwt (fel dementia ac iselder).³³⁴ Mae gan garcharorion 50+ oed hefyd fwy o anghenion iechyd na'r boblogaeth garchardai ehangach. Er bod angen mwy o ddata ar y cohort hwn, yn ôl arolwg gan *Clinks* a *Recoop* o 110 o garcharorion hyn, roedd gan 61% broblemau iechyd corfforol.³³⁵

Oherwydd yr amgylchiadau meddygol cymhleth hyn, gall troseddwy'r hyn wynebu rhwystrau i ddefnyddio amgylchedd ffisegol y carchar fel diffyg cell wedi'i haddasu, mynediad at gadair olwyn ac amser aros hir am gymhorthion symudedd.³³⁶ Gall troseddwy'r hyn hefyd brofi oedi gyda derbyn gofal iechyd a chymdeithasol, diffyg gwaith ymyrryd penodol ac wynebu risg uwch o fwlio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.³³⁷

Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, dywedodd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf fod llawer o'u hadroddiadau'n nodi nad yw carchardai'n addas i ddelio ag anghenion cymhleth ac felly nad yw troseddwy'r yn derbyn yr un gofal ag y byddent yn y gymuned.³³⁸ Gall rheoli'r cyflyrau hyn a gofal diwedd bywyd fod yn weithredol anodd oherwydd diffyg hyfforddiant ac adnoddau gan swyddogion carchardai.³³⁹ Yn ôl *Recoop*, elusen yn cefnogi troseddwy'r hyn, mae darparu triniaeth arbenigol i droseddwy'r hyn (fel dialysis sy'n golygu hebrwng y troseddwr yn ddyddiol) yn anodd gyda'r seilwaith carchardai presennol ac yn rhoi straen sylweddol ar adsefydlu troseddwy'r eraill. Rhaid i rai carchardai ddibynnu ar garcharorion cefnogol neu gyfeillion am gymorth er bod cysondeb hyfforddiant y cynlluniau hyn yn aneglur.³⁴⁰

Er bod cyfraddau aildroseddu troseddwy'r hyn yn is (17.2% ar gyfer troseddwy'r 50+ oed) na'r

holl grwpiau eraill (27.5%),³⁴¹ mae cyfraddau rhyddhau tosturiol yn hanesyddol isel. Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, pwysleisiodd JUSTICE er nad yw rhyddhau'n gynnar ar seiliau tosturi wedi'i ddylunio'n benodol ar gyfer troseddwy'r hyn, bod y fframwaith polisi presennol yn arbennig o gul ac nad yw rhyddhau tosturiol felly ar gael i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth garchardai, hyd yn oed mewn achosion eithafol lle y mae angen hosbis.³⁴² Gellid gwella'r broses rhyddhau tosturiol, gan gynnwys drwy brosesu ceisiadau'n amserol ac effeithlon,³⁴³ gyda mwy o eglurder ar ddechongli a sut i gymhwyso'r polisi rhyddhau tosturiol yn dilyn dyfarniad diweddar y Llys Apêl.³⁴⁴

Mae'r Adolygiad yn argymhell gwneud mwy o waith ar ryddhau tosturiol i gyflymu'r broses benderfynu a chynyddu ceisiadau. Mae hyn yn cynnwys adnabod sut i wneud y fframwaith polisi'n gliriach a sefydlu astudiaethau achos lle y gallai rhyddhau tosturiol fod yn briodol. Mae hefyd angen bod yn fwy atebol am amseriad ceisiadau, yn enwedig rhai sensitif o ran amser.

Mae'r Adolygiad hefyd yn argymhell mwy o eglurder ar sut y mae risg yn cael ei asesu a phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar ryddhau tosturiol, er enghraifft drwy greu proses amlddisgyblaeth gydag aseswyr risg hyfforddedig. Er mwyn cynorthwyo i ryddhau mwy o droseddwy'r hyn priodol ar seiliau tosturiol, mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn adolygu'r trothwy risg a sgôp y polisi i wneud mwy o droseddwy'r hyn yn gymwys. Gallai hyn gynnwys ehangu'r sgôp i gynnwys cyflyrau iechyd eraill neu gynnwys troseddwy'r "oedrannus ac eiddil". Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, cynigiodd JUSTICE ehangu'r polisi i droseddwy'r hyn 1) sy'n nesáu at ddiwedd eu bywydau, 2) sydd angen gofal hosbis oherwydd eu hoed, neu 3) sy'n fregus ac yn cyflwyno fawr ddim risg i ddiogelwch y cyhoedd.³⁴⁵

ARGYMHELLIAD 6.7: Cytuno ar strategaeth i reoli anghenion iechyd cymhleth troseddwy'r hyn

Yn ôl adroddiad 2020 y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder, mae sut y mae troseddwy'r hyn yn cael eu trin yn hynod anghyson ar draws yr ystâd garchardai, gan alw am strategaeth yn cwmpasu i) darparu llety addas i droseddwy'r hyn, 2) gofal iechyd a chymdeithasol yn yr ystâd garchardai, a 3) rhyddhau carcharorion hyn gan gynnwys parhad unrhyw driniaeth feddygol neu ofal yn y gymuned.³⁴⁶

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder a HMPPS yn cyhoeddi strategaeth genedlaethol ar gyfer troseddwy'r hyn, gyda chymorth partneriaid sy'n rhan o ddarparu gofal i droseddwy'r hyn fel yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

Byddai strategaeth genedlaethol yn sefydlu dull mwy hirdymor o reoli anghenion iechyd cymhleth carcharorion hyn ac effaith hynny ar droseddwy'r, teuluoedd a staff.

Troseddwy'r o Dramor

Roedd tua 10,800 o Droseddwy'r sy'n Wladolion Tramor (FNO) dan glo gan HMPPS ar 31 Mawrth 2025, tua 12% o'r holl boblogaeth garchardai.³⁴⁷ Mae HMPPS yn atgyfeirio pob FNO a ddedfrydir i garchar at y Swyddfa Gartref i ystyried allgludo.³⁴⁸ Gallai'r llys hefyd fod wedi argymhell allgludo'r FNO yn barod.³⁴⁹ Fodd bynnag nid yw pob troseddwr tramor o fewn sgôp i'w hallgludo'n syth.

Mae tua 35% o wladolion tramor oedd yn y carchar ar 31 Mawrth 2025 ar remand,³⁵⁰ neu heb eu dedfrydu (neu ryddfarnu) eto. Mae achosion allgludo hefyd yn cael eu hapelio weithiau os oes gan yr FNO gysylltiadau teuluol â'r DU neu wedi byw yn y DU ers tro byd, o dan Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol³⁵¹ a Deddf Hawliau Dynol 1998, ond mae datblygiadau mewn cyfraith gartref wedi ceisio "culhau" disgresiwn y farnwriaeth i benderfynu'r apeliadau hyn.³⁵² Yn ddiweddar adroddwyd bod y Swyddfa Gartref yn adolygu sut y mae'r hawl i fywyd teuluol o dan Erthygl 8 yn cael ei chymhwyso mewn achosion mewnffudo.³⁵³

Mae'r Adolygiad wedi ystyried a fyddai modd symud rhai troseddwy'r o'r wlad yn gynt i leihau'r pwysau ar gapasiti carchardai a sicrhau bod troseddwy'r yn cael eu cosbi am droseddau a gyflawnwyd yn y DU.

ARGYMHELLIAD 6.8: Hwyluso symud Troseddwy'r o Dramor o'r wlad yn gynt

Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Gartref yn asesu'r achos i allgludo FNO o dan ddwy Ddeddf Seneddol, yn unol â dadleuol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Y gyntaf yw Deddf Ffiniau 2007 sy'n gofyn bod yn rhaid gwneud gorchymyn allgludo os cafwyd FNO yn euog o drosedd gan dderbyn dedfryd o 12 mis neu fwy o garchar. Yr ail yw Deddf Mewnfudo 1971 sy'n disgrifio ym mha amgylchiadau y dylid ystyried allgludo troseddwy'r FNO a dderbyniodd ddedfrydau llai o garchar, fel rhai a dderbyniodd ddedfryd o lai na 12 mis o garchar ond a achosodd niwed difrifol, sy'n droseddwy'r parhaus neu sy'n cyflwyno bygythiad i ddiogelwch gwladol.³⁵⁴ Mae allgludo, ynddo'i hun, yn gosb sylweddol ac mae'n beth da allgludo troseddwy'r tramor cyn gynted â phosib yn eu dedfryd er mwyn diogelu'r cyhoedd, lleihau'r pwysau ar gapasiti carchardai ac ar y gost gysylltiedig i'r trethdalwr.

Ar ôl sicrhau gorchymyn allgludo, mae'r FNO yn cael eu symud o'r wlad cyn eu dyddiad rhyddhau amodol. Mae gan y DU dros 110 o Gytundebau Trosglwyddo Carcharorion (PTA) gyda gwledydd eraill.³⁵⁵ O dan y rhain, gellir allgludo carcharorion gyda dedfrydau hirach ar unrhyw bwynt yn eu dedfryd o garchar i dreulio'r gweddill mewn carchar yn eu gwlad eu hunain.³⁵⁶ Mae rhai trosglwyddiadau'n orfodol ond, gyda rhai, rhaid cael caniatâd y carcharor.³⁵⁷

Y prif gyfrwng ar gyfer allgludo troseddwy'r FNO yn y carchar cyn eu dyddiad rhyddhau amodol yw'r Cynllun Allgludo Cynnar (ERS). O'r 3,594 o droseddwy'r tramor a allgludwyd rhwng 5 Gorffennaf 2024 a 22 Mawrth 2025, roedd 1,848 drwy'r ERS.³⁵⁸ Mae dau faen prawf o dan y cynllun presennol sy'n helpu i benderfynu beth fydd dyddiad allgludo'r FNO: 1) Rhaid i droseddwy'r FNO dreulio 50% o ran carchar eu dedfryd cyn bod yn gymwys ar gyfer allgludo, a 2) mae'n bosib allgludo troseddwy'r FNO gyda dedfrydau penodol hyd at 18 mis cyn diwedd rhan carchar eu dedfryd. Mae hyn hefyd yn golygu, o dan y mesurau brys a gyflwynwyd yn 2024 a benderfynodd bod angen i rai troseddwy'r dreulio o leiaf 40% o'u dedfryd yn y carchar, ar gyfer troseddwy'r FNO ar ddedfrydau penodol safonol, byddai'r amser lleiaf yn y carchar yn 20% o'r ddedfryd gyfan.

Ar ôl allgludo, nid yw troseddwy'r FNO a symudir o'r wlad o dan ERS yn wynebu mwy o garchar ar ôl cyrraedd eu gwlad eu hunain.³⁵⁹ Mae dedfryd o garchar y troseddwy'r hyn felly'n cael ei threulio'n llwyr yn y DU ac allgludo wedyn yw'r brif gosb am eu trosedd.³⁶⁰ Fodd bynnag, gallai troseddwy'r FNO dal gael eu carcharu o dan eu dedfryd wreiddiol os ydynt yn dychwelyd i'r DU o dan ddarpariaeth "stopio'r cloc" Deddf Cenedligrwydd a Ffiniau 2022.³⁶¹

Yn ystod un o ymweliadau'r Adolygiad â charchar merched, disgrifiodd staff eu profiadau o reoli troseddwy'r FNO. Yn y carchar hwnnw, roedd 60% o'r boblogaeth yn droseddwy'r ar remand a 20% o'r rhai ar remand yn droseddwy'r tramor. Roedd y rhan fwyaf o'r troseddwy'r FNO wedi cyrraedd y DU o wledydd fel Canada, Brasil a Cholumbia ac wedi derbyn dedfrydau o tua 5 mlynedd o garchar am werthu cyffuriau Dosbarth A. Yn ôl staff, roeddent yn derbyn bod angen cosbi'r merched am droseddau mor ddifrifol yn y DU ond yn aml iawn roedd y merched hyn wedi cael eu masnachu a'u cam-drin yn eu gwlad eu hunain. Yn ôl staff, ar ôl eu hallgludo, fel arfer nid oeddent yn treulio mwy o amser yn y carchar ond yn cael eu cam-drin drachefn. Roedd y drafodaeth yma gyda staff y carchar yn dangos yn glir i'r Adolygiad bod angen cydbwysu nifer o ffactorau wrth lunio polisi ar allgludo troseddwy'r FNO – hynny yw bod angen lleihau'r pwysau ar gapasiti carchardai ond rhaid hefyd cosbi'n ddigonol. Gallai'r merched hyn hefyd wynebu risg o ail-fictimeiddio ar ôl allgludo.

Mae'n werth nodi bod adran 45 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn cynnwys amddiffyniad statudol ar gyfer unigolion sy'n cael eu gorfodi neu gymell i droseddu fel dioddefwyr caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, a allai effeithio ar eu barnu'n euog a'u hallgludo. Ond yn ôl y dystiolaeth nid yw dioddefwyr, yn enwedig merched sy'n troseddu, yn cael eu hadnabod yn amserol gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron.³⁶²

O gofio'r pwysau sylweddol sydd ar y boblogaeth garchardai, mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn ystyried dod â'r pwynt allgludo o dan ERS ymlaen o 50% i 30% o'r cyfnod carcharu ac ehangu'r ffenestr allgludo i fwy na 18 mis, er mwyn cyflymu'r broses o symud troseddwy'r FNO allan o'r system garchardai. Dylai unrhyw newidiadau ystyried faint o amser sydd ei angen ar y Swyddfa Gartref i allgludo troseddwy'r FNO – ar hyn o bryd rhwng 3 a 6 mis.

Ar gyfer troseddwy'r FNO y byddai eu hamser yn y carchar mor fyr fel y byddai allgludo'n unig yn ddigon o gosb, dylai'r Llywodraeth eu hallgludo cyn gynted ag y bo'n weithredol bosib. Ym marn yr Adolygiad, byddai troseddwy'r FNO a ddedfrydwyd i dair blynedd neu lai o garchar, gan dreulio cyfwerth â dedfryd fer o garchar, yn disgyn i'r categori hwn. Fel y gallai hyn ddigwydd, dylai'r Llywodraeth ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r trefniadau dedfrydu neu ryddhau. Dylid ystyried newidiadau i'r gyfraith allgludo yn sgîl hynny i sicrhau nad oes unrhyw fwch yn y pwerau a fyddai'n dod allan o argymhellion yr Adolygiad i symud troseddwy'r FNO cymwys allan o'r wlad yn ddiymdroid. Dylai'r Llywodraeth hefyd adnabod mesurau i gryfhau'r broses atgyfeirio a ddefnyddir gan asiantaethau cyfiawnder troseddol i roi gwybod i swyddogion mewnfudo am droseddwy'r FNO gyda dedfrydau yn y gymuned, er mwyn eu hallgludo cyn gynted â phosib.

Ymyriadau fferyllol ar gyfer troseddwy'r

Roedd troseddau rhywiol yn cyfrif am 21% o'r oedolion gyda dedfrydau carcharu'n syth ar ddiwedd Mawrth 2025.³⁶³ Mae'r Adolygiad wedi ystyried a ellid defnyddio opsiynau fferyllol sy'n llethu libido – a elwir yn gyffredin yn "llethu cemegol" – neu opsiynau sy'n lleihau meddyliau rhywiol, i ddarparu triniaethau targed ar gyfer troseddwy'r rhyw penodol.

Mae'r Adolygiad hefyd wedi ystyried sut y gallai meddyginiaethau newydd drin ffactorau risg trosedd-achosol a brofir gan lawer o droseddwy'r, fel caethiwed i gyffuriau neu alcohol.

Mae'r Adolygiad yn cydnabod y dylid ond defnyddio ymyriadau clinigol i drin nodweddion sy'n ysgogi troseddau law yn llaw â thriniaeth adsefydlu ehangach, ymyriadau seico-gymdeithasol a rheolaeth risg safonol. Mae'r Adolygiad yn credu bod casglu tystiolaeth gadarn yn hanfodol i ddeall y manteision a'r risgiau o wreiddio ymyriadau fferyllol mewn triniaethau ar gyfer troseddau.

ARGYMHELLIAD 6.9: Casglu corff o dystiolaeth ar ddefnyddio llethu cemegol ar gyfer troseddau rhyw ac ystyried opsiynau ar gyfer parhau i ariannu gwasanaethau yn y maes hwn

Mae nifer o ffactorau risg deinamig yn gysylltiedig â bod yn fwy tebygol o gyflawni troseddau rhywiol, gan gynnwys diddordebau rhywiol anarferol, problemau hunan-reoli, agweddau gwrthgymdeithasol a phroblemau perthynas.³⁶⁴ Mae rhaglenni i drin a rhoi sylw i'r ffactorau hyn yn cynnwys rhaglenni achrededig, adnoddau seiliedig ar waith, a grwpiau cymorth atebolrwydd.³⁶⁵ Fel arfer mae'r ymyriadau hyn yn rhan o raglen adsefydlu ehangach i droseddau rhyw ar ôl eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned, ynghyd â llety, gweithgareddau pwrpasol a rheolaeth ehangach o risg.³⁶⁶

Mae gorfeddwl rhywiol hefyd wedi'i adnabod fel ffactor risg allweddol ar gyfer troseddau rhywiol.³⁶⁷ Gellir lleihau cyffro a gorfeddwl rhywiol gyda thriniaethau llethu cemegol a meddyginiaethau eraill, a gellir eu rhagnodi ar gyfer unigolion a gyflawnodd drosedd mewn amgylchiadau penodol.³⁶⁸ Mae meddyginiaethau gwrth-androgen yn gyffuriau hormonaidd sy'n llethu testosteron a gellir eu rhagnodi i leihau libido. Neu gellir hefyd defnyddio cyffuriau di-hormonaidd fel atalyddion SSRI i leihau gorfeddwl rhywiol problematig, gan leihau meddyliau rhywiol diollwng.

Mae peth tystiolaeth i awgrymu bod gan feddyginiaethau gwrth-androgen ac atalyddion SSRI botensial i leihau gor-rywioldeb mewn rhai unigolion mewn amgylchiadau penodol.³⁶⁹ Yr enw ar y gwasanaeth sy'n darparu'r driniaeth yma yw rheolaeth glinigol o gyffro rhywiol (CMSA).

Mae'r Adolygiad yn cydnabod bod troseddau rhywiol, gan gynnwys treisio, wedi eu gyrru gan gymhellion fel pŵer ac ymddygiad rheolgar ac ymosodol, yn hytrach na gorfeddwl rhywiol. Mewn llawer o'r achosion hyn, ni fydd llethu cemegol yn driniaeth berthnasol na hyfyw. Dim ond arbenigwyr meddygol sy'n gallu rhagnodi'r meddyginiaethau hyn,³⁷⁰ fydd ond yn effeithiol o'u defnyddio ar y cyd ag ymyriadau seico-gymdeithasol a rheoli risg eraill.

Nid yw'r meddyginiaethau hyn yn cael eu defnyddio'n eang mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr ac nid oes llwybr unfurf ar gyfer eu darparu yn y gymuned. Ar hyn o bryd maen nhw ar gael mewn carchardai drwy'r Llwybr Anhwylderau Personoliaeth Troseddau, rhaglen genedlaethol wedi'i chyd-gomisiynu gan y GIG a HMPPS i ddarparu gwasanaethau 'deall seicoleg' i droseddau ag anghenion cymhleth ac sy'n debygol o fodloni'r diagnosis o "anhwylder personoliaeth".³⁷¹ Peilotwyd y rhaglen gyntaf yn y DU yn HMP Whatton yn 2007 cyn ei chyflwyno i chwe charchar arall yn 2016.³⁷² Yn 2022 ehangwyd gwasanaethau CMSA i bum carchar yn ne-orllewin Lloegr drwy raglen beilot. Roedd darpariaeth gymunedol y peilot hwn yn cynnwys pontio rhwng y carchar a'r gymuned, yn ogystal â galluogi parhad gofal.³⁷³ Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau i barhau i ariannu peilot y De-Orllewin ar ôl 2026.³⁷⁴ Ar hyn o bryd nid yw'r GIG yn comisiynu gwasanaethau i reoli cyffro rhywiol problematig, sy'n cynnwys gofal seiciatrig a rhagnodi meddyginiaeth fel rhan o'r cynllun gofal.³⁷⁵

Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn parhau i ariannu peilot y De-Orllewin ar ôl 2026 a llwybrau yn y carchardai lle y mae'r gwasanaeth hwn ar gael eisoes. Gallai safoni darparu'r gwasanaethau hyn a pharhad gofal gynorthwyo i reoli troseddau rhyw addas yn y

carchar ac yn y gymuned. Gallai dysgu o'r peilot hefyd oleuo cynlluniau i ehangu gwasanaethau yn y dyfodol os penderfynir bod hynny'n ddefnyddiol i reoli rhai troseddwy rhyw fel rhan o raglen ehangach. Mae'r Adolygiad yn cydnabod na ddylid byth defnyddio'r meddyginiaethau hyn fel dull rheoli risg neu opsiwn adsefydlu ar ei ben ei hun a'u bod ond yn briodol ar gyfer nifer gyfyngedig o droseddwy rhyw.

Wrth ddatblygu tystiolaeth ar gyfer defnyddio llethu cemegol, mae'r Adolygiad hefyd yn argymhell bod y Llywodraeth yn gwneud mwy o ymchwil i'r defnydd rhyngwladol o lethu cemegol ar gyfer rheoli troseddwy. Mae llethu cemegol wedi cael ei ddefnyddio ar draws Ewrop, gan gynnwys yn yr Almaen, Denmarc a Gwlad Pŵyl, mewn gwahanol ffyrdd.³⁷⁶ Yn yr Almaen a Denmarc, defnyddiwyd llethu cemegol yn wirfoddol yn unig.³⁷⁷ Ar y llaw arall, mae Gwlad Pŵyl yn y gorffennol wedi cyflwyno llethu cemegol gorfodol i rai troseddwy.³⁷⁸ Bydd deall sut y mae gwledydd eraill yn delio â goblygiadau moesegol ac ymarferol defnyddio llethu cemegol i drin troseddwy yn hynod bwysig oherwydd mae sicrhau caniatâd dilys a gwybodus i ddarparu triniaeth yn un o gonglfeini moeseg a chyfraith feddygol yng Nghymru a Lloegr.

Cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gyflwyno mwy o wasanaethau llethu cemegol ar draws Cymru a Lloegr, rhaid peilota gwasanaethau ar raddfa fach gyda chynhyrchu gwerthusiadau. Bydd angen meddwl am wahanol ystyriaethau fel sgîl-ffeithiau a'r goblygiadau posib i ddioddefwyr.

ARGYMHELLIAD 6.10 Parhau i fonitro meddyginiaethau newydd i drin caethiwed i gyffuriau ac alcohol

Mae camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn cael eu hadnabod fel anghenion trosedd-achosol sy'n gysylltiedig ag aildroseddu.³⁷⁹ Tynnodd Adolygiad Cyffuriau'r Fonesig Carol Black sylw at yr heriau i ddefnyddwyr gwasanaeth gyda dod o hyd i driniaeth addas, o ganlyniad i doriadau cyllid, diffyg capasiti yn y trydydd sector, diffyg arbenigedd ac opsiynau triniaeth prin.³⁸⁰ Mae unigolion gyda phroblemau sylweddau hefyd yn wynebu trafferthion sylweddol yn pontio o garchar i'r gymuned ar ôl eu rhyddhau,³⁸¹ gan awgrymu y dylai'r Llywodraeth efallai ailfeddwl am opsiynau triniaeth yn y gymuned. Mae'r Adolygiad felly'n argymhell bod y Llywodraeth yn monitro cyfleoedd clinigol arloesol i fynd i'r afael â ffactorau risg trosedd-achosol fel camddefnyddio sylweddau.

Ar hyn o bryd mae gan droseddwy gyda gofynion trin cyffuriau a / neu alcohol fynediad at unrhyw driniaeth a ystyrir i fod yn briodol gan glinigydd.³⁸² Mae peth ymchwil gynnar yn awgrymu y gallai semaglutide – sydd hefyd yn adnabyddus yn ôl ei enwau brand Ozempic a Wegovy – leihau effeithiau 'gwobrwyol' rhai sylweddau sy'n gwneud pobl yn gaeth iddynt.³⁸³ Ar hyn o bryd nid yw semaglutide wedi'i drwyddedu ar gyfer trin caethiwed sylweddau o ystyried natur gynnar yr ymchwil ac mae angen mwy o astudiaethau clinigol i weld pa mor effeithiol a diogel fyddai'r driniaeth yma.³⁸⁴ Mae'r Adolygiad yn argymhell bod y Llywodraeth yn parhau i fonitro potensial meddyginiaethau i drin caethiwed i gyffuriau ac alcohol, gan gynnwys semaglutide, drwy ymgynghori â'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Gallai defnyddio meddyginiaeth i drin caethiwed i sylweddau gryfhau'r driniaeth bresennol a gynigir i droseddwy sy'n gaeth i sylweddau drwy Ofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol, a rhoi sylw i'r rhesymau sydd wrth wraidd eu troseddu.

Pennod Saith: Rôl y Gwasanaeth Prawf

Mae'r Adolygiad yn cydnabod y straen sylweddol y mae'r Gwasanaeth Prawf o dano. Mae'r Alwad am Dystiolaeth wedi dangos yn glir bod cyfyngiadau cyllideb sylweddol, llwythi achosion trwm a dibynnu ar hen dechnoleg wedi gwasgu capasiti'r Gwasanaeth Prawf i reoli troseddwy a darparu cymorth adsefydlu wedi'i deilwrio. Fel i'r Arglwydd Ganghellor ei gydnabod yn ei haraith ar 12 Chwefror 2025, ar hyn o bryd mae swyddogion prawf "yn gyfrifol am lwythi achosion a llwythi gwaith sy'n fwy nag y disgwylir iddynt ymdopi â fo".³⁸⁵

Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod, drwy symud mwy o unigolion i ffwrdd o garchar ac i'r gymuned, y bydd ei argymhellion os byddant yn cael eu derbyn yn rhoi mwy fyth o bwysau ar y Gwasanaeth Prawf. O dan unrhyw senario, rhaid cael buddsoddiad cynaliadwy mwy hirdymor i'r Gwasanaeth Prawf a phartneriaid trydydd sector yn y gymuned.

Yn y tymor mwy taer, bydd angen i'r Gwasanaeth Prawf flaenoriaethu ei adnoddau a chanolbwyntio ei ymdrechion ar waith fydd yn cael yr effaith fwyaf o ran lleihau aildroseddu a rheoli risg o niwed. Mae peth blaenoriaethu wedi digwydd yn barod – yn Ebrill 2024, cyflwynodd HMPPS 'Ail-osod' a ddaeth â goruchwyliaeth i droseddwy i ben yn nhraean olaf eu dedfryd gymunedol neu amser ar drwydded a gohirio eu goruchwyliaeth ôl-ddedfryd (ar wahân i rai grwpiau risg uchel).³⁸⁶ Fel y disgrifiwn ym [Mhennod Pedwar](#), mae'r Adolygiad yn argymhell model "ennill cynnydd" gyda goruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf yn 1) canolbwyntio ar droseddwy sy'n dod allan o garchar, pan fo fwyaf angen monitro a chymorth arnynt i atal aildroseddu, ond hefyd 2) wedi'i ohirio am draean olaf y rhan fwyaf o ddedfrydau penodol safonol (SDS) – ar wahân i rai a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol neu dreisgar difrifol. Yn achos y rhain bydd goruchwyliaeth wedi'i gohirio am y 20% olaf. Mae'r Adolygiad hefyd yn cydnabod bod cwblhau gofynion dedfrydau'n gynnar yn hanfodol i sicrhau eu llwyddiant yn adsefydlu troseddwy, fel yr eglurwn ym [Mhennod Dau](#). Rhaid i'r Gwasanaeth Prawf hefyd flaenoriaethu adnoddau ar gyfer rhai sydd fwyaf eu hangen, gan gynnwys troseddwy risg uchel a rhai ag anghenion cymhleth fel troseddwy cyson.

Mae'r Adolygiad yn credu bod yn rhaid i flaenoriaethu adnoddau fynd law yn llaw â newid mwy sylfaenol yn y ffordd y mae Prawf yn gweithio, drwy achub ar bob cyfle i adeiladu perthynas â throseddwy i'w hadsefydlu, gan felly leihau aildroseddu a'r risg o niwed i ddioddefwyr. Yn eu hymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, mae Arolygiaeth Prawf EF (HMIP) yn nodi y "dylai perthnasoedd fod yn ganolog a chael blaenoriaeth ar brosesau" a bod tystiolaeth gref i awgrymu bod perthnasoedd positif yn fwy dylanwadol nag un dull neu dechneg benodol pan fo'n dod at ymatal a chefnu ar droseddu.³⁸⁷ Un o'r negeseuon cyson y clywodd *Revolving Doors* yn Ymchwiliad Prawf 2022, a holodd farn 141 o bobl gyda phrofiad byw, oedd bod perthnasoedd yn greiddiol bwysig i ymgysylltu'n gadarnhaol ac agored â'r Gwasanaeth Prawf.³⁸⁸

Gan hynny, rhaid i ymarferwyr gael eu grymuso i achub y blaen a defnyddio eu crebwyll a'u sgiliau proffesiynol wrth ddarparu dedfrydau a rheoli troseddwy yn y gymuned, yn lle dilyn prosesau gweinyddol beichus. Bydd argymhelliad yr Adolygiad i ddisodli'r Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu gyda Gofynion Prawf newydd ([mwy o fanylion ym Mhennod Dau](#)) yn helpu i hwyluso'r newid hwn gan roi'r hyblygrwydd i ymarferwyr gael penderfynu sut i ddarparu gorchmynion cymunedol yn y ffordd sy'n cwrdd orau ag anghenion y troseddwr unigol. I wneud y mwyaf o adnoddau prin y Gwasanaeth Prawf, rhaid i'r Llywodraeth hefyd ddefnyddio mwy ar y trydydd sector i gefnogi swyddogion prawf i reoli mwy o droseddwy yn y gymuned a helpu'r Gwasanaeth i fod mor effeithlon â phosib, gan wneud i ffwrdd ag unrhyw fiwrocratiaeth ddiangen a defnyddio technoleg newydd i fod yn fwy cynhyrchiol.

Mae'r bennod yma'n cyflwyno pecyn o argymhellion i gynorthwyo'r Gwasanaeth Prawf i adsefydlu troseddwyd yn fwy effeithiol, gan sicrhau mai hyn fydd eu prif ffocws.

ARGYMHELLIAD 7.1 Buddsoddi mwy yn y Gwasanaeth Prawf i gefnogi capasiti a gwydnwch

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn gweithredu dan straen aruthrol. Mae gan y Gwasanaeth lwythi achosion trwm ynghyd â lefelau staff isel, yn enwedig ar y raddfa Swyddog Prawf (PO) (swyddogion sy'n goruchwyllo troseddwyd ar brawf yn y categori risg ganolig i fyny). Yn ôl ystadegau gweithlu HMPPS ar gyfer Rhagfyr 2024 roedd y Gwasanaeth yn brin o 1,854 o swyddogion PO Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) o'i gymharu â'r lefel staffio darged.³⁸⁹

Er bod heriau penodol ar y raddfa PO, mae HMIP yn nodi yn ei adroddiad blynyddol yn 2024 bod y prinder hefyd yn effeithio ar swyddi eraill fel goruchwylwyr gwaith di-dâl a hwyluswyr rhaglenni gwaith grŵp.³⁹⁰ Mae prinder staff yn arwain at lwythi gwaith trwm sy'n gallu effeithio ar les staff. Mae HMIP yn nodi bod y prinder hefyd yn effeithio ar ansawdd y gwaith a wneir.³⁹¹ Mae'r Adolygiad hefyd wedi clywed gan nifer o ymarferwyr prawf, drwy'r Alwad am Dystiolaeth a thrwy ymgysylltu, am yr heriau a wynebier gan staff rheng flaen a'r pwysau aruthrol y maen nhw o danynt.

Mae'r Adolygiad yn croesawu'r mesurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gynyddu staffio.³⁹² Fodd bynnag, er mwyn i ddedfrydau cymunedol fod mor effeithiol ac ystyrlon â phosib – ac i sicrhau y gall y Gwasanaeth Prawf leihau aildroseddu a'r risg o niwed yn effeithiol – rhaid i'r Llywodraeth fuddsoddi'n hirdymor yn y Gwasanaeth Prawf i sicrhau digon o adnoddau, yn enwedig o gofio'r nifer gynyddol o droseddwyd fydd yn cael eu rheoli yn y gymuned ar ôl gweithredu argymhellion yr Adolygiad.

Defnyddio'r trydydd sector

Bydd recriwtio a hyfforddi'r staff Prawf ychwanegol sydd eu hangen i reoli'r nifer fwy o achosion yn y gymuned yn cymryd amser. Fodd bynnag, clywodd yr Adolygiad gan ystod eang o sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol (VCSE) am y lluo manteision y gall y trydydd sector eu darparu i droseddwyd ar brawf.

Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, dywedodd *Clinks* fod y trydydd sector yn darparu arbenigedd a sgiliau arbenigol, gan gynnwys profiad byw na all y Gwasanaeth Prawf ar ei ben ei hun eu darparu. Dywedodd yr elusen fod y sector gwirfoddol yn gallu bod yn fwy effeithiol na darparwyr statudol o ran creu perthnasoedd cadarnhaol gyda throseddwyd gan eu helpu i fagu hunanhyder, ymdeimlad o berthyn, gobaith ac amynedd - sydd i gyd yn cynorthwyo adsefydlu ac ymatal, gan felly leihau aildroseddu.³⁹³

Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth dywedodd *Catch22* fod cyrff trydydd sector hefyd yn gallu helpu i roi sylw i ffactorau all arwain at beidio â chydymffurfio, troseddu pellach a galw'n ôl i garchar – fel perthnasoedd gwael, problemau cyffuriau ac alcohol a dim llety – drwy atgyfeirio a darparu cymorth gan gyd-droseddwyd i annog ymgysylltu â'r gwasanaethau statudol.³⁹⁴ Yn y cyfamser, fel y mae [Pennod Chwec](#) yn ei egluro, gallai dull amlasiantaethol fel rheolaeth integredig o droseddwyd (IOM) fod yn fanteisiol i droseddwyd ag anghenion cymhleth ar ddedfrydau cymunedol, fel troseddwyd cyson. Gall IOM gynorthwyo i reoli troseddwyd yn effeithiol drwy gymorth 'cofleidiol', rhannu gwybodaeth yn well a chynlluniau amlasiantaethol ond, i hyn lwyddo, rhaid gweithio mewn partneriaeth gan gynnwys cymorth arbenigol gan elusennau.³⁹⁵

Mae llawer o sefydliadau VCSE eisoes yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf i ddarparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu drwy'r gwasanaeth Comisiynu Gwasanaethau Adsefydlu (CRS) - ond mae lle i ehangu hyn. Clywodd yr Adolygiad drwy ei Alwad am Dystiolaeth fod sefydliadau VCSE yn cael trafferthion wrth weithio yn y system gyfiawnder - gan gynnwys mynediad cyfyngedig at ddata a diffyg cyfleoedd ariannu. Dylai'r Llywodraeth felly ystyried sut i wneud mwy o ddefnydd o sefydliadau eraill, ac ar gyfer beth, i helpu i wella canlyniadau i unigolion a rheoli llwythi achosion cynyddol. Byddai hyn yn cynnwys cynorthwyo'r trydydd sector i gefnogi'r Gwasanaeth Prawf yn well drwy gynyddu cyllid, ehangu comisiynu lleol a gwella rhannu data, a hefyd drwy ehangu enghreifftiau o arferion da lleol.

ARGYMHELLIAD 7.2: Cynyddu'r cyllid ar gyfer y trydydd sector er mwyn cynorthwyo'r Gwasanaeth Prawf i reoli troseddwr yn y gymuned a chomisiynu mwy o sefydliadau lleol

I alluogi'r trydydd sector i gefnogi'r Gwasanaeth Prawf i reoli llwythi achosion cynyddol, rhaid i'r Llywodraeth sicrhau bod digon o gyllid ar gael i'r sector VCSE. Wrth ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth, dywedodd y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol (CJA) fod angen i'r Llywodraeth fuddsoddi'n strategol a rhoi mwy o gyllid i wasanaethau VCSE i'w helpu i gefnogi dedfrydau cymunedau.³⁹⁶ Yn eu hadroddiad *State of the Sector* (2024) – a fu'n holi barn 54 o unigolion o 50 o sefydliadau – dywedodd *Clinks* fod y sector yn wynebu amgylchedd ariannu cynyddol heriol gyda rhai sefydliadau'n dweud nad oes ganddynt ddigon o gyllid i wneud y gwaith y gofynnir iddynt ei wneud a'u bod yn cael trafferth recriwtio a chadw staff.³⁹⁷

Clywodd yr Adolygiad hefyd drwy ei Alwad am Dystiolaeth fod angen comisiynu mwy o bartneriaid darparu lleol. Ar hyn o bryd gall sefydliadau VCSE dderbyn cyllid i wneud gwaith adsefydlu ac ailsefydlu gyda throseddwr ar brawf drwy grantiau neu gontractau CRS. Mae contractau CRS yn cael eu rhoi ar lefel ranbarthol neu lefel Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC) drwy'r Fframwaith Deimig. Bwriad hyn oedd helpu i greu rôl gliriach gyda darparu Prawf ar gyfer darparwyr VCSE bach a lleol. Fodd bynnag, lleisiodd nifer o gyrff gwirfoddol bryderon pan lansiwyd y Fframwaith Deimig yn 2021 y byddai cymhlethdod y prosesau comisiynu a maint y contractau cychwynnol yn atal sefydliadau llai rhag derbyn cyllid.³⁹⁸ Er bod gan nifer o sefydliadau gontractau CRS cyfredol, dywedodd rai Unedau Darparu Prawf (PDU) wrth yr Adolygiad fod llawer o wasanaethau lleol rhagorol na fedrant weithio gyda nhw ar hyn o bryd oherwydd eu bod wedi eu clymu wrth gontractau gyda darparwyr cenedlaethol mwy.

Dywedodd ymarferwyr wrth yr Adolygiad fod gan sefydliadau lleol ddealltwriaeth dda iawn yn barod o'r ardal ac anghenion cleientiaid a bod atgyfeirio unigolion at ddarparwyr mwy'n gallu cynyddu'r gwaith gweinyddol i staff.³⁹⁹ Dywedodd Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf, sy'n cyd-gomisiynu gyda Gwasanaeth Prawf Manceinion Fwyaf, ei bod hefyd yn fanteisiol defnyddio gwasanaethau sy'n hysbys ac ymddiriedol i gymunedau.⁴⁰⁰ Mae'r Adolygiad yn credu bod yn rhaid i'r Llywodraeth ystyried sut i addasu prosesau comisiynu i roi pwysau priodol i fanteision darparwyr lleol arbenigol. Gallai hyn olygu mwy o gomisiynu pwrpasol ar lefel leol, a mwy o ddatganoli cyllidebau.

ARGYMHELLIAD 7.3: Defnyddio mwy ar y trydydd sector i gefnogi troseddwr ar ddedfrydau cymunedol ac ar drwydded, i helpu'r Gwasanaeth Prawf i flaenoriaethu adnoddau a gwella canlyniadau i droseddwr

Mae'r Adolygiad yn credu bod yn rhaid i'r Gwasanaeth Prawf barhau i dargedu adnoddau at droseddwr gyda'r risg fwyaf a rhai ag anghenion cymhleth – fel troseddwr cyson. Fodd bynnag, dylai'r Llywodraeth ystyried lle i ddefnyddio mwy ar y trydydd sector, i gynorthwyo'r blaenoriaethu hwn a gwella canlyniadau i'r troseddwr risg fwyaf hyn.

Cyfeiriodd sefydliadau VCSE a ymatebodd i'r Alwad am Dystiolaeth at amryw o gyfleoedd y gallai'r Gwasanaeth Prawf eu defnyddio i gydweithredu mwy gyda chyrrff trydydd sector i reoli troseddwyd lefel isel a throseddwyd cymhleth yn y gymuned. Mae'r Adolygiad hwn wedi clywed am nifer o enghreifftiau o arferion da lleol. Disgrifir rhai o'r rhain isod. Dylai'r Llywodraeth ystyried sut i ehangu'r math yma o waith ar lefel genedlaethol.

Ehangu'r defnydd o'r trydydd sector i gefnogi troseddwyd ar ddedfrydau cymunedol lefel isel a chanolig

Yn ôl ymarferwyr a holwyd gan yr Adolygiad, mae llawer o unigolion gyda risg a chymhlethdod isel ar Orchymyn Cymunedol (CO) ar hyn o bryd y gallai ymyrraeth y tu allan i'r Gwasanaeth Prawf efallai fod yn fwy addas ar eu cyfer – yn aml iawn mae angen cymorth lles ar yr unigolion hyn a allai gael ei ddarparu'n fwy effeithiol gan y trydydd sector, gyda'r Gwasanaeth Prawf yn parhau i gadw trosolwg.⁴⁰¹

Clywodd yr Adolygiad am gyrff trydydd sector yn darparu gwasanaethau asesu, atgyfeirio a chymorth effeithiol i droseddwyd lefel isel, yn eithaf tebyg i ddarpariaeth y Gwasanaeth Prawf ar gyfer rhai ar CO ar hyn o bryd, yn y cam cyn-lys ac ôl-lys. Er enghraifft, yn Llys Ynadon Highbury Corner, mae'r Ganolfan Arloesi Cyfiawnder yn rhedeg gwasanaeth Cyngor Cymunedol sy'n darparu cymorth ac atgyfeirio i rai sy'n cael dirwyon. Mae'r gwasanaeth, sy'n gweithredu o ddesg gymorth yn y llys, yn asesu anghenion unigolion cyn eu hatgyfeirio at un o'r 30 sefydliad lleol y mae ganddynt berthynas â nhw ac sy'n helpu gyda phethau fel tai, budd-daliadau, cyflogaeth, problemau cyffuriau / alcohol a thrais domestig. Yn ôl arolwg o ddefnyddwyr rhwng Ionawr 2015 ac Awst 2020, ar ôl chwe mis dywedodd ymatebwyr fod 38% o'r problemau yr oeddent angen cymorth gyda nhw wedi cael eu datrys, 32% arall wedi gwella a dywedodd 91% o ddefnyddwyr fod Cyngor Cymunedol wedi eu helpu gyda'u problemau.⁴⁰²

Fel y disgrifiwn ym Mhennod Dau, dylai troseddwyd risg isel fod ar orchymynion cymunedol isel neu ganolig. Er bod yr Adolygiad yn credu y dylai'r Gwasanaeth Prawf gadw trosolwg ar droseddwyd sydd ar orchymynion cymunedol i sicrhau bod y trefniadau iawn yn eu lle os torrir amodau gorchymyn, mae lle i atgyfeirio llawer mwy at bartneriaid VCSE a gomisiynir yn lleol ar gyfer asesiadau, cymorth a gofynion dedfrydau'r unigolion hyn. Mae hyn yn allweddol i gynorthwyo'r Gwasanaeth Prawf i dargedu ei adnoddau at ble y byddai'n fwyaf effeithiol a hefyd yn gyfle i gynyddu'n sylweddol yr amser personol a'r cymorth sydd ar gael i droseddwyd ar orchymynion cymunedol lefel isel, sy'n hollbwysig i leihau aildroseddu.

Er bod dedfrydau allan o lys, a dargyfeirio, y tu allan i sgôp Cylch Gorchwyl yr Adolygiad, yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad dylai'r Llywodraeth hefyd ystyried oni fyddai ymyrryd yn gynt, a hynny'n gyfangwbl y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol, ar faterion fel tai, cyffuriau / alcohol a chyflogaeth, yn fwy priodol ar gyfer troseddwyd risg isel. Byddai angen ymdrech traws-Llywodraeth ar gyfer hyn.

Mae Comisiynydd Heddlu, Tân a Throseddau Gogledd Swydd Efrog wedi comisiynu sefydliadau VCSE i ddarparu cynllun o'r enw 'Crossroads' yn y cam cyn-lys i ddargyfeirio oedolion sy'n troseddau am y tro cyntaf neu ar lefel isel o'r system cyfiawnder troseddol, i leihau aildroseddau. Mae'r cynllun yn darparu cymorth wedi'i deilwrio gyda gweithwyr allweddol yn gwneud yr asesiad cychwynnol o anghenion cyn darparu pecyn cymorth i ateb yr anghenion a allai gynnwys cwnsela, mentora a mesurau cydweithredol i fynd i'r afael â'r rhesymau sydd wrth wraidd eu troseddau.⁴⁰³ Mae *Revolving Doors* yn nodi bod y cynllun wedi gweithio'n dda i gwrdd ag anghenion.⁴⁰⁴ Rhwng Mai 2021 a Mawrth 2022, roedd 257 o atgyfeiriadau dargyfeirio llys: Llwyddodd 77% i gwblhau'r cynllun a chael eu dargyfeirio o'r system cyfiawnder troseddol, gyda 80% yn cael canlyniadau gwell.⁴⁰⁵

Ehangu'r defnydd o'r trydydd sector i gefnogi troseddau ar drwydded sydd ag anghenion cymhleth er mwyn lleihau galw'n ôl a gwella canlyniadau

Gallai'r modelau "ennill cynnydd" newydd a gynigir ym [Mhennod Pedwar](#) arwain at oruchwyliaeth ddwys ar gyfer mwy o droseddau cymhleth yn y gymuned, fel rhan o broses raddol, wedi'i theilwrio i gamu lawr o garchar. Gall sefydliadau VCSE hefyd gefnogi'r Gwasanaeth Prawf i sicrhau canlyniadau gwell i droseddau ar drwydded sydd ag anghenion mwy cymhleth a lefel uwch o droseddau drwy eu helpu i bontio o garchar i'r gymuned. Clywodd yr Adolygiad drwy'r Alwad am Dystiolaeth fod mentora dwysedd uchel, cymorth gan droseddau eraill a gweithwyr allweddol yn gallu helpu unigolion ag anghenion cymhleth ar ôl dod allan o garchar a helpu i bontio'r bwlch rhwng ymarferwyr prawf a throseddau ar brawf, er mwyn sicrhau canlyniadau adsefydlu gwell i droseddau.⁴⁰⁶

Er enghraifft yn ôl ymateb *Catch22* i'r Alwad am Dystiolaeth, mae eu peilot *Achieving Compliance and Engagement (ACE)* wedi gweithio'n dda i leihau galw dynion yn ôl i garchar am gyfnodau penodol yn Nwyrain Llundain oherwydd diffyg cydymffurfio ag amodau eu trwydded. Defnyddiodd y rhaglen "fentoriaid hwyluso" i gefnogi troseddau gyda risg uchel o alw'n ôl. Roedd gan y mentoriaid hyn lwythi achosion bach – tua 10-15 yr un – oedd yn cynorthwyo mentora ar lefel ddwys. Roedd y mentoriaid hyn yn asesu anghenion ar sail cryfderau, helpu i gyd-gynhyrchu cynlluniau gweithredu, cynnig eiriolaeth, cyfeirio ymlaen at wasanaethau eraill ac ymyriadau ffurfiol i helpu i gyfathrebu'n bositif, gosod amcanion a chreu rhwydweithiau cymorth effeithiol. Yn eu hymateb, dywedodd *Catch22* fod mentoriaid yn arbennig o dda am gynorthwyo'r ymarferwyr prawf i roi anghenion ac ymddygiad unigolion mewn cyd-destun ac ail-adeiladu perthnasoedd gwael.⁴⁰⁷

Clywodd yr Adolygiad hefyd gan *Turning Point*, sefydliad VCSE gofal iechyd a chymdeithasol, am y manteision o ddefnyddio eu gweithwyr allweddol i gefnogi unigolion gyda phroblemau cyffuriau / alcohol wrth iddynt bontio o'r carchar i'r gymuned. Efallai nad yw'r unigolion hyn yn ymwybodol neu'n gallu casglu meddyginiaethau perthnasol neu ymgysylltu â gwasanaethau adferiad hanfodol heb gymorth neu gael eu cyfeirio ymlaen. Mae eu gweithwyr allweddol felly'n cyfarfod y carcharorion cyn eu rhyddhau i ddechrau magu perthynas ac yna'n eu cyfarfod wrth y gât wrth ddod allan i gynnig cyfeirio ymlaen a chymorth emosiynol yn ogystal â chludiant.⁴⁰⁸

O ystyried y dystiolaeth o fanteision cymorth y trydydd sector, mae'r Adolygiad yn credu y dylai'r Llywodraeth roi mwy o gyllid i sefydliadau VCSE i helpu i reoli unigolion cymhleth ar drwydded er mwyn sicrhau canlyniadau gwell, lleihau troseddau ac ysgafnu'r pwysau ar y system brawf gyfan.

Clywodd yr Adolygiad hefyd y gellir defnyddio'r trydydd sector i roi canlyniadau gwell i wahanol gohortau o droseddwr ag anghenion cymhleth sydd ar ddedfrydau yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys merched a throseddwr cyson – a drafodir ym Mhennod Chwech – ynghyd â manteision cymorth amlasiantaethol wrth reoli troseddwr sy'n cyflawni trais yn erbyn merched a genethod. Rhoddir mwy o fanylion am hyn ym Mhennod Pump.

Defnyddio technoleg yn y Gwasanaeth Prawf

Hyd yn oed gyda chymorth y trydydd sector, mae'r Gwasanaeth Prawf yn debygol o fod yn rheoli nifer gynyddol o achosion risg uchel yn y gymuned o ganlyniad i argymhellion yr Adolygiad. Mae'r Adolygiad felly'n pwysu ar y Llywodraeth i sicrhau y gall ymarferwyr prawf roi mwy o amser i adsefydlu troseddwr, sy'n allweddol i leihau aildroseddu a risg o niwed.

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Prawf yn treulio amser sylweddol ar waith gweinyddol a phrosesau asesu risg, sy'n rhoi baich trwm iawn ar ymarferwyr.⁴⁰⁹ Dywedodd staff Prawf a ymgysylltodd â'r Adolygiad fod gormod o waith papur a phrosesau sy'n mynd ag amser i ffwrdd o weithio'n uniongyrchol â throseddwr sy'n niweidiol i adsefydlu troseddwr.⁴¹⁰ Yn y cyfamsr, roedd adroddiad gan HMIP yn 2024 yn nodi bod y Gwasanaeth Prawf yn canolbwyntio'n ormodol ar asesu risg a gorfodaeth – a hynny ar draul adsefydlu – oherwydd diffyg amser a phrofiad i fagu perthynas ystyrlon â throseddwr.⁴¹¹

ARGYMHELLIAD 7.4: Defnyddio mwy ar dechnoleg a brofwyd i fod yn gweithio yn y Gwasanaeth Prawf er mwyn hwyluso ymgysylltu mwy ystyrlon rhwng ymarferwyr a throseddwr ar brawf

Mae'r Adolygiad yn credu bod angen lleihau faint o brosesau a gwaith papur sy'n cael ei wneud gan ymarferwyr er mwyn canolbwyntio mwy ar adsefydlu. Clywodd yr Adolygiad hefyd drwy'r Alwad am Dystiolaeth fod trafferthion gyda rhannu data'n effeithiol ar draws y system cyfiawnder troseddol, ac yn allanol â gwasanaethau statudol eraill a sefydliadau VCSE. Gellir defnyddio technoleg i ryddhau capasiti ymarferwyr i roi mwy o ffocws ar fagu perthynas a gweithio'n uniongyrchol â throseddwr, a hefyd i sicrhau cydweithrediad gwell rhwng sefydliadau.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn peilota llwyfan digidol newydd sy'n cyfuno'r holl wybodaeth am droseddwr mewn un lle, ynghyd ag adnoddau AI i awtomeiddio prosesau fel cymryd nodiadau, i roi mwy o amser i staff ganolbwyntio ar adeiladu perthynas.⁴¹² Os yw'r gwerthusiad cychwynnol yn awgrymu bod y technolegau newydd hyn yn llwyddo i ryddhau capasiti ymarferwyr, gallai cyflwyno'r dechnoleg yn ehangach helpu i ysgafnu'r baich gweinyddol ar swyddogion prawf a chynorthwyo ymgysylltu mwy ystyrlon.

Rhoddir mwy o fanylion am sut y gallai'r Gwasanaeth Prawf ddefnyddio technoleg ym Mhennod Wyth. Mae'r bennod yn egluro sut y gall technoleg leihau'r baich gweinyddol i'w gwneud yn haws i swyddogion prawf flaenoriaethu adnoddau. Mae hefyd yn argymhell sut y gallai buddsoddi mewn ymchwil a datblygu helpu i adnabod, profi a chyflwyno technoleg newydd i roi dealltwriaeth aml-haen i swyddogion ar gyfer rheoli troseddwr a lefelau risg yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

Pennod Wyth: rôl technoleg

Roedd gan yr Adolygiad y dasg o ystyried sut y gall technoleg helpu i reoli troseddwyd yn y gymuned, gan gydnabod bod taer angen gwella'r sefyllfa bresennol ond hefyd er mwyn achub ar gyfleoedd mwy hirdymor i drawsnewid pethau.⁴¹³ Mae technoleg yn helpu i symleiddio prosesau, dyrannu adnoddau'n fwy effeithiol a gwella canlyniadau drwy ddulliau arloesol fel dilysu hunaniaeth digidol, penderfyniadau drwy AI a dadansoddi data mewn 'amser real'. Mae sectorau fel gofal iechyd, trafnidiaeth, amddiffyn a phlisma'n cofleidio'r datblygiadau hyn ac mae cyfleoedd gwych i'r system cyfiawnder troseddol gael gwneud yr un peth.

Ond cyn trafod technolegau newydd fel AI, mae'n bwysig "cael y pethau sylfaenol yn iawn" pan fo'n fater o dechnoleg. Mae'r Adolygiad wedi ymgysylltu ag amrywiol staff rheng flaen a ddywedodd, i lawer o wasanaethau, nad yw hyn yn digwydd.

Wrth ymgysylltu â staff mewn Hostel Brawf, clywodd yr Adolygiad fod gwasanaethau'n aml heb y dechnoleg sylfaenol i wneud eu gwaith, fel gwe-gamerâu i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol, ac mae llawer o'r prosesau'n dal yn rhai papur. Clywsom fod systemau TG a ddefnyddir gan wasanaethau cyfiawnder troseddol hefyd wedi dyddio ac yn drwsgwl. Mae'r Adolygiad yn cydnabod y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddiweddarau ei systemau digidol. Bydd hefyd yn greiddiol er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer arloesi yn y dyfodol.

Mae ffocws yr Adolygiad wedi edrych y tu hwnt i'r "pethau sylfaenol" ac at dechnoleg a allai drawsnewid sut y rheolir troseddwyd yn y gymuned.⁴¹⁴ Mae'r dechnoleg bresennol a ddefnyddir i reoli troseddwyd y tu allan i garchar fel arfer yn cynnwys tri math o fonitro electronig, i gyd yn cynnwys tag yn sownd wrth ffêr y gwisgwr. Mae'r tagiau electronig ar gael i holl lysoedd Cymru a Lloegr.⁴¹⁵

- A. Mae **monitro lleoliad** yn defnyddio tag GPS technoleg lloeren, i fonitro cydymffurfio ag ardaloedd cadw allan, mynychu gweithgareddau adsefydlu a lleoliad y person.
- B. Mae **monitro cyrffiw** yn defnyddio tag Amledd Radio (RF) i fonitro pa mor agos yw person at orsaf yn y cartref.
- C. Mae **monitro alcohol (tagiau sobrwydd)** yn defnyddio dyfeisiau monitro alcohol dan y croen i ganfod alcohol drwy ddadansoddi chwys. Mae'r tagiau hyn yn ffordd barhaus anymwthiol o orfodi sobrwydd i droseddwyd cysylltiedig ag alcohol.

Mae rhai gwasanaethau cyfiawnder troseddol wedi integreiddio mwy o dechnoleg i reoli troseddwyd. Er enghraifft, mae gan Hosteli Prawf Diogelwch Uwch (ESAP) systemau Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) biometrig a chamerau corff ar gyfer chwilio ystafelloedd, yn ogystal â throseddwyd ar fonitro electronig.⁴¹⁶ Ond awgryma'r dystiolaeth mai defnydd prin o hyd a wneir o dechnoleg i reoli troseddwyd,⁴¹⁷ ac mae'n aml yn gweithredu mewn seilos ar draws y system gyfiawnder.⁴¹⁸ Er y defnyddir monitro electronig fel tagiau GPS ar gyfer llawer o droseddwyd, nid yw'n effeithiol o hyd gan ddibynnu'n drwm ar sut a ble y mae'n cael ei ddefnyddio.⁴¹⁹ Mae ffocws technolegau monitro ac adrodd yn aml ar sicrhau cydymffurfio a dylid meddwl mwy sut i integreiddio technoleg ag ymyriadau adsefydlu troseddwyd, fel Rhaglenni Achrededig, i wella cydymffurfio ac adsefydlu.⁴²⁰

Mae'r argymhellion yn y bennod hon yn disgrifio sut y dylai'r Llywodraeth fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan dechnolegau hygyrch a ddefnyddir yn barod, a thechnoleg newydd yn y tymor hirach, i reoli troseddwyd ac amddiffyn y cyhoedd yn well, a lleihau aildroseddu.

Cyfleoedd i wneud y defnydd mwyaf o dechnoleg i reoli troseddwyd yn y gymuned

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a dderbyniodd yr Adolygiad, mae argymhellion y bennod hon yn seiliedig ar dair egwyddor:

Blaenoriaethu: Dylid defnyddio technoleg i helpu pobl i flaenoriaethu'r gwaith y gellir ond ei wneud ganddyn nhw. Gydag adnoddau'n brin, gellir defnyddio technoleg fel AI i ryddhau amser swyddogion prawf i ganolbwyntio mwy ar y pethau y gellir ychwanegu fwyaf o werth iddynt – cefnogi'r unigolion sydd â'r risg fwyaf o aildroseddu a mwyaf angen eu hailsefydlu. Ni ddylai technoleg ddisodli rôl y cyswllt dynol wrth reoli troseddwyd ond fe ddylai gynorthwyo gweithwyr rheng flaen i wneud peth o'u gwaith yn fwy effeithlon.

Diogelu'r cyhoedd: Gellid cyfuno dulliau AI â thechnolegau eraill fel 'adnabod wyneb' i gasglu a dadansoddi data 'amser real' ar droseddwyd yn barhaus, a monitro eu lefel risg wrth iddo newid. Gallai hyn helpu swyddogion prawf i ddiogelu dioddefwyr a'r cyhoedd drwy 1) adnabod arwyddion rhybuddio'n gynt, 2) addasu lefelau goruchwyllo'n gynt, a 3) darparu ymyriadau 'sefyllfa waethybol' yn gynt i gefnogi neu ddychwelyd unigolion i'r llys neu garchar, lle bo'n briodol.

Personoli: Dylid gwneud mwy i bersonoli dulliau o reoli troseddwyd ar drwydded neu ddedfryd gymunedol er mwyn gallu goruchwyllo ac adsefydlu troseddwyd mewn gwahanol sefyllfaoedd yn y ffordd fwyaf priodol. Er enghraifft gellid defnyddio adnoddau ac apiau ffôn symudol ar gyfer adsefydlu fel bo'r troseddwr yn gallu cysylltu â'r Gwasanaeth Prawf a derbyn gwybodaeth yn haws, i gyd mewn un lle ar eu ffôn. Gellid hefyd defnyddio mwy ar dechnolegau monitro a synhwyro yn y dyfodol i greu amgylchedd diogel y tu allan i garchar ar gyfer troseddwyd, er mwyn cyfateb dwysedd yr oruchwyliaeth i lefel risg ac anghenion yr unigolyn.

Heriau gyda defnyddio technoleg i reoli troseddwyd

Mae'r Adolygiad yn cydnabod y rôl drawsnewidiol y gallai defnyddio mwy ar dechnoleg ei chwarae gyda rheoli troseddwyd yn y gymuned. Fodd bynnag, nid yw defnyddio'r technolegau hyn heb ei heriau ac mae hyn yn arbennig o wir am dechnoleg newydd sydd heb ei gwerthuso'n llawn na'i hasesu o ran risg eto.

Mae'n bwysig rhoi rhagofalon a phrosesau gwerthuso priodol yn eu lle ar gyfer technoleg newydd a ddefnyddir i reoli troseddwyd. Dywedodd lawer yn eu tystiolaeth fod yn rhaid i wasanaethau osgoi rhagfarn a chanlyniadau annheg wrth ddefnyddio AI oherwydd mae'r meddalwedd yn aml wedi'i hyfforddi'n defnyddio data sy'n gallu adlewyrchu anghydraddoldebau strwythurol a wynebir gan grwpiau ymylol. Dywedodd amryw o eiriolwyr a datblygwyr AI yn ystod y sesiynau bwrdd crwn y gellir codio "gwahanfuriau" mewn modelau AI i'w hatal rhag creu dadansoddiadau data sy'n cynnwys rhagfarn, neu drwy godi rhybudd os defnyddir rhagfarn yn y data. Dywedodd datblygwr hefyd fod yn rhaid monitro perfformiad y gwahanfuriau hyn yn rheolaidd a'i bod yn hanfodol bod pobl yn rhan o'r trosolwg a'r gwerthuso hwn.

Ychwanegodd y *think tank* JUSTICE y dylid rhaglennu modelau AI i fod yn dryloyw am, ac i ddarparu tystiolaeth o sut y cynhyrchir y dadansoddiadau.⁴²¹ Roedd JUSTICE hefyd yn dadlau dros fframwaith hawliau dynol o ryw fath, i dwys a gwerthuso sut y defnyddir AI yn y system gyfiawnder, yn hytrach na fframwaith "moesegol" mwy cyffredinol oherwydd nad yw "moeseg" wedi'i ddiffinio cystal mewn cyfraith ac ymarfer.⁴²²

Trafododd yr Adolygiad faterion o gwmpas yr hawl i breifatrwydd a rhannu data yn ystod y sesiynau trafod technoleg. Mae Cyngor Ewrop yn credu, a chafodd hyn ei ailadrodd yn eu

hargymelliad diweddar ar AI, y dylid “cyfyngu’r wybodaeth a ddatgelir i’r gwasanaethau prawf i’r hyn sy’n berthnasol i bwrpas cyfreithlon yr awdurdod.”⁴²³ Disgrifiodd y rhai a fynychodd y sesiynau bwrdd crwn y darlun mwy cyflawn o risg y gellir ei greu pan fydd gan fodelau rhagfynegi fel AI fynediad at fwy o wybodaeth berthnasol, ond roedd yn aneglur a ddylai fod gan swyddogion prawf fynediad at gofnod iechyd cyfan troseddwr er mwyn deall a monitro eu risg yn well. Dywedodd y rhai a fynychodd y sesiynau hyn hefyd fod technoleg ar gael sy’n gallu rhannu canfyddiadau data allweddol heb rannu ei ffynhonnell gan awgrymu defnyddio peirianwyr preifatrwydd wrth ddatblygu AI ar gyfer y system cyfiawnder troseddol. Rhaid i’r Llywodraeth ystyried diogelu a phreifatrwydd data pobl yn ofalus, a hefyd yr angen a pha mor gymesur fyddai rhannu data ar droseddwr.

Bydd nifer o argymhellion yr Adolygiad yn arwain at reoli mwy o droseddwr yn y gymuned, gyda mwy o droseddwr yn cael eu monitro’n electronig. Mae’r Adolygiad yn ymwybodol o heriau darparu sylweddol gyda’r rhaglen monitro electronig yng Nghymru a Lloegr,⁴²⁴ sy’n codi cwestiynau pwysig am barodrwydd a gwydnwch y system bresennol. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwmo i ddatrys y problemau hyn cyn darparu gan ddisgwyl bod mewn sefyllfa i ehangu monitro electronig erbyn hanner cyntaf 2026, gan ddibynnu ar ganfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad hwn.

Rhaid i ddefnydd mwy o fonitro electronig hefyd fynd law yn llaw â buddsoddiad digonol mewn adnoddau Prawf. Bydd hyn er mwyn sicrhau bod person go iawn o hyd ar gael i weithio gyda throseddwr sy’n cael ei fonitro, fel na fydd y troseddwr yn dod i’r llys neu’n cael ei alw’n ôl i garchar am broblemau gyda’r tag sydd y tu allan i’w rheolaeth. Gallai hefyd fod mwy o risg o niwed i deuluoedd drwy orfod treulio mwy o amser yn y cartref gyda throseddwr ar gyrffw monitro electronig.⁴²⁵ Mae’n hanfodol bod gan y Gwasanaeth Prawf ddigon o adnoddau ac awtonomi i ymyrryd yn sydyn yn y sefyllfaoedd hyn ac asesu pa ymyriadau ‘sefyllfa waethybol’ a fyddai’n briodol ([mwy o fanylion yn Argymhellion 2.4 a 4.3](#)).

Mae’n greiddiol bwysig bod y cynigion technoleg isod yn cael eu hystyried ochr yn ochr â’r heriau a gyflwynir ac nad yw’r cynigion hyn yn cael eu gweld fel “bwled arian” ar gyfer rheoli troseddwr yn y gymuned.

ARGYMHELLIAD 8.1: Defnyddio technoleg yn fwy effeithiol i amddiffyn y cyhoedd a gwella adsefydlu

Rhaid defnyddio’r dechnoleg rheoli troseddwr bresennol yn fwy effeithiol i amddiffyn y cyhoedd yn rhagweithiol a gwella adsefydlu yn y gymuned. I wneud hyn, nid yn unig y mae angen defnyddio’r dechnoleg yn ehangach, rhaid hefyd cael mwy o gydlyn traws-asiantaethol fel bo’r dechnoleg yn gallu gwneud mwy o ddiweddarau ‘amser real’ ar y troseddwr ac integreiddio ag ymyriadau adsefydlu. Gellid gwneud hyn mewn nifer o feysydd gwaith:

Ehangu monitro electronig yn gyfrifol

Yn 2022, argymhellodd Arolygiaeth Prawf EF (HMIP) fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn “sicrhau bod contractau i ddarparu monitro electronig yn y dyfodol yn blaenoriaethu anghenion darparu’r Gwasanaeth Prawf, gan gynnwys mynediad at ddata monitro amser-real”. Argymhellodd hefyd y dylid “rhannu gwybodaeth orfodaeth yn amserol ac ymateb yn gynt i alwadau ffôn ac ebyst”.⁴²⁶ Dylai’r Llywodraeth gynorthwyo i gynyddu monitro troseddwr mewn “amser real” er mwyn adnabod arwyddion rhybuddiol ac ymateb yn gynt, i ddiogelu’r cyhoedd a dioddefwyr yn well. Mae enghreifftiau rhyngwladol o fonitro electronig llwyddiannus mewn “amser real”:

Yn New South Wales, Awstralia, defnyddir monitro GPS i orfodi amodau mechnïaeth ar gyfer troseddwytr trais domestig honedig. Os yw unigolyn wedi'i dracio'n mynd i ardal cadw allan, mae Gwasanaethau Cywirol NSW yn rhybuddio a hysbysu'r heddlu'n syth i ymateb yn ddiymdroi, fel rhan o system fonitro "amser real" gydlynol o wella diogelwch dioddefwyr.⁴²⁷ Mae De Corea hefyd yn defnyddio monitro GPS 24/7 ar gyfer troseddwytr rhyw risg uchel.⁴²⁸ Mae canfyddiadau dangosol ar gyfer 2003-2007 yn awgrymu bod 14.1% o droseddwytr trais rhywiol wedi ailadrodd yr un drosedd cyn gweithredu monitro electronig, o'i gymharu â 2.1% yn 2015-2019 ar ôl cyflwyno'r system.⁴²⁹

Mae tracio "amser real" yn rhoi pwysau sylweddol ar staff Prawf a heddlu wrth ymateb i rybuddion, yn enwedig mewn achosion risg uchel fel cam-drin domestig a stelcian. Mae cydlynu traws-asiantaethol felly'n hanfodol. Os am ehangu monitro electronig, byddai angen buddsoddi nid yn unig i gynyddu'r ddarpariaeth dechnolegol ond hefyd mewn adnoddau dynol i'w ddarparu. Byddai hefyd angen protocolau ymateb clir ar y cyd ac integreiddio systemau digidol yn well ar draws gwahanol asiantaethau. Lle y mae swyddogion yn cyfathrebu a rhoi cymorth i ddioddefwyr a effeithiwyd gan fonitro electronig, dylid gwneud hyn mewn ffordd "deall trawma" glir.

Yn olaf, rhaid i dechnoleg monitro electronig gael ei darparu law yn llaw â digon o adnoddau dynol i roi cymorth medrus i droseddwytr er mwyn eu hadsefydlu. Yn ôl y dystiolaeth, mae rhai dioddefwyr trais domestig a theuluol yn teimlo bod technoleg monitro electronig yn gallu creu teimlad ffug o ddiogelwch,⁴³⁰ ac mae'n hanfodol bod troseddwytr yn parhau i dderbyn ymyriadau i fynd i'r afael â'r rhesymau wrth wraidd eu troseddu. Dylai'r Llywodraeth ystyried cyflwyno cynlluniau peilot i brofi sut y gallai ehangu monitro electronig a mwy o gymorth i droseddwytr gan swyddogion prawf, naill ai drwy oruchwyliaeth neu raglenni eraill, wella cydymffurfio ac adsefydlu a lleihau cyfraddau aildroseddu.

Defnydd ehangach o freichledi monitro alcohol

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi adnabod bod gan gam-drin cyffuriau ac alcohol gysylltiad cryf ag aildroseddu.⁴³¹ Ar 30 Medi 2024, roedd tua 3,400 o unigolion wedi cael eu ffitio gyda dyfais monitro alcohol, cynnydd o 2,800 ar 31 Rhagfyr 2023.⁴³²

Yn 2024, ers cyflwyno tagiau alcohol yn Hydref 2020 yng Nghymru a Lloegr, adroddwyd bod dros 97% o'r diwrnodau pryd y defnyddiwyd y tagiau yn rhai di-alcohol.⁴³³ Casglodd astudiaeth fach o dagiau alcohol a beilotwyd yn Llundain fod canran uchel o droseddwytr wedi cyflawni troseddau pellach ar ôl tynnu'r tag (27%) o'i gymharu â phan oeddent yn gwisgo'r tag (4.8%).⁴³⁴ Er bod hyn yn awgrymu bod monitro alcohol yn effeithiol i sicrhau cydymffurfio pan wisgir y tagiau, mae canfyddiad yr astudiaeth o ddim gwahaniaeth sylweddol mewn aildroseddu yn y chwe mis ar ôl dechrau'n dangos bod angen mwy o waith i ddeall sut y gellir defnyddio tagiau monitro alcohol yn effeithiol.⁴³⁵

O dan raglen "24/7 Sobriety" De Dakota, roedd angen i unigolion a arestiwyd neu a gafwyd yn euog o yrru dan ddylanwad alcohol wneud dau brawf alcohol y dydd neu wisgo breichledi monitro. Arweiniodd hyn at 12% yn llai o achosion ail-arestio am yrru a gyrru a llwyddiant y rhaglen yn cael ei briodoli i ymateb yn sydyn i dorri'r gofynion.⁴³⁶ Mae'r Adolygiad hefyd yn ymwybodol o astudiaethau achos o ddefnyddio monitro alcohol gyda phobl sydd â hanes o droseddau treisgar, a gasglodd fod tagiau'n gymhellid i beidio ag yfed, gan gynorthwyo troseddwytr i ddod o hyd i waith a chael perthynas.⁴³⁷

Dylid defnyddio monitro alcohol yn ehangach i reoli troseddwyd addas yn y gymuned gan wneud y mwyaf o'i fanteision drwy ei integreiddio'n amlach â gofynion fel Rhaglenni Achrededig ar gyfer camdrinwyr domestig. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall monitro alcohol annog cydymffurfio ac y dylid ei ddefnyddio i atgyfnerthu ymddygiad da.⁴³⁸ O ganlyniad, dylai'r Llywodraeth ystyried sut i ddefnyddio'r dechnoleg yma'n ehangach yn lle carcharu, law yn llaw ag ymyriadau adsefydlu i fynd i'r afael â'r rhesymau wrth wraidd y troseddau, i droseddwyd gyda phroblemau sylweddau a gyflawnodd droseddau lefel isel. Byddai angen cymorth wedi'i deilwrio'n well gan swyddogion prawf i'r troseddwyd hyn, yn unol ag Argymhelliad 2.4, pe bai monitro alcohol yn cael ei ehangu.

ARGYMHELLIAD 8.2: Buddsoddi mewn ehangu cynlluniau peilota technoleg llwyddiannus a ddefnyddir i oruchwylio troseddwyd

Mae'r Adolygiad wedi gwneud nifer o argymhellion i leihau'r pwysau ar gapasiti carchardai, gan ystyried effaith yr argymhellion hyn ar y Gwasanaeth Prawf ([mwy o fanylion ym Mhenodau Tri, Pedwar a Saith](#)). Ar gyfer pob troseddwyd sy'n cael ei ryddhau neu ddargyfeirio o garchar, mae angen teilwrio rheolaeth o'r achos, adrodd rheolaidd, asesiadau risg a chydlynu ar draws gwahanol asiantaethau. Mae hyn yn rhoi pwysau gweinyddol trwm ar wasanaethau prawf a heddlu sydd dan bwysau mawr yn barod.

Mae Cynllun Gweithredu AI y DU yn tynnu sylw at yr effaith y gall integreiddio mwy o AI mewn gwasanaethau cyhoeddus ei gael ar leihau gwaith gweinyddol.⁴³⁹ Dywedodd arweinwyr busnes wrth yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg fod defnyddio AI i ddrafftio adroddiadau a llenwi ffurflenni'n gallu cwtogi "amseroedd cynhyrchu dogfennau terfynol" o rhwng 20-80%. Roedd cynorthwywyr AI, a ddefnyddir i gyflymu tasgau ailadroddus, yn arbed dros 15 awr yr wythnos i athrawon ar gynllunio gwersi a marcio, mewn cynlluniau peilot. Mae'r Cynllun Gweithredu'n ychwanegu, er bod achosion o ddefnydd da o AI ar draws y sector cyhoeddus, eu bod yn aml ar raddfa fach ac mewn seilos.⁴⁴⁰

Mae nifer o gynlluniau peilot addawol yn edrych ar botensial technoleg goruchwyliaeth, ar gyfer monitro "amser real", holiadau cyswllt o bell a gweinyddu drwy AI, sy'n dangos sut y gallai gynorthwyo'r Gwasanaeth Prawf i flaenoriaethu adnoddau a rheoli troseddwyd yn y gymuned yn fwy effeithlon.

Ar hyn o bryd mae swyddogion prawf wedi eu cyfyngu gan brosesau sy'n gallu blaenoriaethu gwaith papur trwm yn lle amser wyneb yn wyneb â'r bobl y maen nhw'n eu goruchwyllo – gwaith fel atgyfeiriadau, asesiadau a gwaith gweinyddol arall.⁴⁴¹ Mae'r ffocws hwn ar broses, a'r baich gweinyddol cysylltiedig, yn tanseilio'r potensial i swyddogion prawf ddatblygu perthynas ystyrion sy'n gallu cefnogi troseddwyd i adsefydlu a lleihau'r risg i'r cyhoedd ([mwy o fanylion ym Mhenodau Saith](#)).⁴⁴² Mae peilot gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i brofi llwyfan digidol newydd sy'n dod â dulliau AI, a'r holl wybodaeth angenrheidiol am droseddwr, at ei gilydd. Mae'r llwyfan wedi'i ddylunio i awtomeiddio prosesau fel cymryd nodiadau i helpu staff Prawf i flaenoriaethu a chanolbwyntio eu hamser.

Yn Queensland, Awstralia ar Mehefin 2024 roedd dros 13,000 o unigolion dan oruchwyliaeth yn defnyddio QCS Connect.⁴⁴³ Offeryn rheoli achosion digidol yw hwn sy'n darparu mwy na'r holiadau cyswllt traddodiadol dros y ffôn gan ddefnyddio dulliau biometrig wyneb ac ôl-bysedd mewn ciosg neu ar ap ffôn symudol fel bod troseddwyd yn gallu defnyddio gwasanaethau fel hunan-adrodd neu ymateb i holiadau cyrffiw gyda swyddogion.⁴⁴⁴ Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn peilota holiadau cyswllt ac adrodd o bell ar gyfer troseddwyd risg isel, yn ogystal ag offeryn digidol i gyfuno'r holl wybodaeth sydd ei angen ar swyddog prawf mewn un lle.

Os bydd y peilotiaid yn llwyddo, dylid buddsoddi yn y dulliau arloesol hyn a'u cyflwyno'n ehangach i hwyluso ymatebion cynt, asesiadau risg clyfrach a Gwasanaeth Prawf mwy effeithlon gan ryddhau swyddogion prawf i ganolbwyntio eu harbenigedd ar achosion risg uchel a thasgau y gellir ond eu gwneud gan bobl. Gallai'r holiadau cyswllt o bell fod yn arbennig o addas ar gyfer unigolion risg is, lle y gallai technoleg ffonau symudol gynnig cyfleoedd i ehangu'r dechnoleg ymhellach.

ARGYMHELLIAD 8.3: Gofyn bod pob technoleg a ddatblygir er mwyn rheoli troseddwr yn integredig â gwyddoniaeth ymddygiad

Mae technegau 'hwb' yn adnoddau gwyddoniaeth ymddygiad i annog pobl i wneud dewisiadau gwell.⁴⁴⁵ Dylai'r Llywodraeth ddefnyddio mwy ar y technegau hyn gan fod y dystiolaeth gynnar yn awgrymu eu bod yn effeithiol i gael troseddwr i ymddwyn yn well.⁴⁴⁶ Gallai hyn gynnwys:

Defnyddio hysbysiadau ffôn, e-bost, neu wats glyfar

Gellir defnyddio hysbysiadau drwy'r dechnoleg yma i roi "hwb" i unigolion ar brawf i ymddwyn yn dda, er enghraifft drwy fynychu sesiynau llys ac adsefydlu neu gwblhau holiadau cyswllt sy'n ofynnol. Yn ôl astudiaeth yn Efrog Newydd, roedd defnyddio technegau "hwb" ar gyfer ffurflen gwys llys newydd wedi arwain at 13% yn llai o achosion methu ag ymddangos (FTA), gyda'r neges atgoffa testun fwyaf effeithiol yn lleihau cyfraddau FTA o 26%.⁴⁴⁷ Mae'r GIG hefyd wedi defnyddio negeseuon testun i gynyddu mynychu apwyntiadau a helpu i glirio ôl-waith achos.⁴⁴⁸

O ystyried bod ffonau symudol mor gyffredin, dylid disgwyl gallu cysylltu â phob unigolyn dan oruchwyliaeth ôl-garcharu ar ffôn symudol, yn ogystal ag unrhyw fonitro electronig a / neu GPS a fyddai'n briodol. O leiaf, dylai HMPPS sicrhau bod gan bob unigolyn sy'n gadael y carchar fynediad at ddyfais gyfathrebu fel ffôn sylfaenol. Byddai hyn yn cynorthwyo cymorth ymarferol ar ôl rhyddhau, cyfathrebu gwell gyda swyddogion prawf a hefyd, os byddai gan droseddwr ffôn clyfar, yn rhoi hwb ymddygiad cyson er mwyn gwella cydymffurfio ac ymgysylltu.

Creu adborth amser real i wneuthurwyr penderfyniadau ar bob lefel

Gallai derbyn adborth amser real, a dadansoddi data i gyd-fynd â hynny, helpu gweithwyr yn y system cyfiawnder troseddol i addasu asesiadau risg yn ddeinamig a sicrhau ymatebion cymesur. Mae Gwasanaethau Cyn-Dreial Harris County yn Nhecsas yn defnyddio dangosfwrdd data digidol sy'n dangos ymddygiad parhaus dros 2,200 o bobl sy'n aros am dreial yn y gymuned. Clywsom fod y dangosfwrdd hwn wedi cynorthwyo barnwyr i addasu amodau goruchwyliaeth pobl sy'n aros am dreial yn y gymuned i gyd-fynd â lefel eu cydymffurfio, fel lleihau nifer y bobl sydd angen gwisgo dyfais fonitro electronig neu gymryd prawf cyffuriau wythnosol, heb unrhyw newid mewn cydymffurfio neu ail-arestio.⁴⁴⁹

Clywodd yr Adolygiad hefyd yn ei sesiynau bwrdd crwn fod newid ymddygiad hirdymor yn bosib i droseddwr drwy wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg i ddarparu deunyddiau addysgol a chymorth, fel rhai ar lythrennedd ariannol, sgiliau digidol, iechyd meddwl a gwydnwch. Dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gallai integreiddio technegau gwyddoniaeth ymddygiad, drwy dechnoleg "hwb" a darparu deunyddiau addysgol, yn y dechnoleg a ddefnyddir i reoli troseddwr yn y gymuned.

Defnyddio mwy ar adnabod wynebau

Mae sectorau cyhoeddus a phreifat y DU yn defnyddio adnabod wynebau'n eang i fonitro mannau cyhoeddus fel bo'r heddlu'n gallu adnabod troseddwr ac atal ymddygiad troseddol os yw'r dechnoleg yn weladwy neu wedi'i harwyddo. Mae CCTV wedi'i gysylltu'n barod â

lleihad ystadegol arwyddocaol mewn troseddu, er enghraifft troseddau cyffuriau, cerbydau ac eiddo, o'i gymharu ag ardaloedd heb deledu cylch cyfyng.⁴⁵⁰

Yn Lloegr yn 2024, cyfeiriodd Southern Co-op at ffigurau mewnol o 34% yn llai o ladrata o siopa a thrais yn erbyn staff mewn siopau oedd â thechnoleg adnabod wynebau a thechnoleg gysylltiedig, gan ddangos potensial cudd-wyllo mannau cyhoeddus i atal ymddygiad troseddol.⁴⁵¹ Yn ôl astudiaeth arall o ddefnydd gwasanaethau'r heddlu o adnabod wynebu mewn dinasoedd yn UDA, roedd defnydd cynnar o system adnabod wynebu'n gysylltiedig â lleihad mewn lladdiadau. Y ddamcaniaeth yw bod defnyddio adnabod wynebu'n atal troseddu drwy hwyluso arestio ac euogfarnu amserol.⁴⁵²

Dylai'r Llywodraeth ystyried ble i integreiddio technoleg adnabod wynebau mewn mannau penodol, neu'n ehangach mewn mannau cyhoeddus, i reoli rhai troseddwy'r yn well yn y gymuned. Er mwyn goleuo arferion gorau, dylid gwneud mwy o waith i ddeall sut a pham y gallai CCTV a thechnoleg adnabod wynebau helpu i leihau troseddu. Rhaid i'r Llywodraeth hefyd ystyried tegwch gweithdrefnol wrth weithredu adnabod wynebau, i sicrhau bod pobl yn cael eu trin yn deg a chyfartal wrth ddefnyddio'r dechnoleg yma.

Mae'r cyhoedd wedi dangos ymwybyddiaeth isel o ddefnyddio adnabod wynebau'n fasnachol, fel mewn archfarchnadoedd.⁴⁵³ Mae Police Scotland wedi amlinellu bod rhwymedigaeth gyfreithiol a moesol i roi gwybod i'r cyhoedd os defnyddir adnabod wynebau.⁴⁵⁴ Os oes technoleg adnabod wynebau yn ei lle, dylai'r Llywodraeth drafod a fyddai gwneud arwyddion yn fwy gweladwy'n atal aildroseddu ac ateb galwadau i'w ddefnyddio'n dryloyw.⁴⁵⁵

ARGYMHELLIAD 8.4: Gwella rhannu data rhwng asiantaethau sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf

Dywedodd rai a fynychodd y sesiynau bwrdd crwn fod diffyg rhannu data rhwng adrannau'r Llywodraeth yn cyfyngu ar asesiadau risg holistig, trylwyr. Mae diffyg rhannu data'n golygu, yn aml iawn, nad yw gwybodaeth am bethau perthnasol fel tai, iechyd meddwl, perthnasoedd a chyflogaeth yn cael ei defnyddio i asesu risg oherwydd nad yw'r data ar gael i'r Gwasanaethau Prawf. Clywodd yr Adolygiad fod hyn yn aml oherwydd nad oes cytundeb yn ei le rhwng adrannau ac asiantaethau i rannu data perthnasol.

Mae dau ddull gwahanol o rannu data neu "gysylltu data": cysylltu data di-adnabod o wahanol ffynonellau i ddeall a gwella arferion yn gyffredinol ar lefel traws-system; a chysylltu data unigolyn yn defnyddio data adnabod unigryw neu ID digidol (e.e. rhif GIG, Rhif Yswiriant Gwladol) i deilwrio gwasanaethau i unigolyn.

- a) Mae **data di-adnabod** yn sicrhau preifatrwydd drwy ddileu'r data adnabod ac yn cael ei ddadansoddi gyda'i gilydd i gynnig mewnwelediad ar lefel genedlaethol. Mae enghreifftiau rhyngwladol yn cynnwys gwaith yn Seland Newydd i ddeall ffactorau lles wedi eu cysylltu i droseddwy'r ifanc.⁴⁵⁶
- b) Byddai **system adnabod digidol sengl** yn cael ei defnyddio ar gyfer troseddwy'r ar brawf i gysylltu data a gwybodaeth am unigolyn, sydd ar hyn o bryd heb eu cysylltu, ar draws gwasanaethau fel cyfiawnder, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol. Gellid ei defnyddio i dracio ymddygiad ac ymgysylltiad unigolyn, fel gyda defnydd Estonia o ID digidol (nid Prawf-benodol).⁴⁵⁷

Rhaid i'r Llywodraeth benderfynu pa opsiwn i'w ddefnyddio i gysylltu data ar draws adrannau a gwasanaethau. Mae Cynllun Gweithredu AI y DU hefyd yn rhoi glasbrint ar gyfer sut y dylai'r Llywodraeth gasglu a rhannu data.⁴⁵⁸ Fodd bynnag, ar gyfer rhannu data di-adnabod a data

lefel unigolyn, nid technegol yw'r prif rwystrau bellach ond rhai moesegol a llywodraethu. Fel y soniwyd eisoes, mae cwestiynau am bwy ddylai weld pa ddata, a phryd, yn parhau i fod heb eu hateb a rhaid ystyried y materion hyn yn ofalus.

Yn ôl y Cynllun Gweithredu AI, os am ddefnyddio AI i greu mewnwelediad a rhagfynegiadau ar gyfer y sector cyhoeddus, fel yr awgryma Argymhelliad 8.5 isod, mae angen "datasetiau gwerth uchel" a dylid eu "storio ar draws y llywodraeth".⁴⁵⁹ I hyn ddigwydd, rhaid i adrannau ac asiantaethau gytuno i rannu mwy o ddata.

ARGYMHELLIAD 8.5: Cydweithredu mwy gyda diwydiant ar ymchwil a datblygu technolegau newydd i drawsnewid y gwasanaeth, gan gynnwys uwch-dechnoleg AI

Yn draddodiadol nid yw'r system gyfiawnder wedi blaenoriaethu ymchwil a datblygu (R&D). Derbyniodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder un o'r setliadau R&D isaf ar draws y llywodraeth yn 2025-26⁴⁶⁰ sydd, gyda rhai eithriadau fel monitro electronig, wedi cyfyngu ar fabwysiadu technoleg mewn carchardai ac yn y Gwasanaeth Prawf.

Dylai'r Llywodraeth fuddsoddi mewn R&D i adnabod, datblygu, profi ac ehangu technolegau newydd i gynorthwyo'r Gwasanaeth Prawf i flaenoriaethu ac ehangu eu hadnoddau, personoli sut y maen nhw'n rheoli troseddwy, a rheoli risg yn fwy effeithiol. Byddai felly angen ymdrech neilltuo i dreialu technolegau newydd, asesu eu heffaith yn ddiymdroi ac integreiddio beth sy'n gweithio yn y systemau gweithredol. Mae cydweithredu ag academia a diwydiant i gyd-ariannu a darparu R&D yn hollbwysig er mwyn cynyddu'r cyd-fuddsoddiad a gallai'r Llywodraeth ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf y tu allan i'r sector cyhoeddus i gysylltu'r dechnoleg yma i ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Dylid hefyd gwreiddio dulliau ffurfiol o 'sganio'r gorwel' mewn penderfyniadau i ragweld newidiadau a datblygiadau mewn technoleg. Gallai buddsoddi mewn R&D ganolbwyntio ar y canlynol:

Blaenoriaethu: Dylai'r Llywodraeth ystyried sut y gallai dulliau AI newydd, hwylus chwyldroi rôl dydd i ddydd swyddogion prawf drwy weithredu fel cynorthwy-ydd digidol clyfar. Byddai'r offeryn yma'n gwneud mwy nag awtomeiddio prosesau gan gyflawni tasgau penodol fel y gallai ymarferwyr ganolbwyntio mwy ar adeiladu perthnasoedd ystyrllon gyda throseddwy. Gallai tasgau i'w cyflawni gan gynorthwy-ydd AI gynnwys cynnig cymorth sylfaenol i unigolion risg isel, cynhyrchu cynllun adsefydlu wedi'i bersonoli, a dadansoddi data cydymffurfio i ragfynegi tor-amod. Gallai'r offeryn hefyd gynorthwyo i ymyrryd yn gynt gyda throseddwy sydd angen mwy o gymorth, a chysylltu pobl gyda gwasanaethau lleol fel tai, cyflogaeth, addysg neu gymorth iechyd meddwl. Er enghraifft, yn y DU mae SherlockAI yn gweithredu fel hyfforddwr bywyd digidol i gyn-garcharorion gan eu tywys at wasanaethau fel tai a budd-daliadau yn ôl eu hamgylchiadau personol.⁴⁶¹ Oherwydd mai ond yn ddiweddar y'i cyflwynwyd, ni werthuswyd ei fanteision yn llawn eto.

Yn 2023 cyhoeddodd ymchwilwyr ym Mhrifysgol Cincinnati yn UDA eu bod yn datblygu sgwrs-fot AI sy'n helpu swyddogion goruchwyllo i reoli anghenion unigolion sy'n cael eu rhyddhau o garchar ar barôl, neu gyfres benodol o amodau. Mae'r sgwrs-fot yn cael ei ddylunio i ddynwared ymddygiad person a gofyn cwestiynau sgrinio i adnabod anghenion, ymddygiad risg a lles meddwl ei ddefnyddwyr, gan rybuddio pobl i ymateb os oes angen sylw ar fyrder ar y defnyddiwr.⁴⁶² Nid yw wedi cael ei werthuso'n llawn eto.

Diogelu'r cyhoedd: Dylai'r Llywodraeth ystyried sut i newid o asesiadau risg statig at fodelu risg ar sail data sy'n addasu mewn "amser real". Gallai hyn gynnwys defnyddio dulliau asesu risg ac anghenion AI i ddadansoddi patrymau ymddygiad, hanes cydymffurfio blaenorol a ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol i helpu i benderfynu pa mor addas fyddai unigolyn ar gyfer cosb a goruchwyliaeth yn y gymuned. Gallai hefyd gynnwys monitro ymddygiad drwy AI, gyda symudiadau, siarad ac ymgyswllt yr unigolyn yn cael eu tracio'n ddi-sylw mewn amser real i adnabod risg ac ymyrryd yn gynnar. Gellid cyfuno'r monitro ymddygiad hwn gyda defnyddio mwy ar dechnoleg adnabod wyneb i ganfod troseddu a thracio gweithgareddau troseddwr cyson mewn mannau cyhoeddus.

Mae Cwnstablfaeth Durham yn y DU wedi cyflwyno Offeryn Risg Asesu Niwed (HART) i asesu risg troseddwr o aildroseddu, i gynorthwyo penderfyniadau ar oedi erlyn. Hyfforddwyd HART ar ddata o 104,000 o achosion carcharu gyda ffocws ar hanesion troseddol.⁴⁶³ Dangosodd ganlyniadau rhagarweiniol yn 2022 o beilot 2 flynedd fod HART fymryn yn well na phlismyn am ragfynegi risg o aildroseddu. Nid oes adroddiad gwerthuso llawn wedi'i gyhoeddi eto.⁴⁶⁴

Mae Sefydliad Ymchwil Electroneg a Thelathrebu (ETRI) De Corea wedi datblygu system AI o'r enw Dejaview a ddyluniwyd i wella diogelwch y cyhoedd drwy ddadansoddi rhagfynegol. Mae'r system yn defnyddio AI wedi'i hyfforddi ar ddata trosedd hanesyddol, sy'n dadansoddi lluniau CCTV i dracio sefyllfaoedd ac adnabod symudiadau anarferol fel stelcian, codymau a masnachu mewn cyffuriau. Mae ETRI wedi defnyddio'r data i greu map o ardaloedd trosedd 'poeth'.⁴⁶⁵ Mae Cynllun Gweithredu AI y DU hefyd yn sôn am botensial AI i gyflawni a chyflymu asesiadau a thasgau diagnostig mewn sectorau a meysydd pwysig eraill fel gofal iechyd a chanser yr ysgyfaint.⁴⁶⁶

Personoli: Dylai'r Llywodraeth ystyried sut i ddefnyddio technoleg i greu model dedfrydu cymunedol wedi'i bersonoli mwy, a allai gynnwys buddsoddi mewn un sianel ddigidol ar gyfer troseddwr ar brawf. Byddai'r sianel yma'n cyfuno holiadau cyswllt gyda'r Gwasanaeth Prawf, cyfathrebu, cynlluniau adsefydlu a monitro mewn un lle hygyrch ar gyfer troseddwr. Yn yr Iseldiroedd, mae'r system yma'n cael ei defnyddio'n barod drwy gasgliad o apiau Prawf yn cynnwys *My Life*, *My Risks*, *My Contacts*, a *Step by Step*, ochr yn ochr â phorth cwsmer sy'n gadael i unigolion weld eu ffeiliau a rheoli eu cynlluniau ar y cyd â'u swyddog prawf.⁴⁶⁷ Gallai casgliad o apiau, i gyd ar gael mewn un lle, helpu i greu profiad cyson dan arweiniad y defnyddiwr sy'n annog ymgysylltu a lleihau gwrthdaro ar draws systemau arwahanol.

Er mwyn personoli ymyriadau adsefydlu a goruchwyllo ymhellach i gynorthwyo unigolion i aildroseddu llai, dylai'r Llywodraeth hefyd ystyried sut i ddefnyddio synhwyrddion clyfar i reoli amgylchedd troseddwr y tu allan i safle traddodiadol y carchar. Gallai hyn gynnwys monitro mwy ar droseddwr sy'n byw mewn llety yn y gymuned, i reoli risg yn well ond hefyd i gyfyngu ar symudiadau ehangach troseddwr er mwyn atal aildroseddu.

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn Nhwrcio'n bwriadu monitro troseddwy'r ar brawf drwy ddulliau adnabod wyneb a llais a meddalwedd tracio GPS ar eu ffonau symudol.⁴⁶⁸ Mae Santa Clara County yn UDA wedi contractio wats glyfar i wirio hunaniaeth mewn amser real yn defnyddio algorithmau sy'n dilysu ydy nodweddion wyneb a gyflwynir ar gyfer monitro cydymffurfio'n dod o berson byw'n hytrach na fideo neu gyfrwng arall.⁴⁶⁹ Mae Lee Health yn Fflorida hefyd yn monitro cleifion o bell drwy ddefnyddio dyfeisiau a synwryddion wedi eu cysylltu i fesur ffisioleg y cleifion yn eu cartrefi ac anfon y data hwn at glinigwyr. Mae cleifion yn gallu cyfathrebu â'u tîm triniaeth a rhoi adborth yn syth ar sut y maen nhw'n teimlo.⁴⁷⁰ Defnyddir monitro o bell mewn sectorau eraill hefyd, fel gofal iechyd, drwy ei ddefnyddio ochr yn ochr â thechnolegau eraill i leihau derbyn ac ail-dderbyn i'r ysbyty.⁴⁷¹

Yn ystod un o ymweliadau'r Adolygiad â Hostel Brawf, disgrifiodd staff y gwiriadau lles y mae'n rhaid iddynt ei wneud ar droseddwy'r i'w cadw'n ddiogel yn yr Hostel. Rhaid gwneud rhai o'r gwiriadau hyn am 1am a 3am a dywedodd staff fod hyn yn aml yn peri gofid i'r preswylwyr. Byddai awtomeiddio'r dasg yma nid yn unig yn aflonyddu llai ar breswylwyr, gallai hefyd leihau'r risg bosib i staff sy'n gorfod deffro pobl ganol nos. Ymwelodd aelodau o'r Adolygiad â chynllun peilot mewn carchar yn y DU a lansiwyd i brofi technolegau newydd ar gyfer monitro ymddygiad troseddwy'r. Mae'r peilot yn defnyddio synwryddion clyfar i fonitro newid mewn ymddygiad – gan gynnwys unrhyw hunan-niwed neu anaf – ond gan warchod preifatrwydd. Drwy ddefnyddio AI, gall y dechnoleg ddadansoddi'r data a rhybuddio staff mewn da bryd. Os bydd y dechnoleg yn llwyddiannus, gellid ei defnyddio mewn Hosteli Prawf yn y dyfodol.

Edrych tua'r dyfodol

Yn y bennod hon, mae'r Adolygiad yn gwneud argymhellion i achub ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y dechnoleg bresennol a newydd. Wrth integreiddio technoleg yn gynyddol yn y system cyfiawnder troseddol yn y dyfodol, rhaid i'r Llywodraeth fod yn ymwybodol o ganlyniadau negyddol anfwriadol posib.

Fel y soniwyd yn flaenorol, mae pryderon ymarferol a moesegol ynghylch cyflwyno technoleg yn y system gyfiawnder y dylai'r Llywodraeth barhau i'w monitro. Gallai'r pryderon hyn wneud i rai, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol yn y system gyfiawnder, deimlo'n anghyfyddus gyda defnyddio mwy o dechnoleg. Gallai ehangu'r defnydd o dechnoleg bresennol a newydd arwain at ganlyniadau anfwriadol i ddefnyddio a galw'n ôl i garchar os nad yw staff y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y Farnwriaeth, yn ffyddiog ei bod yn ddiogel ac effeithlon.

Mae'n greiddiol bwysig, wrth beilota ac ehangu technoleg pe bai'n llwyddo, bod gwerthusiadau a thystiolaeth o lwyddiant y dechnoleg ar gael yn eang i wella hyder pobl yn y dechnoleg. Mae Cynllun Gweithredu AI y DU hefyd yn galw ar y Llywodraeth i roi cymorth a pharhau i fuddsoddi yn y Sefydliad Diogelwch AI (AISI), a gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gydweithredu â'r Sefydliad i ddeall diogelwch a risgiau'r technolegau hyn.⁴⁷²

Yn ôl staff Hostel Brawf y bu'r Adolygiad yn ymweld â hi, pur anaml y maen nhw'n cael gweld eu "hanesion llwyddiant" ac fel arfer ond yn "gweld troseddwy'r sy'n dod yn ôl" ar ôl i ymyriadau gan staff fethu. Ar lefel "macro", gallai defnyddio mwy o dechnoleg yn y system cyfiawnder troseddol gynorthwyo gweithwyr proffesiynol a'r Llywodraeth i adnabod, monitro a deall effaith eu gwaith ar adsefydlu ac aildroseddu'n well.

Pennod Naw: Ystyriaethau mwy hirdymor ar gyfer system garchardai gynaliadwy

Mae'n bwysig na cholir unrhyw gynnydd a wneir o ganlyniad i argymhellion yr Adolygiad hwn a bod y llywodraethau presennol ac i ddod yn parhau i ganolbwyntio ar system garcharu gynaliadwy.

ARGYMHELLIAD 9.1: Cyflwyno corff cynghori allanol

Mae'r Adolygiad wedi cyflwyno argymhellion ar sail tystiolaeth ac arbenigedd a ddylai ysgafnu'r pwysau ar gapasiti carchardai, adsefydlu troseddwr yn well a lleihau aildroseddu. Er mwyn sicrhau dull strategol, hirdymor ar sail tystiolaeth o ddefnyddio carcharu, rhaid i'r Llywodraeth a'r cyhoedd gael mynediad at gyngor a dadansoddiad annibynnol o effaith penderfyniadau polisi a thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i leihau troseddu. Dylai hyn ddod gan gorff allanol o arbenigwyr.

Dylai corff annibynnol y tu allan i lywodraeth gynghori ar effaith y penderfyniadau polisi presennol, a rhai a wneir yn y dyfodol, ar adnoddau Prawf a charchardai. Dylai'r corff hwn gynnwys arbenigwyr annibynnol a gweithredu llais cyhoeddus ar beth sy'n gweithio i leihau troseddu. Byddai hyn yn cynorthwyo penderfyniadau a fyddai'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, yn rhoi tryloywder i lunio polisi ac annog ymwybyddiaeth o effaith traws-systemig penderfyniadau polisi. Mae'r Adolygiad hwn yn argymhell bod gan y corff dair rôl yn bennaf:

1. Awdurdod ar beth sy'n gweithio i leihau troseddu

